

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23

(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023)

HC 1578



Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23

(ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023)

Cyflwynir i'r Senedd yn unol â pharagraffau 11(4) a 15(3) Atodlen 1ZA Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2012 a Deddf Gwasanaethau Ariannol (Diwygio Bancio) 2013

Gorchmynwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 20 Gorffennaf 2023

HC 1578



© Hawlfraint yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol 2023

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Os ydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael cadarnhad gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom yn

Awdurdod Ymddygiad Ariannol

12 Endeavour Square

Llundain

E20 1JN

ISBN 978-1-5286-4109-8

E02910351 07/23

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolydd Gwasg Ei Fawrhydi



Cynnwys

1.	Rhagair y Cadeirydd.....	6
2.	Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr	10
3.	Ein rôl a sut y gwnaethom wahaniaeth yn 2022/23	13
4.	Trawsnewid yr FCA	21
5.	Ein Strategaeth 2022-25 – cynnydd yn erbyn ein hymrwymadau a'n canlyniadau.....	26
	Focus 1: Lleihau ac atal niwed difrifol	28
	Focus 2: Gosod a profi safonau uwch	47
	Focus 3: Hyrwyddo cystadleuaeth a newid cadarnhaol	59
6.	Ein Datganiad Adran 172	67

Pennod 1

Rhagair y Cadeirydd

Mae fy 5 mis cyntaf fel Cadeirydd wedi cadarnhau'r hyn a welais cyn ymuno - bod gan yr FCA gylch gwaith anarferol o eang, sy'n cwmpasu defnyddwyr, y Ddinas a phopeth yn y canol.

O fewn y cylch gwaith hwn, rhaid i'r FCA fod yn fyw i gyfres ddigynsail o heriau a chyfleoedd wrth i arloesedd ariannol a thechnolegol gyflymu, y sefyllfa economaidd gryfhau a chysylltiadau rhyngwladol eu hail-lunio. Yn ogystal, mae cyfrifoldeb newydd i ddatblygu'r agenda diwygio domestig mwyaf gweithgar a welwyd mewn blynyddoedd yn golygu bod yr FCA bellach ar bwynt pwysig yn ei hanes.


Mae gweithgareddau dydd i ddydd yr FCA yn heriol ynddynt eu hunain, gan gynnwys goruchwyllo tua 50,000 o gwmnïau, goruchwyllo marchnadoedd cyfanwerthol y DU a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu polisiau gwell i ddiogelu defnyddwyr a hyrwyddo uniondeb ein sector gwasanaethau ariannol sydd o'r radd flaenaf.

Mae'r ystod eang hon o gyfrifoldebau yn golygu bod yn rhaid i'r FCA wneud dewisiadau anodd yn barhaus ynghylch lle i ganolbwyntio adnoddau cyfyngedig. Mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd i sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu cyfeirio at y gweithgareddau hynny sydd fwyaf gwerthfawr i ddefnyddwyr ac i farchnadoedd ariannol y DU yn gyffredinol, gan sicrhau bod cystadleuaeth yn gweithio er budd y cwmnïau yr ydym yn eu goruchwyllo a'r busnesau a'r defnyddwyr economi go iawn y maent yn eu gwasanaethu.

Ar ôl ymuno â'r FCA o ganolfan ariannol rhyngwladol dramor, rwy'n arbennig o ymwybodol o bwysigrwydd system reoleiddio gadarn a dibynadwy i fod yn sail i lwyddiant parhaus unrhyw hwb ariannol byd-eang.

Mae'r Bwrdd hefyd yn ymwybodol o'r angen i'r FCA fod yn ddigon ystwyth ac addasol i gyflawni canlyniadau rheoleiddio effeithiol. Fel sydd wedi dod yn rhy amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gall digwyddiadau fynnu ein bod yn ailgyfeirio adnoddau ac ymdrechion, weithiau o fewn oriau, i gwrdd â heriau sy'n dod i'r amlwg. O'r pandemig hyd at ymosodiad Rwsia ar Wcráin, i gynnwrf y llynedd ym marchnadoedd y gilt a methiannau diweddar SVB a Credit Suisse, mae'r FCA yn dangos yn barhaus y gall ymateb yn gyflym i fathau gwahanol iawn o argyfyngau.

Yn ystod cyfarfodydd rhagarweiniol gyda rhanddeiliaid o San Steffan a Whitehall, y Ddinas a grwpiau defnyddwyr, gofynnwyd i mi ddiolch i staff yr FCA sydd wedi llwyddo i lywio digwyddiadau fel y rhain. Rwyf wedi gweld yn uniongyrchol sut maent yn dangos ymroddiad diamheuol i wasanaeth cyhoeddus ac i gyflawni'r canlyniadau gorau sydd ar gael.



Ashley Alder
Cadeirydd



Rhaid i'r FCA fod yn fyw i gyfres ddigynsail o heriau a chyfleoedd wrth i arloesedd ariannol a thechnolegol gyflymu, y sefyllfa economaidd gryfhau a chysylltiadau rhyngwladol eu hail-lunio

Mae chwyddiant a chyfraddau llog uwch yn parhau i effeithio ar lawer o ddefnyddwyr, o'r rhai mwyaf agored i niwed sy'n cael trafferth gyda dyled, i'r rhai sy'n wynebu bod morgeisi cyfradd sefydlog rhatach yn dod i ben a'r rhai sy'n gorfod gwneud dewisiadau gwario anodd – defnyddio'u cynilion a thorri costau disgresiynol yn ôl.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn a'n Cynllun Busnes ar gyfer 2023 yn esbonio sut rydym yn gweithio i sicrhau bod cwmnïau'n sensitif i'r pwysau hyn a sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu trin yn deg. Mae'r Ddyletswydd Defnyddwyr, a ddaw i rym y mis hwn, wedi'i chynllunio i greu ffocws diamwys ar ddefnyddwyr fel bod cwmnïau'n rhoi anghenion a chanlyniadau defnyddwyr wrth wraidd popeth a wnânt.

Mae'r cylch economaidd tynnach hefyd yn arwain at bwysau newydd ar draws marchnadoedd cyfanwerthol a heriau newydd i gwmnïau a'r busnesau economi go iawn y maent yn eu gwasanaethu, ac mae pob un ohonynt yn gofyn i'r FCA ganolbwyntio ar feysydd newydd o straen, gan gynnwys yn aml mewn meysydd anhryloyw masnachu offerynnau ariannol a chyfryngu credyd nad yw'n fanc.

Yn erbyn y cefndir deinamig hwn, rhaid i'r Bwrdd ystyried sut y dylai blaenoriaethau strategol presennol yr FCA esblygu. Yn gynharach eleni, cytunodd y Bwrdd y bydd 4 o 13 blaenoriaeth yr FCA yn derbyn adnodd ychwanegol lle mae ar gael:

- rhoi anghenion defnyddwyr yn gyntaf
- paratoi gwasanaethau ariannol ar gyfer y dyfodol
- lleihau ac atal troseddau ariannol
- cryfhau sefyllfa'r DU mewn marchnadoedd cyfanwerthol byd-eang

Rydym yn rhoi anghenion defnyddwyr yn gyntaf drwy'r Ddyletswydd Defnyddwyr ac yn paratoi gwasanaethau ariannol ar gyfer y dyfodol trwy weithredu'r Fframwaith Rheoleiddio'r Dyfodol a Diwygiadau Caeredin y Llywodraeth.

Er mwyn lleihau ac atal troseddau ariannol, mae gennym broses awdurdodi gryfach, gwell asesiadau o gwmnïau rheoleiddiedig, rydym wedi defnyddio mwy o staff i ymchwilio ac erlyn troseddwr ac wedi parhau i dynnu cannoedd o wefannau sgam i lawr.

Wrth gryfhau sefyllfa'r DU mewn marchnadoedd cyfanwerthol byd-eang, rwy'n awyddus ein bod yn defnyddio'r dimensiwn rheoleiddiol yn llawn mewn dadleuon pwysig ynghylch lleoli marchnadoedd cyfalaf a buddsoddi y DU yn y dyfodol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar ffyrdd o annog cynilion domestig i symud, gan gynnwys y rhai a ddelir mewn cynlluniau pensiwn, i fuddsoddi mewn asedau cynhyrchiol er budd defnyddwyr a'r economi gyfan.

Rhoddodd Nikhil Rathi, Prif Weithredwr yr FCA araith bwysig ym mis Mawrth ynghylch cynigion i ddiwygio rheolau rhestru'r farchnad sylfaenol a oedd yn nodi'r mathau o ddewisiadau a chyfnewidiadau y mae'n rhaid i ni eu hwynebu wrth feddwl am oddefgarwch risg ar draws y marchnadoedd defnyddwyr a sefydliadol rydym yn eu rheoleiddio. Yr hyn sy'n berthnasol yma yw pryderon y gall 'bwlch cyngor' atal llawer o ddefnyddwyr rhag gwireddu eu nodau personol, boed hynny'n gynilo ar gyfer dyfodol plentyn neu'n sicrhau digon o incwm ar gyfer yn ddiweddarach yn eu bywydau.



Rydym yn rhoi anghenion defnyddwyr yn gyntaf drwy'r Ddyletswydd Defnyddwyr ac yn paratoi gwasanaethau ariannol ar gyfer y dyfodol trwy weithredu'r Fframwaith Rheoleiddio'r Dyfodol a Diwygiadau Caeredin y Llywodraeth.

Mae tystiolaeth bod hyn hefyd yn cyfyngu ar y defnydd effeithiol o gyfalaf buddsoddi i ariannu busnesau yn y DU sy'n tyfu. Dylai defnyddwyr gael mynediad at yr arbenigedd cywir a fforddiadwy i wneud penderfyniadau gwybodus am y risgiau buddsoddi sy'n cyd-fynd orau â'u hanghenion unigol.

Dylai cynnydd tuag at y canlyniad hwn – yn ogystal â pholisïau eraill sy'n mynd i'r afael â chwestiynau sylfaenol am oddefgarwch risg mewn gwahanol farchnadoedd cyfanwerthol a defnyddwyr – fod yn agwedd bwysig ar rôl y Bwrdd wrth bennu cyfeiriad strategol cyffredinol yr FCA.

Wrth wneud hynny, dylai'r FCA fod yn gwbl glir nad yw trafodaethau ar oddefgarwch risg ar draws marchnadoedd yn awgrymu unrhyw ostyngiad yn y safonau yr ydym yn eu disgwyl gan gwmnïau. Ni fyddwn yn gweld dychwelyd i reoleiddio 'cyffyrddiad ysgafn' – nid yw'r FCA yn goddef ymddygiad gwael.

Bydd proses awdurdodi gryfach yn cyfyngu ar allu gweithredwyr drwg i fynd i mewn i'n system ariannol. Byddwn yn cymryd dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac a arweinir gan ddata o oruchwylio'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio. Bydd ein dau Cyfarwyddwr Gorfodi Gweithredol yn adolygu ein dull o weithredu gyda chwmnïau nad ydynt yn bodloni ein safonau.

Mae'r rhaglen ddiwygio a gafodd ei galluogi gan y Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd (FSM), lle bydd Cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei diddymu mewn cyfrannau a'i haddasu i ddiwallu anghenion yn y DU yn well, yn faes ffocws effaith uchel. Mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r amserlen heriol y mae'r FCA yn gweithio iddi ac yn sicrhau, er mwyn gweithredu'r newidiadau hyn, ynghyd â Diwygiadau Caeredin a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth y llynedd, ein bod yn parhau i fod yn ystwyth, yn gymesur ac yn gwbl atebol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cyflwyno Amcan Cystadleurwydd a Thwf Rhyngwladol Eilaidd newydd ar gyfer yr FCA a'r PRA. Mae hyn, heb syndod, wedi profi i fod yn wrthdwyddiad ar gyfer ystod ddealladwy eang o safbwyntiau am y cydadwaith rhwng rheoleiddio a gyrwyr cynhyrchiant economaidd, gan adleisio deialog dwys gan gyfranogwr y farchnad am ddyfodol marchnadoedd cyfalaf y DU.

Yma, rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod meini prawf a ddefnyddir i asesu'r berthynas hon, ac i'w hadrodd gan yr FCA yn gyhoeddus, yn gredadwy, yn ymarferol ac yn gweithio'n iawn ochr yn ochr â'n prif fesurau diogelu defnyddwyr, uniondeb y farchnad ac amcanion cystadlu.

Er enghraifft, yn fy rhyngweithiadau cynnar â chwmnïau roedd cryn adborth yn ymwneud â chyflymder ein proses awdurdodi, a sut yr ystyriwyd bod hyn yn effeithio ar gystadleurwydd. Bydd llawer o gwmnïau wedi bod yn falch o weld bod mentrau staffio a phrosesu wedi golygu ein bod yn cwrdd â'n cyfnod amser awdurdodi statudol mewn llawer mwy o achosion ar draws y flwyddyn, gan ein rhoi mewn lle i gwrdd â nhw ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, ni all effeithlonrwydd gweithredol fod yn unig briodoledd cystadleurwydd.

Bydd ceisiadau am ganiatâd nad ydynt yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i lunio barn gadarn, neu sy'n codi baneri coch am fodolau busnes neu uniondeb rheoli, yn cael eu craffu'n ofalus iawn.

Mae'r Porth bellach yn gweithredu gyda ffocws mwy dwys ar sut mae cwmnïau sydd newydd eu hawdurdodi yn bodloni amodau trothwy, ac mae polisi 'ei ddefnyddio neu ei golli' yn golygu bod caniatâd yn cael ei ddileu er mwyn osgoi casgliadau bod cwmnïau sy'n dilyn gweithgarwch heb eu rheoleiddio yn dod o fewn cylch gwaith yr FCA.



Mae'r rhaglen ddiwygio a gafodd ei galluogi gan y Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd (FSM), lle bydd Cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei diddymu mewn cyfrannau a'i haddasu i ddiwallu anghenion yn y DU yn well, yn faes ffocws effaith uchel.

Mae datblygu dealltwriaeth o sut mae amcan cystadleurwydd eilaidd yn cydblethu â'n prif amcanion presennol yn ymwneud â llawer mwy na'r Porth Awdurdodi. Fodd bynnag, mae ein dull o awdurdodi yn dangos sut y gellir cyflawni enillion effeithlonrwydd wrth osod safonau uwch.

Hoffwn dalu teyrnged i'm rhagflaenydd, Charles Randell, a ymddiswyddodd fel Cadeirydd yr FCA ym mis Mai 2022. Cefnogodd Charles yr FCA drwy gyfnod o newid rhyfeddol, i'r amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo ac i'r ffordd y mae'n gweithio. Fe wnaeth ei arweinyddiaeth drwy'r pandemig helpu'r FCA i gefnogi miliynau o ddefnyddwyr gyda goddefgarwch morgais a benthyciadau yn ogystal â sefydlogi marchnadoedd drwy gyfnod o ansicrwydd digynsail. Bu hefyd yn arwain y sefydliad trwy gyfres o adolygiadau sydd wedi arwain at reoleiddiwr llawer mwy ystwyth, wedi'i yrru gan ddata.

Hoffwn ddiolch hefyd i Richard Lloyd, a ddarparodd arweinyddiaeth wych fel Cadeirydd Dros Dro o fis Mehefin 2022 tan i mi ddechrau fy nhymor ym mis Chwefror. Gwnaeth Richard welliannau pwysig i brosesau a llywodraethu'r Bwrdd, ac rwyf wrth fy modd ei fod yn parhau i wasanaethu ar y Bwrdd fel Dirprwy Gadeirydd. Hoffwn ddiolch i'n holl Gyfarwyddwyr Anweithredol am gefnogi'r FCA mor fedrus.



Ashley Alder
Cadeirydd



Bydd ceisiadau am ganiatâd nad ydynt yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i lunio barn gadarn, neu sy'n codi baneri coch am fodelau busnes neu uniondeb rheoli, yn cael eu craffu'n ofalus iawn.



Pennod 2

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Sefydlwyd yr FCA yn sgil argyfwng ariannol 2008. Mae'r DU wedi wynebu siociau dro ar ôl tro, bygythiadau yn ogystal â chyfleoedd, byth ers hynny ac mae'r system ariannol wedi dangos gwytnwch a chapasiti sylweddol ar gyfer arloesi.

Dywedais yn fy ngwrandawriad Seneddol cyn penodi 3 blynedd yn ôl fy mod am weld yr FCA yn mabwysiadu dull mwy ataliol o niwed i ddefnyddwyr a dull cryfach, mwy prydlon o orfodi. Roeddwn yn glir y byddai mwy o ddefnydd o ddata a thechnoleg yn sylfaenol, oherwydd y raddfa a'r cyflymder y mae'n rhaid i ni weithio i fod yn effeithiol.

Y llynedd, cadarnhaodd ein Bwrdd strategaeth 3 blynedd gyda chanlyniadau a metrigau clir y gellir ein dwyn i gyfrif yn eu herbyn, yn seiliedig ar atal niwed difrifol, a gosod a phrofi safonau uwch ar draws ein cylch gwaith cynyddol, i gyd wedi'i ategu gan blatfform gweithredol cryfach.

Flwyddyn yn ddiweddarach, mae ein Hadroddiad Blyneddol yn dangos y cynnydd sylweddol rydym yn ei wneud.

Ar ôl symud ein systemau craidd i'r cwmwl, rydym yn trosoli galluoedd data newydd yn gyson i weithredu'n gyflymach ac ymateb i faterion cwmnïau a marchnad ar raddfa.

Mae offer dadansoddeg yn cyflymu rheolaeth achosion ac yn darparu gwell gwelededd o risg mewn cwmnïau dan oruchwyliaeth. Mae mwy o fuddsoddiad sylweddol yn ein pobl a'n technoleg wedi lleihau ein llwyth achosion awdurdodiadau sydd ar ddod bron i 60%, o tua 12,500 i lai na 6,000. Mae hyn ochr yn ochr â chraffu sylweddol ar y ceisiadau hyn, yn y flwyddyn ariannol 2022/23, nifer y cwmnïau na wnaethom eu hawdurdodi oedd 1 o bob 4. Mae hyn i fyny o 1 o bob 5 yn 2021/22 ac 1 o bob 14 yn 2020/21.

Dywedon ni y byddem hefyd yn gwneud mwy i dargedu cwmnïau sydd â'r potensial mwyaf i greu niwed, sydd eisoes wedi'u hawdurdodi. Rydym wedi atal dros 600 o'r cwmnïau hyn rhag gweithredu – i fyny 30 y cant o'r flwyddyn flaenorol.

Rydym yn sganio 100,000 o wefannau y dydd sy'n chwilio am weithgaredd anghyfreithlon, gan arwain at nifer o rybuddion yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn. Y llynedd cyhoeddwyd 1882 o rybuddion, cynnydd o 34% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafodd 8,582 o hyrwyddiadau ariannol eu tynnu'n ôl neu eu diwygio y llynedd, 14 gwaith yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae offer data mawr bellach yn profi systemau cwmnïau i nodi endidau wedi'u cosbi'n effeithiol.



Nikhil Rathi
Chief Executive



Mae mwy o fuddsoddiad sylweddol yn ein pobl a'n technoleg wedi lleihau ein llwyth achosion awdurdodiadau sydd ar ddod bron i 60%, o tua 12,500 i lai na 6,000



Gall ein pobl fod yn falch iawn o bopeth rydym wedi'i gyflawni. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn technoleg, a hybu gallu, i gefnogi eu gallu i gyflawni ein strategaeth.

Rydym hefyd yn cefnogi cwmnïau i lansio gwasanaethau arloesol. Mae ein blwch tywod rheoliadol wedi'i gopio ledled y byd. Yn benodol, rydym yn gweithio gyda channoedd o gwmnïau potensial twf uchel sydd newydd eu hawdurdodi, i adfer problemau'n gynnar fel y gallant dyfu'n ddiogel.

Rydym yn cydweithio'n ehangach. I ategu ein proses ymgynghori ysgrifenedig arferol, rydym yn cynnal gweithdai a sbintiau thematig yn gynyddol, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau ac opsiynau polisi. Mae ein sbint ESG a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn galluogi cwmnïau i dreialu a graddio technoleg newydd ar draws sawl awdurdodaeth am y tro cyntaf, enghraifft o reoleiddio'r DU sy'n cefnogi mynediad i'r farchnad fyd-eang. Rydym am fanteisio ar y cyfle sydd gennym nawr i fod yn fwy ystwyth.

Ein hymyrraeth fwyaf pellgyrhaeddol mewn amddiffyn defnyddwyr ers degawdau fu'r Ddyletswydd Defnyddwyr, yn dilyn mandad gan y Senedd.

Daw i rym ar 31 Gorffennaf 2023 ac mae'n gosod canlyniadau da i ddefnyddwyr wrth wraidd pob rhan o'r gadwyn werth mewn gwasanaethau ariannol manwerthu.

Bydd hefyd yn cefnogi cystadleuaeth, ymhen amser bydd yn gostwng rhwystrau i fynediad i gwmnïau newydd posibl, trwy roi mwy o sicrwydd iddynt am ba ganlyniadau rydym yn chwilio amdanynt. Dros amser, dylai hefyd leihau nifer y rheolau newydd y mae angen i ni eu creu, gan ostwng costau i gwmnïau.

Ac i gefnogi cystadleurwydd marchnadoedd cyfanwerthol ymhellach, rydym wedi cynnig newidiadau i'n rheolau rhestru, fel rhan o ddiwygiadau ehangach, sy'n cyd-fynd â phecyn Diwygiadau Caeredin y Canghellor.

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â'n cymheiriaid byd-eang i sicrhau safonau byd-eang cryf, hyrwyddo sefydlogrwydd ariannol a chefnogi cystadleurwydd y DU.

Mae gan y DU swyddi uwch ar gyrff rheoleiddio byd-eang fel y Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol a'r

Sefydliad Rhyngwladol Comisiynau Gwarantau, gan rannu ein harbenigedd a'n harloesedd. Gwnaethom chwarae rhan ganolog wrth greu'r set gyntaf o safonau adrodd sy'n gysylltiedig â chynaliadwydd yn ogystal â safonau rhyngwladol newydd ar reoleiddio cryptoasedau.

Gall ein pobl fod yn falch iawn o bopeth rydym wedi'i gyflawni. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn technoleg, a hybu gallu, i gefnogi eu gallu i gyflawni ein strategaeth.

Rydym bellach yn gweld mwy o symudedd mewnol a dyrchafiad o fewn yr FCA, gan ein helpu i gysylltu'n well. Ymunodd dwywaith cymaint o gydweithwyr â ni na wnaeth ein gadael y llynedd, yng nghanol gostyngiad mawr mewn bylchau cyflog rhwng y rhywiau a bwlch cyflog ethnigrwydd sy'n gostwng. Rydym bellach ar ein nifer uchaf erioed. Rydym wedi cyflawni ein hymrwymiad i ddyblu ein presenoldeb yng Nghaeredin a sefydlu swyddfa newydd yn Leeds, gan ymgorffori ein safle fel rheoleiddiwr cenedlaethol.

Wrth i ddefnyddwyr ddod yn fwyfwy dibynnol ar wasanaethau ariannol, cydweithwyr yn yr FCA wnaeth asesu sut mae benthycwyr yn trin cwsmeriaid bregus ac yn gweithredu lle canfuwyd arfer gwael. Pan ddechreuodd heriau costau byw daro, bu'r gwaith hwn yn help.

Pan fu Banc Silicon Valley yn wynebu chwalfa, gweithiodd cydweithwyr yr FCA yn gyflym i gefnogi'r penderfyniad ac asesu'n gyflym yr effaith bosibl ar sefydliadau eraill yn y Ddinas, i gefnogi'r Llywodraeth a Banc Lloegr i wneud penderfyniadau.

Nid yw diwygio'r sector cyhoeddus byth yn hawdd, yn enwedig mewn cyfnodau cyfnewidiol. Mae'n cael ei drafod yn aml ac, yn amlach, yn cael ei anwybyddu'n dawel.

Diolch i ymroddiad llwyr a ffocws cydweithwyr yn yr FCA, rydym yn trawsnewid yn gyflym i fod yn fath gwahanol o sefydliad, mewn sefyllfa well i arloesi, addasu a chydweithio, fel ein bod yn mynd i'r afael â bygythiadau yn bendant, lliniaru sioc a chofleidio cyfleoedd y dyfodol.



Nikhil Rathi

Prif Weithredwr

Pennod 3

Ein rôl a sut y gwnaethom wahaniaeth yn 2022/23

Ein nod strategol

Sicrhau bod y marchnadoedd yr ydym yn eu rheoleiddio yn gweithio'n dda

Ein hamcanion gweithredol

Sicrhau lefel briodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr
Diogelu a gwella uniondeb system ariannol y Deyrnas Unedig
Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr

Pwy rydyn ni'n ei reoleiddio

bron i 50,000 o gwmnïau

Rydym hefyd yn oruchwyliwr darbodus o ~46,000 o gwmnïau. Mae ein perimedr yn pennu'r hyn rydym yn ei reoleiddio ac nid yn ei reoleiddio ac yn cael ei osod gan y Llywodraeth a'r Senedd. (Gweler ein [Adroddiad Perimedr](#) blynyddol.) Rydym hefyd yn gyfrifol am gofrestru cymdeithasau cydfuddiannol. Gellir dod o hyd i ddiweddariad swyddogaeth cofrestru cymdeithasau cydfuddiannol 2022/23 [yma](#)

Ein swyddogaethau - sut rydym yn rheoleiddio i gyflawni ein hamcanion

Gwneud rheolau a rhoi arweiniad i osod safonau ar gyfer cwmnïau

Awdurdodi, cofrestru a chymeradwyo cwmnïau ac unigolion, gan wirio eu bod yn bodloni safonau

Supervising firms and individuals to ensure
Goruchwyllo cwmnïau ac unigolion i sicrhau eu bod yn dilyn ein rheolau a'n canllawiau

Gorfodi yn erbyn cwmnïau ac unigolion pan na fyddant yn dilyn ein rheolau a'n canllawiau

**Ein strategaeth
2022-2025 a'n
Cynllun Busnes**

Rydym yn chwarae rhan sylfaenol wrth alluogi llwyddiant y sector gwasanaethau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae ein gwaith yn helpu i ddiogelu 52.1 miliwn o gwsmeriaid y DU o gynhyrchion gwasanaethau ariannol (ym mis Mai 2022) ac yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er eu budd nhw.

Rhwng mis Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2022, roedd ein hymyriadau polisi yn darparu buddion gwerth £28.7 biliwn ac fe wnaethom sicrhau iawndal i ddefnyddwyr gwerth bron i £1.4 biliwn drwodd i'n camau gorfodi, atafaeliadau a chosbau ar gwmnïau ac unigolion.

Yn 2022/23, gwnaethom gynnydd sylweddol wrth gyflawni blwyddyn gyntaf ein strategaeth 3 blynedd, drwy'r rhaglen waith a nodwyd gennym yn ein Cynllun Busnes 2022/23. Fe wnaethom baratoi i gymryd pwerau newydd o dan y Ddeddf FSM fel y gallwn addasu ein rheolau yn well i ddiwallu anghenion defnyddwyr a marchnadoedd y DU. Rydym yn parhau i drawsnewid a chryfhau sut rydym yn defnyddio data i oruchwylio cwmnïau a chanfod niwed.

Mae ein Hadroddiad Blyneddol yn dangos yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn 2022/23 ac yn esbonio sut rydym wedi cyflawni ein hamcanion strategol a gweithredol. Mae hefyd yn dangos y cynnydd rydym wedi'i wneud ym mlwyddyn gyntaf ein strategaeth 3 blynedd.

Buom yn gweithio gyda'n partneriaid yn y DU, ac yn fyd-eang, i orfodi sancsiynau mewn ymateb i'r rhyfel yn Wcráin. Buom hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid i ymateb i ddigwyddiadau sylweddol yn y farchnad, megis datrys cwmp Banc Silicon Valley (SVB) a Credit Suisse.

Daeth sawl tîm ynghyd i helpu i sicrhau bod defnyddwyr sy'n wynebu pwysau costau byw yn cael eu trin yn briodol. Gwnaethom barhau i ddarparu arweinyddiaeth meddwl, er enghraifft ar safonau byd-eang ar gyfer materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu; ac ar gyfer cryptoasedau.

Rydym yn nodi'n fanylach sut yr ydym wedi cyflawni ein swyddogaethau i gyflawni ein hamcanion gweithredol trwy ein strategaeth 3 blynedd ym mhennod 5. **Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys:**



Diogelu defnyddwyr

Dyletswydd Defnyddwyr: mae ein dyletswydd newydd yn gosod safonau uwch a mwy manwl gywir o ran diogelu defnyddwyr ar draws gwasanaethau ariannol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr manwerthu.

Yn 2022, gwnaethom gyflwyno rheolau newydd i sicrhau bod ein cyfundrefn hyrwyddo ariannol yn gadarn ac yn parhau i fod yn addas i'r diben mewn amgylchedd economaidd sy'n newid.

Rydym yn defnyddio dadansoddeg uwch a ffynonellau data newydd i adnabod hysbysebion ariannol amhrifodol. Yn dilyn ein hymyrraeth y llynedd, roedd gennym **8,582** o hyrwyddiadau wedi'u diwygio neu eu tynnu'n ôl. Mae hyn yn gynnydd o **1,498%**, o'i gymharu â 573 yn 2021.

Fe wnaethom weithio'n llwyddiannus gyda gorfodi'r gyfraith i ymyrryd yn erbyn gweithgarwch crypto anghyfreithlon. Ym mis Hydref, gwnaethom gynnal ymgyrch gydweithredol gydag Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol sy'n mynd i'r afael â busnes cryptoased anghofrestredig, gwyngalchu arian ymddangosiadol a throeddau eraill. Arweiniodd hyn at orchymynion atal am dros £3m mewn crypto ac asedau eraill, stopio gweithgarwch cyfnewid crypto anghyfreithlon, arwain at sawl daliad ac amharu ar uned troseddau cyfundrefnol difrifol.



Amddiffyn a gwella uniondeb y farchnad

In the financial year 2022/23, Yn y flwyddyn ariannol 2022/23, nifer y cwmnïau na wnaethom eu hawdurdodi oedd 1 o bob 4. Mae hyn i fyny o 1 o bob 5 yn 2021/22 ac 1 a 14 yn 2020/21.

Fe wnaethom adolygu bron i 100 o achosion o dorri sancsiynau a amheuir. Rydym hefyd wedi cyflwyno dull a arweinir gan ddata i oruchwyllo cwmnïau yn rhagweithiol i sicrhau bod ganddynt systemau a rheolaethau sancsiynau priodol, gwnaethom hefyd gynnal 38 asesiad rhagweithiol yn edrych ar systemau a rheolaethau cwmnïau.

Yn 2022, gwnaethom osod cosbau ariannol o £215.8m. Yn dilyn treial yn gynnar yn 2023, carcharwyd 3 unigolyn am dwyll opsiwn deuaidd. Dechreuon ni erlyniadau i honiadau o fanipiwlleiddio'r farchnad, gwyngalchu arian, delio mewnol a thwyll buddsoddi.

Er mwyn cefnogi cystadleurwydd marchnadoedd cyfanwerthol ymhellach, rydym wedi cynnig newidiadau i'n rheolau rhestru, fel rhan o ddiwygiadau ehangach, sy'n cyd-fynd â phecyn Diwygio Caeredin y Canghellor.

Yn 2022/23, gwnaethom agor 613 o achosion goruchwyllo troseddau ariannol, cynnydd o 65% o'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o 10% o'n ffigur llinell sylfaen 2020/2021 sef 548.

Rydym wedi bod yn hyfforddi ein staff ac wedi dechrau diweddarau ein polisïau a'n gweithdrefnau cyn i'r amcan eilaidd twf a chystadleurwydd newydd ddod i rym.



Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol

Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom gyhoeddi [Adroddiad Interim a phapur trafod Astudiaeth Marchnad Gwybodaeth Credyd](#) ac rydym yn gweithio gyda'r diwydiant ar ddiwygio llywodraethu diwydiant fel rhan o becyn ehangach o rwymedïau.

Ym mis Medi 2022 fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar [yswariant adeiladau amlfeddiannaeth](#), gan archwilio achosion cynnydd mewn costau yswariant adeiladau ers Grenfell ac yn nodi ystod o argymhellion a rhwymedïau posibl eraill a gynlluniwyd i roi mwy o amddiffyniadau i lesddeiliaid rhag prisiau uchel a sicrhau bod y farchnad yswariant adeiladau yn gweithredu'n well.

O dan y Ddeddf Cystadleuaeth, ym mis Ionawr 2023 gwnaethom gyhoeddi [datganiad o wrthwynebiadau](#) i 3 parti ynghylch trefniadau gwrth-gystadleuol a amheuir mewn gwasanaethau talu arian. Gwnaethom agor achos pellach i gam-drin safle dominyddol posibl a chyhoeddwyd 9 llythyr 'ar rybudd'. Nod y rhain yw cynyddu ymwybyddiaeth o gyfraith cystadleuaeth ac annog cydymffurfiaeth. Gwnaethom agor achos pellach i gam-drin posibl safle dominyddol.

Ym mis Hydref 2022, gwnaethom gyhoeddi papur trafod yn ceisio barn ar oblygiadau posibl cystadleuaeth cwmnïau Big Tech sy'n mynd i mewn i ystod o sectorau gwasanaethau ariannol manwerthu; ac ym mis Mawrth 2023, gwnaethom gyhoeddi ein [canfyddiadau Adolygiad Data Masnach](#), gan edrych ar bryderon ynghylch gallu cwmnïau i gyrchu a defnyddio data masnach.

Gweithio gyda'n partneriaid

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y cynnydd sylweddol ym maint ac ehangder ein gwaith. Ond p'un a ydym yn mynd i'r afael â throseddau ariannol a thwyll i ddiogelu defnyddwyr neu asesu'r cyfleoedd a'r risgiau o arloesi digidol mewn gwasanaethau ariannol, ni allwn gyflawni ar ein pennau ein hunain.

Rydym yn gweithio'n agos gydag ystod o bartneriaid i gefnogi fframwaith y DU ar gyfer rheoleiddio ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys rheoleiddwyr eraill yn y DU yn ogystal â thramor, grwpiau defnyddwyr, cymdeithasau masnach, adrannau'r Llywodraeth a chyrff proffesiynol.

Lansiwyd y Fframwaith Goblygiadau Ehangach i hwyluso cydweithio strwythuredig ar faterion allweddol rhwng yr FCA, Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol, y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau. Fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Fframwaith, mae'r meysydd allweddol yr ydym wedi cydweithio arnynt yn cynnwys darparu iawndaliadau i gyn-aelodau Cynllun Pensiwn Dur Prydain (BSPS) a dderbyniodd gyngor trosglwyddo pensiwn anaddas, cwynion am gyfraddau amrywiol safonol morgeisi, a pharatoi Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol ar gyfer cyflwyno'r Ddyletswydd Defnyddwyr.

Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA) i gydlynu ein gweithredoedd a'n gweithgareddau a chyflawni canlyniadau ar y cyd.

Gall y PRA roi feto ar unrhyw un o'n gweithredoedd os yw'n credu y gallai fygwth sefydlogrwydd ariannol. Mae gan y PRA bŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r FCA ymatal rhag camau gweithredu penodol pan fodlonir rhai amodau, gan gynnwys pan fo'r PRA yn ystyried bod gweithredoedd [yr FCA] yn bygwth sefydlogrwydd ariannol. Ni ddefnyddiwyd y pŵer hwn yn ystod 2022/23.

Mae'r PRA yn nodi bod sawl cwmni yn bwysig i sefydlogrwydd ariannol y DU ac mae'n rhaid i ni gynnal cyfarfodydd blynyddol gydag archwilwyr allanol y cwmnïau hyn. Pwrpas y cyfarfodydd hynny yw cael dealltwriaeth ddyfnach o faterion yn y cwmnïau hyn, a'r themâu a'r tueddiadau o waith yr archwilydd allanol. Rydym wedi cynnal 20 o'r cyfarfodydd hyn yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Mae gennym hefyd Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS). Mae'n nodi ein rolau a'n cyfrifoldebau a sut y byddwn yn cydlynu, cydweithio a chyfnewid gwybodaeth berthnasol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cydlynu ar ystod o faterion gan gynnwys yr argyfwng costau byw a materion dyled.

Mae ein cydweithrediad â chyrff rheoleiddio y tu allan i'r DU yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau a materion. Rydym yn hyrwyddo datblygu a gweithredu safonau rhyngwladol effeithiol. Mae hyn yn cynnwys trwy ymuno neu gadeirio gweithgorau allweddol yn yr FSB, IOSCO, Bwrdd Monitro'r IFRS a'r IAIS. I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith gyda chyrff rheoleiddio y tu allan i'r DU, cyfeiriwch at Bennod 5, Gosod a phrofi safonau uwch.



Rydym yn gweithio'n agos gydag ystod o bartneriaid i gefnogi fframwaith y DU ar gyfer rheoleiddio ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys rheoleiddwyr eraill yn y DU yn ogystal â thramor, grwpiau defnyddwyr, cymdeithasau masnach, adrannau'r Llywodraeth a chyrff proffesiynol.



Sicrhau ein gwaith

Egwyddorion ar gyfer rheoleiddio da

Rydym yn ystyried yr egwyddorion ar gyfer rheoleiddio da yn ein holl waith. Fel sy'n ofynnol gan yr FSMA, rydym yn cynnwys datganiadau cydnawsedd yn ein holl bapurau ymgynghori i egluro sut mae ein cynigion yn bodloni'r egwyddorion hyn. Er enghraifft:

- Mae'r Ddyletswydd Defnyddwyr yn seiliedig ar y cysyniad o resymoldeb. Mae hwn yn brawf gwrthrychol. Mae'n golygu bod yn rhaid dehongli'r rheolau a'r canllawiau yn unol â'r safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan gwmni darbodus sy'n cyflawni'r un gweithgaredd sy'n cynnwys yr un cynnyrch neu wasanaeth.
- Gwella Marchnadoedd Uwchradd Ecwiti – mae'r cynigion hyn yn ystyried dymunoldeb twf yn y tymor canolig a'r tymor hir a nod y Llywodraeth o weld mwy o gystadleuaeth ac arloesedd ym mhob sector o ddiwydiant ariannol y DU.

Cryfhau ein hatebolrwydd

Canlyniadau strategaeth a metrigau

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canlyniadau a metrigau i fesur ein cynnydd o ran cyflawni ein Strategaeth.

Rydym yn parhau i ddatblygu a gwella ein fframwaith. Rydym wedi cyhoeddi'r diweddariad diweddaraf i'n metrigau Strategaeth ar ein tudalen we canlyniadau a metrigau.



Am y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2022, rydym yn amcangyfrif bod manteision ein hymyriadau polisi yn £28.8 biliwn o leiaf. Mae hyn yn cynrychioli budd cyfartalog blynyddol o £9.6 biliwn o leiaf.

Metrigau Gwasanaeth Gweithredu

Rydym yn darparu gwybodaeth am ein prydlondeb mewn ystod o feysydd sy'n defnyddio perfformiad gweithredu (a elwid gynt yn safonau gwasanaeth). Maent yn cwmpasu tua 54 o weithgareddau safonau gwasanaeth gan gynnwys delio â cheisiadau rheoleiddio, ymholiadau dros y ffôn a gohebiaeth arall.

Ar gyfer awdurdodiadau, rydym bellach yn adrodd gwybodaeth fanylach am amseroedd a chyfeintiau penderfyniadau bob chwarter, ynghyd â pherfformiad mewn perthynas â therfynau amser statudol, i wella tryloywder.

Adroddiad Effaith Bositif

Mae ein hadroddiad Effaith Gadarnhaol yn nodi sut rydym yn darparu gwerth cyhoeddus neu gymdeithasol. Mae'n dangos sut rydym yn amcangyfrif ein heffaith gadarnhaol flynyddol ar gyfartaledd treigl dros gyfnod o 3 blynedd.

Am y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2022, rydym yn amcangyfrifir bod manteision ein hymyriadau polisi yn £28.8 biliwn o leiaf. Mae hyn yn cynrychioli budd cyfartalog blynyddol o £9.6 biliwn o leiaf.

Rydym yn atebol i'r Senedd a'r Trysorlys

Rydym yn rheoleiddiwr ariannol annibynnol sy'n atebol i'r Senedd a'r Trysorlys. Fel rhan o hyn, rydym yn adrodd i'r Trysorlys ar ein cynnydd drwy ein Hadroddiad Blynyddol. Yna mae'r Trysorlys yn cyflwyno'r adroddiad i Senedd.

Rydym yn ymddangos o leiaf ddwywaith y flwyddyn o flaen Pwyllgor Dethol Trysorlys y Senedd (TSC) mewn gwrandawriad atebolrwydd cyffredinol i graffu ar bob agwedd ar ein gwaith. Rydym hefyd yn rhoi tystiolaeth yn rheolaidd i'r TSC, ei Is-bwyllgor Gwasanaethau Ariannol sydd newydd ei sefydlu ac amrywiaeth o bwyllgorau Seneddol eraill.

Fel rhan o'n hatebolrwydd, rydym yn ymateb i geisiadau am wybodaeth gan ASau a chyfoedion drwy lythyrau, cwestiynau a thystiolaeth seneddol i Grwpiau'r Holl Bleidiau Seneddol. Mae'r Trysorlys yn penodi ein Bwrdd. Gall hefyd ei gwneud yn ofynnol i ni gynnal ymchwiliad ac adrodd amdano. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r NAO ar astudiaethau i agweddau ar reoleiddio ariannol y mae'r Sefydliad yn ymgymryd â hwy o bryd i'w gilydd. Roedd yr NAO hefyd yn rhoi barn flynyddol i'r Senedd ar wirionedd a thegwch y cyfrif.

Ymgysylltu â Phaneli

Rydym yn ymgynghori â'n Panelli Statudol wrth ddatblygu ein polisiau a'n prosesau rheoleiddio. Rydym hefyd yn ymgynghori â Phanel Ymgynghorol yr Awdurdod Rhestru (LAAP) ar ein gwaith sy'n cynnwys marchnadoedd cynradd. Mae'r paneli hyn yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr, cwmnïau a marchnadoedd a reoleiddir ac maent yn chwarae rhan bwysig wrth ein cynghori a'n herio.



Gwnaethom ymgysylltu'n helaeth â'r Paneli yn ystod (ymhlith eraill) y cyfnod llunio polisi a gweithredu ar Ddyletswydd Defnyddwyr.

Mae rhan o rôl y Paneli yn cynnwys ymateb yn ffurfiol i'n hymgyngoriadau a'n papurau trafod. Rhoddodd y Paneli adborth a mewnwediadau gwerthfawr drwy adborth rheolaidd sydd wedi helpu i sicrhau a llywio ein hymrwymadau Strategaeth a'u darparu ar gyfer y flwyddyn hon gan gynnwys yr enghreifftiau isod:

Marchnadoedd Cyfanwerthu

Mae ein cynigion ar Effeithiolrwydd Marchnadoedd Cynradd wedi'u llunio gan ymgysylltiad a chydweithio dwys gyda'r LAAP a'r diwygiadau i'r rheolau Rhestru yn bwnc blaenoriaeth ar gyfer y panel hwn. Ymatebodd LAAP a'r Panel Ymarferydd Marchnadoedd (MPP) ar y cyd i Bapur Trafod [DP 22/2](#) ym mis Awst 2022 a rhoddodd adborth pellach ym mis Mawrth sydd wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ein datblygiadau polisi. Mae MPP ac LAAP hefyd wedi rhoi mewnbwn ar feysydd ehangach y fframwaith rheoleiddio ar gyfer marchnadoedd cyfanwerthol.

Dyletswydd Defnyddwyr

Gwnaethom ymgysylltu'n helaeth â'r Paneli yn ystod (ymhlith eraill) y cyfnod llunio polisi a gweithredu ar [Ddyletswydd Defnyddwyr](#). Fe wnaeth hyn ein helpu i wella eglurder ein rheolau a sicrhau bod y Ddyletswydd yn cyflawni newid sylweddol o ran diogelu defnyddwyr, gan ddefnyddio dull cymesur hefyd. Buom yn gweithio'n agos gyda'r Panel Defnyddwyr i gryfhau ein dull o lywodraethu ac atebolrwydd yn y Ddyletswydd. Yn dilyn pryderon a godwyd gan y Panel Ymarferwyr a'r Panel Ymarferwyr Busnes Llai, gwnaethom ymestyn y cyfnod gweithredu ar gyfer y Ddyletswydd Defnyddwyr.

Costau byw

Rydym wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda'r holl Baneli am effaith y pwysau costau byw ar ddefnyddwyr a chwmnïau a roddodd adborth defnyddiol i ni 'ar hyn o bryd'. Rydym yn croesawu awgrymiadau ynghylch sut y gallem ddefnyddio ein pwerau i helpu cwmnïau a defnyddwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mynediad i arian parod

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Paneli wrth i ni ddatblygu ein dull rheoleiddio o ddiogelu mynediad at arian parod. Mae'r Panel Defnyddwyr wedi rhoi mewnwleddiad defnyddiol i effeithiau tebygol newidiadau mewn mynediad at arian parod i ddefnyddwyr yn enwedig y rhai sydd â nodweddion bregusrwydd. Bydd y wybodaeth hon yn helpu i lywio ein dull o ddatblygu rheolau a chanllawiau ar gyfer personau a ddynodwyd o dan y ddeddfwriaeth newydd ar fynediad at arian parod wrth i ni geisio sicrhau darpariaeth resymol o wasanaethau mynediad arian parod ledled y DU.

Amrywiaeth ac Ethnigrwydd gyda'n Paneli

Cytunwyd i fabwysiadu targedau amrywiaeth ar gyfer paneli annibynnol yr FCA.

Yn erbyn y targedau hyn, gallwn adrodd ar 31 Mawrth 2023:

- Ar draws yr holl Baneli Annibynnol mae 31% yn fenywod.
- Ar draws yr holl Baneli Annibynnol, mae'r targed ar gyfer o leiaf un swydd uwch i gael ei dal gan fenyw yn cael ei rhagori.
- Mae 4 o bob 5 Panel Annibynnol yn cyrraedd y targed bod o leiaf un aelod o gefndir ethnig lleiafrifol

Casglu mewnwleddiadau gan ddefnyddwyr a'r cwmnïau i lywio ein gwaith

Rydym yn cynnal dau arolwg sylweddol:

- Arolwg Bywydau Ariannol (FLS)
- Arolwg o'r FCA a'r Panel Ymarferwyr

Mae ein FLS yn ffynhonnell allweddol o fewnwleddiad ac yn llywio ein gwaith amddiffyn defnyddwyr a chystadleuaeth. Mae'n ein helpu i adnabod niwed a gwella canlyniadau defnyddwyr. Mae'r [Arolwg o'r FCA a'r Panel Ymarferwyr](#) yn rhoi cyfle i gwmnïau rheoledig roi eu barn ar ein perfformiad a'n heffeithiolrwydd.

Pennod 4

Trawsnewid yr FCA

Rydym yn trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio yn yr FCA i sicrhau ein bod:

- yn gallu gwneud penderfyniadau cyflym ac effeithiol
- yn gallu blaenoriaethu'r canlyniadau cywir i ddefnyddwyr, marchnadoedd a chwmnïau
- yn gwella ein dull o rannu gwybodaeth

Rydym am fanteisio ar ddata a thechnoleg i gynyddu ein gallu i weithredu'n bendant er budd defnyddwyr a lleihau beichiau ar gwmnïau. Rydym hefyd am fod yn fwy pendant wrth brofi terfynau ein pwerau ein hunain a gweithio gyda phartneriaid eraill i sicrhau eu bod yn gweithredu eu pwerau.

Ein Rhaglen Trawsnewid

Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom gwblhau'n llwyddiannus raglen 3 blynedd a luniwyd i gyflawni newidiadau sylweddol i'r ffordd rydym yn gweithio i wella ein perfformiad. Mae'r adran hon yn nodi rhywfaint o'r hyn yr ydym wedi'i wneud i wella ein perfformiad a chwrdd â heriau'r dyfodol. Mae ein gwaith trawsnewid yn parhau. Yn 2023/24, byddwn yn parhau â'n momentwm ac yn adeiladu ar y sylfeini hyn.

Sicrhau bod cwmnïau'n dechrau gyda safonau uchel ac yn eu cynnal:

- Yn y flwyddyn ariannol 2022/23, nifer y cwmnïau na wnaethom eu hawdurdodi oedd 1 o bob 4. Mae hyn i fyny o 1 o bob 5 yn 2021/22 ac 1 o bob 14 yn 2020/21.
- Sefydlu swyddogaeth Goruchwyliaeth Twf Cynnar ac Uchel (EHGO) i gefnogi cwmnïau sydd newydd eu rheoleiddio i fodloni ein gofynion goruchwyllo yn y blynyddoedd cynnar a rhwymedigaethau rheoleiddiol. Mae EHGO bellach yn ymgysylltu â dros 300 o gwmnïau a gall adnabod dangosyddion cynnar o faterion.
- Defnyddio technoleg ddigidol i wneud cipio data yn fwy effeithlon yn y Porth Awdurdodi. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i gwmnïau gyflwyno data. Gweler mwy am 'Dod yn rheoleidiwr dan arweiniad data', pennod 5.

Defnyddio ffyrdd newydd o ddod o hyd i faterion a niwed yn gyflymach, a gweithredu arnynt:

- Gwella sut rydym yn asesu ac yn dyrannu gwaith achos cwmni goruchwyllo ac yn dylunio offer digidol i wella cysondeb.
- Buddsoddi mewn uwchraddio technoleg sydd wedi gwella ein gallu i ddadansoddi symiau sylweddol o ddata. Mae hyn yn ein helpu i ymyrryd ac atal niwed ar raddfa fawr.
- Ffurio'r Tasglu Hyrwyddiadau Ariannol a Gorfodi (FPET) i ymyrryd yn fwy pendant yn erbyn toriadau hyrwyddiadau ariannol.



Galluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus:

- Lansio adran defnyddwyr ar ein gwefan i ddarparu gwybodaeth glir a hygyrch am risgiau, hawliau, rhwymedïau gwasanaethau ariannol a newidiadau i reolau.

Rydym yn datblygu gwasanaeth brysbennu a throsglwyddo awtomataidd i gynorthwyo defnyddwyr i gysylltu'n brydlon â'r awdurdod rheoleiddio priodol yn ystod eu cyswllt cyntaf.

Cryfhau ein strwythur:

- Dod yn rheoleidiwr gwirioneddol genedlaethol gyda swyddfa newydd yn Leeds a dyblu ein presenoldeb yng Nghaeredin. Am fwy o wybodaeth gweler Pennod 4, Ein lleoliadau.
- Fe wnaethom gyfuno ein swyddogaethau Goruchwyliaeth, Polisi a Chystadleuaeth i fynd i'r afael â materion mewn ffordd fwy amlddisgyblaethol. Am ragor o wybodaeth, gweler pennod 5, Gosod a phrofi safonau uwch.
- Rydym wedi creu swyddogaeth Data, Technoleg ac Arloesi pwrpasol. Mae manteision hyn yn cynnwys dyblu nifer y TechSprints a wnawn.
- Gwnaethom gyflwyno pecyn cystadleuol i weithwyr sy'n sail i reoli perfformiad yn gryfach, symudedd gyrfa ac yn cefnogi ein huchelgeisiau ar gynwysoldeb.
- Rydym wedi buddsoddi yn ein swyddogaeth awdurdodi, gan gynnwys cyflogi 159 o staff ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a gwella perfformiad gweithredol trwy ddefnyddio brysbennu, technoleg a data yn well. Y canlyniad yw bod llwythi achosion wedi gostwng o'u hanterth o 12,500 ym mis Rhagfyr 2021, bron i 60% i tua 5,500 erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

Gwella ein penderfyniadau


- Darparu cyfeiriad a sicrwydd cyflymach i gwmnïau drwy ddirprwyo penderfyniadau gan y Pwyllgor Penderfyniad Rheoleiddio (RDC) i uwch reolwyr.
- Gwella penderfyniadau rheoli ar ein perfformiad a'n blaenoriaeth ein hunain trwy atebolrwydd cliriach ein uwch swyddogion gweithredol yn unol ag egwyddorion y Gyfundrefn Uwch Reolwyr (SMR).
- Cyflwyno Pwyllgor Cyllid a Chyflawni Gweithredol (EFDC) i'n helpu i ganolbwyntio adnoddau.

Ein drws ffrynt digidol

Rydym wedi darparu un pwynt mynediad i'n Gwasanaethau Arloesi drwy ein Drws Ffrynt Digidol newydd. Mae cwmnïau yn dweud ychydig o bethau wrthym am yr hyn y maent am ei gyflawni. Yna rydym yn brysio ac yn sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaeth arloesi cywir. Er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi cyflwyno nifer o offer digidol i gyd-fynd â chwmnïau gyda'r gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Bydd ein gweledigaeth ar gyfer y gwaith Drws Blaen Digidol yn parhau ac yn mynd llawer pellach. Mae Profiad y Defnyddiwr (UX) yn parhau i fod yn ganolbwynt mawr i'n gwaith. Rydym hefyd wedi symleiddio ein Ffurflenni cais Sandbox ac Innovation Pathways i ddarparu UX gwell.



Rydym
wedi creu
swyddogaeth
Data,
Technoleg
ac Arloesi
pwrpasol.



Dod yn rheoleiddiwr a arweinir gan ddata

Trawsnewid casgliadau data gan gwmnïau

Yn 2022, yn seiliedig ar ein gwaith dadansoddi rhagfynegol, cynyddodd cydymffurfiad cadarn â dyddiadau cau adrodd o 88% i 95%.

Ym mis Ionawr 2023, gwnaethom lansio ffurflen well ar gyfer 20,000 o gwmnïau credyd defnyddwyr, i wella cywirdeb ac ansawdd y cyflwyniadau data. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ffioedd blynyddol cwmnïau'n cael eu gosod yn gywir, mae eu caniatâd yn gywir ac yn ein galluogi i fonitro'r sector credyd defnyddwyr yn well.

Amrywiaeth, Ecwiti a Chynhwysiant

Fel cyflogwr

Rydym yn ymfalchïo mewn bod yn weithlu amrywiol, cynhwysol a hyblyg sy'n adlewyrchu'r cyhoedd rydym yn eu gwarchod. Roeddem yn y grŵp cyntaf o lofnodwyr i Siarter *Menywod mewn Cyllid* y Llywodraeth.

Erbyn 2025, ein nod yw cael 50% o'n Uwch Dîm Arwain (SLT) yn adnabod eu hunain fel menywod. Ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd 48% o'n SLT yn adnabod eu hunain fel menywod, i fyny o 45.2% ym mis Mawrth 2022. Rydym hefyd yn anelu at gael 20% o'n SLT yn adnabod eu hunain fel lleiafrifoedd ethnig erbyn 2025. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd 13.8% o'n SLT yn adnabod eu hunain fel lleiafrif ethnig. Mae hyn i lawr yn gymedrol o 15.1% ym mis Mawrth 2022. Mae'r ffigurau hyn yn cael eu cymryd gan weithwyr yn yr FCA a'r Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR).

Rydym yn croesawu cynnydd mewn rhai meysydd ac yn cydnabod bod angen i ni wneud mwy i gyrraedd ein targedau ymestynnol. Yn 2022, fe wnaethom gyflwyno rhaglen amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant mewnol (DEI) newydd ar gyfer 2023-2025. Mae'r rhaglen yn ailddiffinio ein blaenoriaethau DEI mewnol a'n mesurau llwyddiant, mae'n cael ei harwain gan ddata a thystiolaeth ac yn blaenoriaethu 4 maes lle mae angen i ni weithredu i gael yr effaith gadarnhaol fwyaf: 1 Amrywiaeth, 2 Tegwch, 3 Cynhwysiant a 4 Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd Personol

Mae gan bob blaenoriaeth ganlyniadau cysylltiedig sy'n disgrifio lle rydym am fod ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd a meysydd llwyddiant a mesur cynnydd. Mae'r blaenoriaethau hyn yn berthnasol ar draws yr holl ddemograffeg amrywiaeth.

Mae ein tudalennau gwe amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn rhoi trosolwg manwl o'n gwaith ar DEI, ymrwymadau fel corff cyhoeddus a ffigurau bwloch cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

RegData – lleihau'r baich casglu data ar gwmnïau

Rydym wedi cyflwyno'r platfform casglu data hyblyg a graddadwy, RegData, ac wedi mudo dros 52,000 o gwmnïau a 120,000 o ddefnyddwyr o'r system flaenorol.

Rydym wedi creu Uned Casgliadau Data newydd i fesur a chymhwyso gwerth, baich a chost ein casgliadau data rheoleiddiol. Bydd hyn yn uno ein gwahanol ffynonellau data a deallusrwydd, gan gynnwys deallusrwydd Ffynhonnell Agored fel teimlad defnyddwyr ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac adrodd ar y cyfryngau. Bydd hefyd yn cryfhau ein rhannu ar draws y Llywodraeth o ddangosyddion ymddygiad rheoliadol gwael.



Ein lleoliadau

Rydym yn rheoleiddiwr ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Mae ein Tîm Cenhedloedd Datganoledig yn chwarae rhan allweddol wrth ymgysylltu â gweinyddiaethau datganoledig, deddfwrfeydd a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod eu hanghenion a'u barn yn cael eu cynrychioli. Ym mis Medi 2022, agorwyd ein swyddfa yn Leeds ac rydym eisoes wedi cyflogi mwy na 100 o staff i weithio yno. Rydym wedi ymrwymo yn 2021 i ddyblu ein niferoedd yng Nghaeredin i 200+ a chyflawnwyd hyn ym mis Ebrill.

Caeredin



Ym mis Medi 2022, agorwyd ein swyddfa yn Leeds ac rydym eisoes wedi cyflogi mwy na 100 o staff i weithio yno.

Leeds



FCA FINANCIAL CONDUCT AUTHORITY

We're recruiting in Leeds

Join us for a career that makes a difference

fca.org.uk/careers



APPLY NOW



Ein gweithredoedd diweddar mewn ymateb i adolygiadau annibynnol

Rydym yn darparu diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd rydym wedi'i wneud yn erbyn argymhellion yr adolygiadau annibynnol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r rhain yn cynnwys:

Hyfforddiant

Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant gorfodol newydd i staff Awdurdodiadau ar adnabod a dadansoddi afreoleidd-dra ariannol. Rydym nawr yn gofyn am staff Awdurdodi a Goruchwyllo sy'n trin achosion i gwblhau hyfforddiant dadansoddi ariannol. Rydym wedi cyflwyno fframwaith gwell ar gyfer y ffordd yr ydym yn cynnal ac yn cynyddu gwiriadau ariannol ar gwmnïau unigol yn y Porth. Rydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i staff awdurdodi gael hyfforddiant ar asesiadau cyfannol sy'n helpu staff i adnabod materion sydd angen eu hasesu ymhellach fel gweithgareddau heb eu rheoleiddio gan gwmnïau.

Gwasanaeth trosglwyddo syml i ddefnyddwyr

Rydym wedi gweithredu gwelliannau i brofiad y defnyddiwr fel bod defnyddwyr, lle bo hynny'n briodol, yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r FOS, gan leihau'r pwyntiau cyffwrdd rheoleiddiol. Canlyniad hyn yw bod nifer y galwadau a dderbyniwyd gan yr FCA a fwriadwyd ar gyfer gwasanaeth yr Ombwdsmon wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn gan oddeutu 25% o gysylltiadau. Ein nod nawr yw ehangu'r cwmplas i gynnwys aelodau eraill o'r teulu rheoleiddiol.

Chwythu'r chwiban

Mae adroddiadau chwythu'r chwiban yn rhoi cipolwg unigryw i ni ar y sectorau a'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn asesu pob adroddiad a dderbyniwn. Gall adroddiadau arwain at weithredu yn erbyn cwmni neu unigolion.

Eleni, gwnaethom gynnal arolwg asesu ansoddol o chwythwyr chwiban. Mae ein gwelliannau arfaethedig yn cynnwys sicrhau bod y timau sy'n asesu datgeliadau yn ymgysylltu â chwythwyr chwiban cyn gynted â phosibl. Rydym yn gwella ein hadborth terfynol i chwythwyr chwiban i roi darlun llawnach iddynt o'n gweithredoedd a chanlyniad eu datgelu pan fyddwn yn cau eu hachos.



Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant gorfodol newydd i staff Awdurdodiadau ar adnabod a dadansoddi afreoleidd-dra ariannol.



Pennod 5

Ein Strategaeth 2022-25 – cynnydd yn erbyn ein hymrwymladau a'n canlyniadau

Y llynedd, lansiwyd ein strategaeth 3 blynedd yn nodi 13 ymrwymiad trawsbynciol i gefnogi ein ffocws cryfach ar:

- leihau ac atal niwed difrifol
- gosod a phrofi safonau uwch
- hyrwyddo cystadleuaeth a newid cadarnhaol



Mae ein hymrwymiaadau'n cefnogi'r canlyniadau rheng flaen yr ydym yn eu disgwyl ar gyfer defnyddwyr gan wasanaethau ariannol ar draws y marchnadoedd yr ydym yn eu rheoleiddio – gwerth teg, addasrwydd a thriniaeth, hyder a mynediad. Mae 3 yr ydym yn eu disgwyl ar gyfer marchnadoedd cyfanwerthol – gwerth teg, hyder a mynediad.



Lleihau ac atal niwed difrifol

Delio â chwmnïau problemus

Gwella'r fframwaith unioni

Lleihau niwed o fethiant cwmnïau

Gwella goruchwyllo Cynrychiolwyr Penodedig

Lleihau ac atal troseddau ariannol

Gweithredu pendant ar gam-drin y farchnad



Gosod a phrofi safonau uwch

Rhoi anghenion defnyddwyr yn gyntaf

Galluogi i ddefnyddwyr helpu eu hunain

Strategaeth ar gyfer newid cadarnhaol: ein blaenoriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG)

Lleihau effaith tarfu gweithredol



Hyrwyddo cystadleuaeth a newid cadarnhaol

Paratoi gwasanaethau ariannol ar gyfer y dyfodol

Cryfhau sefyllfa'r Deyrnas Unedig mewn marchnadoedd cyfanwerthol byd-eang

Llunio marchnadoedd digidol i gyflawni canlyniadau da

Canlyniadau yr ydym yn disgwyl i wasanaethau ariannol eu cyflawni



Gwerth teg



Addasrwydd a thriniaeth



Hyder



Mynediad

Fe wnaethom hefyd gyhoeddi mesurau ar gyfer y canlyniadau rheng flaen hyn a'n hymrwymiaadau i olrhain a dal ein hunain yn atebol am gynnydd. Rydym yn adrodd y gwerthoedd diweddaraf ar gyfer y mesurau hyn ar ein [tudalen we canlyniadau a metrigau](#). Yn yr Adroddiad Blynyddol hwn, rydym yn manylu ar ein cynnydd dros y 12 mis diwethaf.

Rydym yn cydnabod na fydd cynnydd tuag at ein canlyniadau bob amser yn cael ei weld ar unwaith yn ein metrigau neu'n gyson o flwyddyn i flwyddyn, oherwydd natur ein hymyriadau a'r metrigau sydd ar gael i fesur cynnydd.



Ffocws 1: Lleihau ac atal niwed difrifol

Er mai lleiafrif bach iawn o gwmnïau awdurdodedig yn unig sy'n achosi niwed sy'n newid bywyd, gall ac mae'n digwydd yn gyflym iawn. Mae'r adran hon yn esbonio'r camau yr ydym yn eu cymryd i leihau ac atal ymddygiad a all achosi niwed difrifol.

Delio â chwmnïau problemus

Mae cwmnïau nad ydynt yn cyrraedd ein safonau gofynnol yn peryglu defnyddwyr a marchnadoedd. Er mwyn lleihau'r risgiau hyn, rydym wedi recriwtio 3 thîm ychwanegol, yn gweithredu'n gyflymach ac yn adnabod niwed defnyddwyr yn fwy rhagweithiol trwy alluoedd pendant ac sy'n cael eu harwain gan ddata. Yn 2022, fe wnaethom gynyddu nifer y cwmnïau y cafodd eu hawdurdodiad ei ganslo. Dechreuon ni ymgysylltu â chwmnïau yn gynharach i atal niwed. O ganlyniad, rydym yn gweld cynnydd mewn cwmnïau naill ai'n cydymffurfio neu'n cywiro materion yn wirfoddol.

Sut rydym wedi datblygu yn erbyn ein canlyniadau

Mae gan ddefnyddwyr a chyfranogwyr y farchnad hyder bod cwmnïau gwasanaethau ariannol sy'n methu â bodloni Amodau Trothwy yn cael eu hadnabod a'u canslo'n gyflym

Yn 2022, gwnaethom ganslo awdurdodiad 627 o gwmnïau a fethodd â bodloni ein safonau gofynnol neu a stopiodd fod yn gymwys i gael awdurdodiad, cynnydd o 30% o'i gymharu â 2021.

Mae defnyddwyr a chyfranogwyr y farchnad yn ymddiried yn yr FCA i ymyrryd i atal niwed i ddefnyddwyr ac uniondeb y farchnad yn gyflym

Rydym wedi cymryd camau wedi'u targedu yn erbyn cwmnïau problemus, gan ymyrryd lle bo'n briodol i fynd i'r afael â niwed i ddefnyddwyr pan fyddwn yn ei adnabod. Mae arolwg gan yr FCA a'r Panel Ymarferwyr yn dangos bod 55% o gwmnïau yn 2021 yn ymwybodol o'r FCA yn tynnu caniatâd oddi wrth gwmnïau neu unigolion yn ôl. Mae hyn wedi cynyddu i 71% yn arolwg diweddar 2022/23. Mae arolwg Panel Ymarferwyr yr FCA hefyd yn dangos bod 50% o gwmnïau'n cytuno, neu'n cytuno'n gryf, bod yr FCA yn gyflym i ymyrryd i atal niwed posibl o fewn y diwydiant, 28% ddim yn cytuno nac yn anghytuno, mae 13% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf ac nid yw 9% yn gwybod.

Yn 2022, gwnaethom gymryd camau menter ein hunain yn erbyn 19 o gwmnïau o'i gymharu â 25 o gwmnïau yn 2021. Mae hyn wedi gostwng 33% o'i gymharu â 2021. Mae hyn yn adlewyrchu ein bod yn fwy pendant gyda chwmnïau yn gynharach i atal niwed. O ganlyniad, rydym wedi gweld cynnydd mewn achosion lle mae cwmnïau naill ai'n cydymffurfio neu'n cywiro materion yn wirfoddol, gan leihau'r angen i ni ddefnyddio ein pwerau menter ein hunain.



Yn 2022, gwnaethom ganslo awdurdodiad 627 o gwmnïau a fethodd â bodloni ein safonau gofynnol neu a stopiodd fod yn gymwys i gael awdurdodiad, cynnydd o 30% o'i gymharu â 2021.

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Cwblhau ein Prosiect Canslo Awdurdodiad Cwmnïau yn llwyddiannus

Mae'r prosiect hwn yn golygu adnabod cwmnïau nad ydynt yn cwrdd â'r safonau gofynnol yn awtomataidd a phrosesau mewnol symlach. Mae hyn yn ein gwneud ni'n fwy effeithlon. Rydym yn defnyddio ein pwerau canslo newydd i gymryd camau cyflymach yn erbyn cwmnïau sy'n methu â chynnal unrhyw weithgaredd a reoleiddir.

Ehangu camau a gymerir yn erbyn torri amodau trothwy

Gan ddefnyddio data, rydym wedi adnabod achosion addas ac wedi dechrau ymchwiliadau i'r materion hyn, lle rydym yn cynllunio i weithredu gan ddefnyddio ein hystod lawn o bwerau. Rydym hefyd wedi defnyddio ffynonellau data ychwanegol i wella ein gallu i ganfod cwmnïau yn rhagweithiol yn groes i Amodau Trothwy cymhleth.

Gwella'r fframwaith unioni

Mae gennym ddyletswydd i sicrhau lefel briodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr. Mae hynny'n cynnwys sicrhau eu bod yn gallu cael iawndal priodol ac effeithlon pan fydd pethau wedi mynd o chwith.

Ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd da i wella'r fframwaith unioni drwy sefydlu prosesau a fydd yn sicrhau gwelliannau yn y tymor hir. Mae mwy y bwriadwn ei wneud dros y 2 flynedd nesaf i wella adroddiadau cwynion a darparu canllawiau i gwmnïau ar ymarferion unioni.

Sut rydym wedi datblygu yn erbyn ein canlyniadau

Mae'r system unioni yn darparu datrysiaid ac iawndal amserol i ddefnyddwyr

Mae ein rheolau ymdrin â chwynion wedi'u cynllunio i sicrhau bod cwmnïau'n rhoi defnyddwyr yn ôl yn y safle y byddent wedi bod ynddo, pe na bai pethau wedi mynd o chwith. Yn 2022, mae cwmnïau wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i ddatrys cwynion o fewn yr amserlen o 8 wythnos yn gyflymach - gyda 49% o gwynion yn cael eu datrys mewn 3 diwrnod a 95% o gwynion o fewn 8 wythnos. Mae hyn yn cymharu â 48% o'r cwynion mewn 3 diwrnod a 91% o fewn 8 wythnos yn 2021.

Mae cwmnïau sy'n creu baich unioni yn ysgwyddo'r gost eu hunain

Eleni gwnaethom Reolau Cadw Asedau ar gyfer cwynion Cynllun Pensiwn Dur Prydain (BSPS) i helpu i liniaru'r risg y bydd cwmnïau'n afradloni eu hasedau tra bod arnynt iawndal. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, o'r tua 352 o gwmnïau a gynghorodd ar y BSPS, roedd 151 o gwmnïau a oedd yn gyfrifol am gynghori a threfnu tua 3,000 o'r bron i 8,000 o drosglwyddiadau BSPS wedi'u cynnwys yn y rheolau hyn.

Mae gwerth taliadau iawndal Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS) wedi aros yn sefydlog eleni ac rydym wedi gweld gostyngiad yn yr ardoll a godir ar gwmnïau. Fodd bynnag, mae costau'r FSCS yn cynnwys taliadau am gamymddwyn yn y gorffennol a ddigwyddodd 5-10 mlynedd yn ôl, gwyddom bod rhwymedigaethau presennol ar y gweill o hyd.



Yn 2022, gwnaethom gymryd camau menter ein hunain yn erbyn 19 o gwmnïau o'i gymharu â 25 o gwmnïau yn 2021

Mae'r Adolygiad o'r Fframwaith lawndal yn nodi ein cynlluniau i:

- barhau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol costau iawndal uchel FSCS
- gwella ein dealltwriaeth o effaith diogelu FSCS ar benderfyniadau, hyder ac ymddygiad defnyddwyr, ac effaith amddiffyniad FSCS ar ymddygiad a chymhellion cwmnïau
- ystyried cwmpas priodol diogelu FSCS a sut i gyfleu ei argaeledd orau
- adolygu terfynau iawndal a throthwyon dosbarthiadau cyllido

Eleni gwnaethom Reolau Cadw Asedau ar gyfer cwynion Cynllun Pensiwn Dur Prydain (BSPS) i helpu i liniaru'r risg y bydd cwmnïau'n afradloni eu hasedau tra bod arnynt iawndal

Mae defnyddwyr yn deall y system unioni a sut i'w chyrchu

Eleni rydym wedi cynnal 10 digwyddiad ledled y wlad, gyda dros 1,000 o gyn-aelodau o'r BSPS, i godi ymwybyddiaeth o sut y gallai'r system unioni eu helpu. Rydym wedi gwella'r wybodaeth i ddefnyddwyr ar [Gofrestr yr FCA](#).

Rydym yn olrhain nifer cyffredinol y defnyddwyr sydd wedi dweud eu bod yn ymwybodol y gallant wneud hawliad iawndal am gam-werthu cynnyrch neu wasanaeth ariannol yn uniongyrchol, heb ddefnyddio Cwmni Rheoli Hawliadau (CMC). Mae'n siomedig bod nifer y defnyddwyr sy'n ymwybodol o hyn wedi gostwng o 63% yn 2020 i 55% yn 2022.

Mae'n debygol y bydd yr ymwybyddiaeth uwch hon yn gysylltiedig â'r dyddiad cau ar gyfer cwyno am PPI ym mis Awst 2019, ychydig cyn i'r gwaith maes ar gyfer yr arolwg ddechrau. Mae'r ymwybyddiaeth is yn 2022 yn adlewyrchu llai o gyfathrebu ynghylch y pwnc hwn yn 2022. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid rheoleiddio ar sut y gallwn wella yn erbyn y metrig hwn.

Mae'r sector cwmni rheoli hawliadau yn sicrhau gwerth teg

Rydym wedi helpu i sicrhau bod CMCs yn sicrhau gwerth teg drwy gyflwyno rheolau i gapio ar y ffioedd y gallant eu codi mewn perthynas â hawliadau gwasanaethau ariannol. Rydym yn gweithredu yn erbyn cwmnïau nad ydynt yn dilyn y rheolau newydd. Dangosodd ein FLS 2022 bod 57% o ddefnyddwyr a wnaeth hawliad yn ystod y 3 blynedd diwethaf ac a ddefnyddiodd CMC ar gyfer eu hawliad diweddaraf yn ystyried bod y gwasanaeth a ddarparwyd yn bodloni eu disgwyliadau ac roedd 39% ohonynt o'r farn bod y ffi a dalwyd yn deg. Dyma'r tro cyntaf i ni gasglu'r data hwn. Byddwn yn parhau i fonitro hyn. Os yw CMCs yn gwneud gwaith da, byddem yn disgwyl i fwy o'r cwynion y mae CMCs yn eu gwneud i gael eu cadarnhau gan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Yn 2022/23, fe wnaeth gadarnhau 47% o gwynion a wnaed trwy CMCs a reoleiddir gan yr FCA, o'i gymharu â 30% yn 2021/22.

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Atal unigolion o gwmnïau ariannol rhag atgyfodi o fewn rheoli hawliadau

Yn 2022, gwnaethom gyflwyno rheolau newydd i wahardd cwmnïau rheoli hawliadau rhag atgyfodi a gwneud hawliadau i'r FSCS. Mae hyn yn digwydd pan fydd unigolyn sy'n gysylltiedig â chwmni gwasanaethau ariannol sydd wedi dod i ben yn ailymddangos mewn CMC, gyda'r nod o elwa o ymddygiad gwael eu cyn-gwmni yn cynrychioli defnyddwyr â hawliadau FSCS. Cyn i ni wneud y rheolau hyn, roedd gan o leiaf 18 (7%) o CMCs a reoleiddir gan yr FCA gysylltiadau hysbys â chyn gwmnïau gwasanaethau ariannol. Gwnaethom gyflwyno gofyniad adrodd newydd i gwmnïau ein hysbysu o gysylltiadau o'r fath a gwaharddiad ar ddwyn hawliadau mewn perthynas â'u gweithgarwch gwasanaethau ariannol.

Diweddarau'r canllawiau unioni ar gyfer trosglwyddiadau pensiwn

Gwnaethom ddiweddarau'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo iawndal i bobl a drosglwyddodd allan o'u pensiwn budd diffiniedig (DB) oherwydd cyngor anaddas. Bydd hyn yn sicrhau bod defnyddwyr a gafodd gyngor nad oedd yn cydymffurfio ac a ddioddefodd niwed o ganlyniad yn cael iawndal, cyn belled ag y bo modd, a fydd yn eu rhoi yn ôl yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe bai'r cyngor wedi cydymffurfio â'n rheolau.

Datblygu canllawiau mewnol am ymarferion unioni

Rydym wedi datblygu a lansio offeryn mewnol a phroses newydd i lywio ein barn ar ymarferion unioni, sicrhau cysondeb, cefnogi ymyriadau pendant a chyflawni gwell canlyniadau i ddefnyddwyr trwy helpu i sicrhau bod cwmnïau'n cynnig iawndal priodol pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Gweithredu pan nad yw cwmnïau'n ymdrin â chwynion yn dda

Mae'r Ombwdsmon Ariannol yn rhannu gwybodaeth gyda ni fel y gallwn weithredu lle nad yw trefn cwmnïau i ymdrin â chwynion yn cyrraedd ein disgwyliadau. Rydym yn ymyrryd os yw cwmnïau'n araf i dalu dyfarniadau'r Ombwdsmon.

Gweithio gyda'n partneriaid rheoleiddio i fynd i'r afael â materion a allai gael effaith ehangach ar y diwydiant

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cydweithio â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, yr FSCS, y Rheoleiddiwr Pensiynau a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau ar faterion sydd ag effaith ehangach bosibl. Fe wnaethom nodi 7 mater yr ydym wedi mynd i'r afael â nhw gan ddefnyddio gwell cydweithredu.



Dangosodd ein FLS 2022 bod

57%

o ddefnyddwyr a wnaeth hawliad yn ystod y 3 blynedd diwethaf ac a ddefnyddiodd CMC ar gyfer eu hawliad diweddaraf yn ystyried bod y gwasanaeth a ddarparwyd yn bodloni eu disgwyliadau ac roedd

39%

ohonynt o'r farn bod y ffi a dalwyd yn deg.



Lleihau niwed o fethiant cwmnïau

Mae cwmnïau sydd â gwydnwch ariannol gwan yn fwy tebygol o fethu. Rydym wedi cymryd camau i leihau'r niwed a'r golled i gwsmeriaid a marchnadoedd pan fyddant yn gwneud hynny. Er y bydd cwmnïau bob amser yn cario risg o fethu, rydym yn disgwyl iddynt fod yn ariannol wydn ac yn gwella'n gyflym ar ôl aflonyddu.

Sut rydym wedi datblygu yn erbyn ein canlyniadau

Mae cwmnïau'n bodloni eu gofynion adnoddau ariannol fel y gallant gynnal busnes, dirwyn i ben a, lle bo hynny'n berthnasol, methu heb achosi niwed sylweddol i ddefnyddwyr a chyfranogwyr y farchnad.

Rydym wedi cefnogi cwmnïau wrth iddynt weithredu cyfundrefnau darbodus y cwmnïau buddsoddi newydd, gan gynnwys adolygu prosesau unigol, cwestiynu cyflwyniadau data a chyhoeddi ein harsylwadau. Bydd hyn yn helpu 3,500 o gwmnïau o dan y drefn newydd i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud gan gynnwys ynghylch cynllunio dirwyn i ben, cyfalaf a hylifedd. Dylai hyn leihau'r risg o niwed yn digwydd.

Rydym wedi cyhoeddi [canllawiau pellach](#) ar gyfer y sector broceri yswiriant cyffredinol a chwmnïau twf cyflym, i wella eu cynllunio i ddirwyn i ben a'u dealltwriaeth o wytnwch ariannol.

Rydym wedi gweld cynnydd mewn cwmnïau nad ydynt yn bodloni gofynion adnoddau ariannol (1.7% ym mis Rhagfyr 2022 o'i gymharu â 1.3% ym mis Rhagfyr 2021).


Mae cydymffurfio â gofynion adnoddau ariannol yn ddangosydd bod cwmnïau yn gyffredinol yn gallu cynnal busnes a dirwyn i ben heb achosi niwed sylweddol.

Mae asedau a chronfeydd cleientiaid yn cael eu cadw'n briodol felly os bydd y cwmni'n methu, maent yn cael eu dychwelyd mor gyflym, ac mor gyfan, â phosibl.

Rydym wedi adolygu mwy na 3,000 o archwiliadau Llyfr Ffynonellau Asedau Cleientiaid (CASS) i asesu a oes risgiau asedau cleientiaid difrifol sydd angen ymyrraeth.

Roedd ychydig yn llai o farnau CASS sicrwydd rhesymol niweidiol yn 2021 (8.3% o'i gymharu â 9.1% yn 2020). Fodd bynnag, nid ydym yn cyfyngu ar ein hadolygiadau i adroddiadau archwilio CASS gyda barn 'wrthwynebus' a byddwn yn dilyn unrhyw bryderon perthnasol a adnabuwyd gennym mewn unrhyw archwiliad CASS.

O'n hadolygiad o archwiliadau CASS, yn ogystal â ffynonellau data eraill megis ffurflenni rheoleiddio a gwybodaeth a dderbyniwyd, rydym wedi dilyn i fyny gyda chwmnïau ar fwy na 1,100 o bryderon CASS. Wedi hynny rydym wedi defnyddio offer rheoleiddio i ddatrys y problemau a adnabuwyd gennym.



Rydym wedi adolygu mwy na 3,000 o archwiliadau Llyfr Ffynonellau Asedau Cleientiaid (CASS) i asesu a oes risgiau asedau cleientiaid difrifol sydd angen ymyrraeth.

Mae cwmnïau sy'n destun straen ariannol, neu arall, a allai arwain at fethiant yn cael eu hadnabod yn gyflym ac mae'r cwmni'n cywiro'r sefyllfa, yn dirwyn i ben yn ddiddyled, neu'n mynd i ansolfedd mewn ffordd sy'n lleihau niwed i ddefnyddwyr a chyfranogwyr y farchnad.

Rydym wedi gweithredu fframwaith brysbennu awtomataidd sy'n seiliedig ar ddata i adnabod cwmnïau sydd â gwytnwch ariannol gwan. Gwnaethom hefyd gynnal ymgynghoriad ar ffurflen sylfaen cadernid ariannol newydd sy'n berthnasol i 20,000 o gwmnïau.

Yr ymatebion i hyn, ynghyd â chyflwyniadau datagan 3,500 o gwmnïau o dan Gyfundrefn Darbodus Cwmnïau Buddsoddi, yn golygu y gallwn adnabod pryderon cadernid ariannol yn gynharach ac yn gyflymach. Mae ein metrig llinell sylfaen newydd yn dweud wrthym fod 59% o gwmnïau, a aeth i mewn i broses ansolfedd, wedi'u hadnabod fel rhai sydd mewn perygl o fethu, neu fod ganddynt lefelau isel o wytnwch ariannol, yn y 12 mis cyn hynny.

Rydym wedi cynllunio ar gyfer, ac ymateb i, materion sy'n codi o'r rhagolygon economaidd presennol, y marchnadoedd ynni a phwysau ehangach y farchnad drwy waith wedi'i dargedu gyda'r sectorau yr effeithir arnynt. Mae hyn yn caniatáu inni gymryd camau cyflym wedi'u targedu i leihau niwed i ddefnyddwyr a marchnadoedd trwy faterion yn gynnar.

Rydym wedi ymgysylltu'n rheolaidd â chyfranogwyr yn y farchnad ansolfedd ac ailstrwythuro, gan gynnwys ymarferwyr ansolfedd, i adnabod materion sy'n dod i'r amlwg a all ein helpu i weithredu'n rhagweithiol er mwyn lleihau niwed a lleihau methiannau afreolus.

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Cyfundrefn darbodus cwmnïau buddsoddi

Yn 2022, roedd trefn ddarbodus y cwmnïau buddsoddi newydd yn ei blwyddyn lawn gyntaf. Cawsom adroddiadau newydd gan 3,500 o gwmnïau gan ddarparu dealltwriaeth gliriach, fwy gwrthrychol o'u gwytnwch ariannol. Rydym wedi adolygu prosesau 53 o sefydliadau ar draws 17 grŵp, gan arwain at gynghori cwmnïau i ddal dros £5bn o ofynion cyfalaf a thros £8bn o hylifedd gyda'i gilydd.

Datblygu polisiau ar gyfer cryptoasedau

Rydym yn parhau i ddylunio, a byddwn yn ymgynghori ar y gofynion darbodus ar gyfer cwmnïau sy'n cynnal gweithgareddau sy'n ymwneud â cryptoasedau, unwaith y bydd y Trysorlys a'r Senedd yn dod â'r gweithgareddau hynny o dan ein rheolaeth.

Datblygu safonau ar gyfer cwmnïau buddsoddi defnyddwyr

Rydym yn edrych ar newidiadau i ofynion darbodus i gwmnïau cynghori nad ydynt yn MiFID ac yn bwriadu nodi rhagor o fanylion am hyn yn 2023.

Gweithredu i leihau niwed

Rydym wedi parhau i adolygu gofynion adnoddau sawl sector arall. Mae hyn yn cynnwys broceriaid yswiriant cyffredinol, darparwyr contractau ar gyfer gwahaniaethau (CFD), rheolwyr cyfoeth a chwmnïau gwasanaethau talu. Mae hyn wedi arwain at gynydd o £19.2m mewn gofynion cyfalaf a £208.7m mewn gofynion hylifedd ar gyfer y cwmnïau hyn.



Yn 2022, roedd trefn ddarbodus y cwmnïau buddsoddi newydd yn ei blwyddyn lawn gyntaf. Cawsom adroddiadau newydd gan 3,500 o gwmnïau gan ddarparu dealltwriaeth gliriach, fwy gwrthrychol o'u gwytnwch ariannol.

Ein dull gweithredu dan arweiniad data

Rydym yn sefydlu ffurflen reoleiddio cadernid ariannol sylfaenol newydd i fynd yn fyw o 1 Ionawr 2024. Bydd hyn yn rhoi lefel sylfaenol y data hwn i ni yn barhaol ar gyfer 20,000 o gwmnïau. Bydd hyn yn ein helpu i adnabod cwmnïau sydd â lefelau isel o wytnwch ariannol yn well a chymryd camau i leihau niwed i ddefnyddwyr a marchnadoedd o fethiant posibl.

Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn delweddu a dangosfyrddau data. Rydym wedi lansio cyfres o 7 dangosfwrdd ar draws y busnes i ddarparu gwybodaeth a thueddiadau ariannol pwynt mewn amser critigol ar dros 45,000 o gwmnïau a reoleiddir gan yr FCA yn unig.

Defnyddio ein pwerau ansolfedd

Lle mae risg o niwed parhaus, ac nad yw cyfarwyddwyr cwmni yn cymryd camau i'w roi mewn proses ansolfedd, efallai y bydd angen i ni weithredu ein hunain. Rydym yn gwneud hyn pan fyddwn yn credu ei fod yn briodol. Yn y flwyddyn galendr 2022, fe wnaethon ni:

- gwneud 10 cais i'r llys i osod cwmnïau mewn prosesau ansolfedd, o'i gymharu ag 1 yn 2021
- cyhoeddi 8 deiseb dirwyn i ben, 1 cais am weinyddu ac 1 cais am weinyddu arbennig

Penderfyniad Silicon Valley Bank UK Ltd (SVB UK)

Fel rhan o'n ffocws ar leihau ac atal niwed difrifol, mae timau'r FCA yn cymryd rhan mewn penderfyniadau neu ymyriadau banciau a chwmnïau gwasanaethau ariannol eraill o bob maint, gyda rôl wahanol yn dibynnu ar natur y cwmni.

Ar ôl cwmpw Banc Silicon Valley yn yr Unol Daleithiau fe wnaethom ddefnyddio tîm mawr, amlweddol yn gyflym i ymateb i'r argyfwng a oedd yn esblygu'n gyflym ac a oedd yn cynnwys SVB UK. Gan weithio ochr yn ochr â'n hawdurdodau partner, symudodd ein tîm yn gyflym i asesu lefel y niwed i ddefnyddwyr a marchnadoedd sy'n debygol o godi o'r methiant sydd ar ddod. Roeddem yn gallu nodi ac ymgysylltu â phoblogaeth cwmnïau a reoleiddir gan yr FCA a rhannu ein dadansoddiad â Banc Lloegr i gefnogi eu penderfyniadau. Gwnaethom dynnu ar alluoedd dadansoddeg data gwell yn ddiweddar i ddeall amlygiad deilliadau marchnad cyfanwerthu o SVB a helpodd i lywio ein barn o risg y farchnad a'n helpu i dargedu rhywfaint o'n gwaith.

O'n rhyngweithiadau goruchwylio, roedd yn amlwg y byddai sawl cwmni a reoleiddir gan yr FCA yn unig wedi wynebu problemau gweithredol a hylifedd pe bai SVB UK yn mynd i mewn i weinyddiaeth, gan achosi iddynt fethu o bosibl. Mewn achos o'r fath, byddem wedi bod yn awdurdod datrys ar gyfer cwmnïau a reoleiddir gan yr FCA yn unig. Buom hefyd yn gweithio ar opsiynau lliniaru pellach ochr yn ochr â ffrydiau gwaith lluosog gan hwyluso'r gwerthiant llwyddiannus i HSBC.

Buom yn gweithio gyda'r PRA dros nos a thrwy'r penwythnos i ddiweddarau'r Rheolau Diogelu Adnewwyr. Roedd hyn yn sicrhau y byddai cwsmeriaid unrhyw gwmnïau Taliadau ac E- Arian yr effeithiwyd arnynt yn destun amddiffyniad FSCS, yn unol â chanlyniad yr ymgynghoriad cysylltiedig.

Gwella Goruchwylio Cynrychiolwyr Penodedig

Mae prif gwmnïau yn gyfrifol am sicrhau bod eu Cynrychiolwyr Penodedig (ARs) yn cydymffurfio â'n rheolau. Ond nid yw rhai prif gwmnïau yn goruchwylio gweithgareddau eu ARs. Mae perygl i ddefnyddwyr gael eu camarwain a'u cam-werthu, tra gall camymddwyn gan ARs danseilio uniondeb y farchnad. Rydym wedi cyflwyno newidiadau drwy reolau newydd a chanllawiau i wella goruchwyliaeth prif gwmnïau o'u ARs a chodi safonau ARs.

Sut rydym wedi datblygu yn erbyn ein canlyniadau

Goruchwyliaeth gryfach gan brif gwmnïau i leihau niwed a achosir drwy ARs

Er bod cwynion ar gyfer 2021 a 2022 yn dangos gwell sefyllfa ar gyfer prif gwmnïau, o'i gymharu â'r llinell sylfaen a gyhoeddwyd, mae prif gwmnïau a'u ARs yn dal i gynhyrchu mwy o gwynion na chwmnïau nad ydynt yn brif gwmnïau yn gyffredinol.

Mae tua 35,000 o ARs, gan gynnwys Cynrychiolwyr a Benodir gan Gyflwynwyr (IARs), sy'n gweithredu yn y drefn AR ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn 2022/23. Mae hyn wedi lleihau dros amser o tua 43,000 yn 2020, gostyngiad o 19%. Mae ein hymyriadau goruchwylio rhwng Gorffennaf 2022 a 31 Mawrth 2023 wedi gweld prif gwmnïau yn terfynu perthnasoedd â 153 AR a 618 IAR.

Dangosodd ein harolwg o Banel Ymarferwyr a FCA 2022/23, fod 56% o'r prif gwmnïau a arolygwyd yn credu bod goruchwyliaeth o ARs gan brif gwmnïau yn eu sector wedi gwella.

Mae gwella dealltwriaeth prif gwmnïau o'u rhwymedigaethau yn ganolog i'n strategaeth. Rydym wedi ysgrifennu'n uniongyrchol at dros 3,000 o benaethiaid i amlinellu ein rheolau newydd. Rydym hefyd wedi casglu data newydd a chynhwysfawr sy'n cwmpasu dros 35,000 AR/IAR.

Mae'r data newydd yn cynnwys gwybodaeth am fusnes, refeniw a chwynion yr ARs, rhesymau dros benodi ARs a'r trefniadau ariannol rhwng prif gwmnïau a'u ARs. Mae hyn yn llywio ein dull goruchwylio dan arweiniad data, gan dargedu ein hadnodd ar y prif gwmnïau risg uchaf a'u ARs.

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Egluro a chryfhau cyfrifoldebau prif gwmnïau a'n disgwyliadau ohonynt

Daeth ein reolau a'n canllawiau newydd i rym ar 8 Rhagfyr 2022. Bydd ein gwaith ymgysylltu yn profi a yw cwmnïau'n ymgorffori'r rheolau newydd yn briodol ar draws y drefn AR.

Parhau i weithio gyda'r Trysorlys

Rydym hefyd wedi cefnogi gwaith y Trysorlys a'i Alwad am Dystiolaeth, a gaeodd ar 3 Mawrth 2022, i asesu a oes angen newidiadau deddfwriaethol ehangach.



Dangosodd ein harolwg o Banel Ymarferwyr a FCA 2022/23, fod 56% o'r prif gwmnïau a arolygwyd yn credu bod goruchwyliaeth o ARs gan brif gwmnïau yn eu sector wedi gwella.

Cryfhau'r craffu yn y Porth Awdurdodi

Fel y nodir yn ein diweddariad Awdurdodi ym mis Hydref 2022, rydym wedi cymryd camau i leihau ein llwyth gwaith cyffredinol, gan gynnwys recriwtio staff parhaol ychwanegol. O ganlyniad, rydym bellach yn dyrannu hysbysiadau newydd a cheisiadau unigol mewn modd mwy amserol. Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn cynnal safonau cadarn yn y Porth Awdurdodi, rydym hefyd wedi gwella ein ffurflenni i gasglu mwy o wybodaeth gan brif gwmnïau sy'n cynnig i ychwanegu ARs newydd. Mae'r newidiadau hyn i'n ffurflenni yn cyd-fynd â'n hymgyrch i wella safon diwydrwydd dyladwy a gynhelir gan benaethiaid ar yr ARs eu hunain.

Ym mis Mai 2022, gwnaethom wrthod cais gan Alexander Jon Compliance Consulting Limited i ddarparu gwasanaethau cynnal rheoleiddiol, ynghylch pryderon na allai ddangos bod ganddo'r sgiliau, y profiad na'r staff i oruchwyllo ARs. Nid oedd yr ymgeisydd yn gallu disgrifio model busnes hyfyw neu gynaliadwy. Nid oedd 'chwaith yn gallu egluro sut y byddai ei ARs yn asesu cynhyrchion neu wasanaethau yn briodol i ddefnyddwyr, nac i ddangos y byddai ganddo gyfrifoldeb uniongyrchol dros ymddygiad a chydymffurfiaeth ei ARs.

Rydym hefyd yn ymyrryd pan nad yw cyn-ARs yn cyrraedd y trothwy ar gyfer awdurdodi uniongyrchol. Er enghraifft, yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ein portffolio cynghorwyr a chyfryngwyr, tynnwyd 44% o geisiadau newydd gan gyn-ARs yn ôl neu gwrthodwyd y ceisiadau yn dilyn ein hasesiad.

Gwella'r wybodaeth yr ydym yn ei darparu ar brif gwmnïau a'u ARs

Erbyn hyn mae gan ein tudalennau gwe defnyddwyr esboniadau cliriach o'r drefn fel y gall defnyddwyr ddeall yn well:

- gyda phwy maen nhw'n delio
- sut i gwyno
- y cyfyngiadau ar eu gallu i gwyno wrth Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Rydym hefyd wedi adolygu'r wybodaeth a ddangosir ar gofrestr yr FS am ARs, i roi gwybodaeth gliriach i ddefnyddwyr.

Dwysáu ein goruchwyliaeth

Fe wnaethom sefydlu adran newydd i arwain ein Strategaeth ar draws yr FCA ar ARs a gwaith achos risg uchel. Rydym wedi defnyddio ein hoffer ymyrraeth i weithredu'n gyflym i atal niwed parhaus, gan arwain at nifer o gwmnïau naill ai'n rhoi'r gorau i bob gweithgaredd a reoleiddir, tynnu ARs i ffwrdd neu stopio cynnwys ARs pellach nes cwblhau gwaith adfer.

Roedd angen ymyrraeth draws-sector mewn rhai achosion. Roedd hyn oherwydd diffyg adnoddau ariannol ac anariannol prif gwmni i oruchwyllo ei ARs, diwydrwydd dyladwy annigonol wrth gynnwys ARs a monitro parhaus gwael o ARs.



In May 2022, we
Ym mis Mai 2022,
gwnaethom wrthod
cais gan Alexander
Jon Compliance
Consulting
Limited i ddarparu
gwasanaethau cynnal
rheoleiddiol, ynghylch
pryderon na allai
ddangos bod ganddo'r
sgiliau, y profiad na'r
staff i oruchwyllo ARs.

Goruchwyllo dan arweiniad data

Rydym wedi defnyddio offer proffilio a dadansoddiad llwyr i gynhyrchu data sy'n ein helpu i ganolbwyntio ar y cwmnïau cywir. Er enghraifft, adnabu ein dadansoddiad o ddata arolwg AR grŵp a oedd yn anhysbys o'r blaen o tua 60 o westeion rheoleiddio. O ganlyniad, mae 1 cwmni wedi rhoi'r gorau i fasnachu, tra bod eraill yn gweithredu i ddatrys problemau. Mae ein data hefyd wedi helpu i adnabod y prif gwmnïau cyfanwerthol mwyaf peryglus a'u ARs. Arweiniodd ein goruchwyliaeth o'r cwmnïau hyn at derfynau eu perthynas â 129 o ARs (33%).

Lleihau nifer yr enwau masnachu

Mae rhai cwmnïau'n cofrestru enwau masnachu ar gyfer personau anawdurdodedig, yn hytrach na chofrestru fel AR, i osgoi'r gyfundrefn AR. Os yw'r person hwnnw'n cyflawni gweithgarwch rheoledig heb gael ei awdurdodi neu ei eithrio, fel AR, mae'n debygol ei fod yn cynnal busnes anghyfreithlon heb awdurdod. Gall enwau masnachu hefyd ddrysu neu gamarwain defnyddwyr. Ar wahân i hynny, gwnaethom herio rwydwaith prif gwmnïau mawr am nifer o'i enwau masnachu. Arweiniodd hyn at leihau'r nifer 35% yn llai o enwau masnachu a 15% yn llai o ARs gydag enwau masnachu.

Mwy o ddefnydd o'n hoffer rheoleiddio a'n camau gorfodi priodol

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, gwnaethom gynnal o leiaf 23 achos gorfodi i brif gwmnïau lle gwnaethom nodi camymddwyn posibl yn ymwneud ag ARs. Roedd cyfanswm o 4 o adolygiadau o bobl fedrus ar brif gwmnïau sy'n eistedd yn y portffolios rheoli asedau a dewisiadau amgen hefyd yn mynd rhagddynt ar draws y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Roedd yr adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar brofi llywodraethiant, systemau a rheolaethau, gan gynnwys cynnwys a monitro ARs.



Lleihau ac atal troseddau ariannol

Mae trosedd ariannol yn gwneud niwed mawr i gymdeithas. Mae lleihau troseddau ariannol yn gofyn am ymdrech ar y cyd – oddi wrthym ni, cwmnïau gwasanaethau ariannol rheoledig, cwmnïau telathrebu a chyfryngau cymdeithasol, y Llywodraeth a'n partneriaid gorfodi'r gyfraith reoleiddiol – yn y DU ac yn rhyngwladol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwella ein hymateb traws-sefydliadol ac wedi adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer mynd i'r afael â throseddau ariannol yn effeithiol.

Sut rydym wedi datblygu yn erbyn ein canlyniadau

Arafu'r twf mewn dioddefwyr a cholledion twyll buddsoddi

Mae'r rhan fwyaf o dwyll buddsoddi yn tarddu ar-lein. Rydym wedi cymryd ymagwedd aml-haen tuag at fynd i'r afael â hyn. Mae hyn yn cynnwys adnabod a cheisio cael gwared ar hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon, cymryd camau gorfodi lle rydym yn adnabod gweithredwyr drwg a cheisio dylanwadu ar ein partneriaid allanol i wneud newidiadau polisi a deddfwriaethol, a fydd yn lleihau nifer y twyll buddsoddi.

Mae'n parhau i fod yn her i fesur ein heffaith uniongyrchol ar dueddiadau twyll o ystyried y sbardunau eang o dwyll ac amrywiaeth o bartion sy'n gallu effeithio ar ei gyffredinrwydd a'i effaith ar ddioddefwyr. Fodd bynnag, mae'r National Fraud and Intelligence Bureau (NFIB) yn dangos bod nifer y dioddefwyr yr adroddwyd amdanynt o dwyll buddsoddi wedi gostwng 3.5% yn 2022 o'i gymharu â 2021. Cynyddodd colledion 6.8% yn 2022 o'i gymharu â 2021. Mae hyn yn gyfradd sylweddol arafach o golledion na rhwng 2020 a 2021 (twf o 53%).

Arafu'r twf mewn achosion a cholledion twyll Taliad Gwthio Awdurdodedig (APP)

Ym mlwyddyn gyntaf ein strategaeth, rydym wedi cynyddu ein galluoedd i fynd i'r afael â thwyll APP. Rydym wedi buddsoddi mewn tîm twyll parhaol sydd wedi cyflwyno Fframwaith Twyll mewnol ar gyfer asesu systemau a rheolaethau gwrth-dwyll cwmnïau a dangosfwrdd data i adnabod cwmnïau sy'n fwy agored. Gwnaethom gwblhau sawl asesiad peilot a chynnwys ein canfyddiadau mewn llythyr at yr holl gwmnïau talu.

Rydym yn parhau i ymgymryd ag amrywiaeth o newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol gan gynnwys:

- Gweithio gyda'r PSR ar ei gynnig i orchymyn ad-dalu am sgamiau APP lle mae'r arian yn cael ei anfon gan ddefnyddio'r system Taliadau Cyflymach.
- Cefnogi'r PSR i ymestyn cadarnhad o ofynion talwyr i 400 o gwmnïau ychwanegol. Bydd hyn yn cynnwys 99% o'r taliadau cyflymach erbyn mis Hydref 2023.
- Gweithio gyda phartneriaid rheoleiddio a diwydiant i arafu proses taliadau lle amheuir twyll.

Yn ôl data diweddaraf Cyllid y DU, bu cynnydd o 6% yn nifer yr achosion o dwyll APP a adroddwyd a gostyngiad gros o 17% mewn colledion yn 2022 o'i gymharu â 2021 (mae hyn yn cymharu â chynnydd gros o 27% mewn achosion a adroddwyd a chynnydd gros o 39% mewn colledion rhwng 2020 a 2021). Er mwyn cael effaith hirhoedlog ar lefelau twyll, mae angen ymateb system gyfan.



Ym mlwyddyn gyntaf ein strategaeth, rydym wedi cynyddu ein galluoedd i fynd i'r afael â thwyll APP. Rydym wedi buddsoddi mewn tîm twyll parhaol sydd wedi cyflwyno Fframwaith Twyll mewnol ar gyfer asesu systemau a rheolaethau gwrth-dwyll cwmnïau a dangosfwrdd data i adnabod cwmnïau sy'n fwy agored.

Lleihau troseddau ariannol drwy ostwng nifer yr achosion o wyngalchu arian trwy'r cwmnïau yr ydym yn eu goruchwyllo'n uniongyrchol a thrwy wella effeithiolrwydd goruchwyliaeth Goruchwylwyr Corff Proffesiynol (PBSs)

Yn 2022/23 fe wnaethom fuddsoddi i wella ein gallu i sicrhau ein bod yn cadw cwmnïau mewn perygl o gael eu defnyddio fel cyfrwng ar gyfer troseddau ariannol allan yn y Porth Awdurdodi. Fe wnaeth y gyfradd Atal, Tynnu'n Ôl a Gwrthod (RWR) ar gyfer sefydliadau Atodiad I sy'n gwneud cais i gofrestru o dan y Rheoliadau Gwyngalchu Arian (MLRs) gynyddu ychydig (24% yn 2022/23 o'i gymharu â 21% yn 2021/22). Mewn ceisiadau eraill ar gyfer cofrestru o dan y MLRs, megis ar gyfer busnesau cryptoasedau y DU, rydym yn gweld cyfradd RWR uwch. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 cofrestrwyd 7%, gyda'r 93% sy'n weddill naill ai'n cael eu hatal, eu tynnu'n ôl neu eu gwrthod.

Mae ein dull o oruchwyllo Gwrth-wyngalchu Arian (AML) yn ystwyth, yn seiliedig ar risg ac wedi'i dargedu felly mae ein hadnoddau yn cael eu cyfeirio tuag at gwmnïau sydd â'r risg fwyaf o wyngalchu arian. Er ein bod wedi cynyddu maint y gwaith goruchwyllo, byddwn yn canolbwyntio fwyfwy ar y maes hwn.

Yn 2022/23, gwnaethom adolygu bron i 100 o achosion o dorri sancsiynau a amheuir. Rydym hefyd wedi cyflwyno dull dan arweiniad data i oruchwyllo cwmnïau yn rhagweithiol i sicrhau fod ganddynt systemau a rheolaethau sancsiynau priodol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio data synthetig a adeiladwyd gan ddefnyddio rhestr weithredu'r Swyddfa Sancsiynau Ariannol o dargedau sancsiynau ariannol i brofi systemau sgrinio sancsiynau cwmnïau a deifio dwfn i systemau a rheolaethau cwmnïau. Yn 2022/23, cynhaliwyd 38 asesiad rhagweithiol yn edrych ar systemau a rheolaethau cwmnïau.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'n hasiantaethau partner yn ddomestig ac yn rhyngwladol i helpu i gyflawni dull cydgysylltiedig, yn ogystal ag ymgysylltu â diwydiant i helpu i wella systemau a rheolaethau sancsiynau cwmnïau gan ddefnyddio galluedd data newydd, rydym wedi datblygu fel y gallwn dargedu ein ffocws goruchwyllo fwyaf yn effeithiol mewn ardaloedd risg uwch.

Yn 2022/23, gwnaethom agor 613 o achosion goruchwyllo troseddau ariannol, cynnydd o 65% o'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o 10% o'n ffigur llinell sylfaen 2020/21 sef 548.

Santander UK Plc

Fel rhan o'n rôl i ddiogelu defnyddwyr a'r farchnad, rydym wedi camu i mewn ac wedi cosbi cwmnïau dro ar ôl tro am reoli eu systemau AML yn wael. Fe wnaethon ni ddirwyo Santander £107.8 miliwn ar ôl i ni ddod o hyd i fylchau difrifol a pharhaus yn eu rheolaethau AML a effeithiodd ar ei gwsmeriaid Bancio Busnes.

Cymhwysodd Santander am ostyngiad o 30% oherwydd eu bod wedi setlo'r achos. Pe na baent wedi setlo, byddai eu cosb wedi bod yn £153,990,400. Rhwng 31 Rhagfyr 2012 a 18 Hydref 2017, methodd Santander â goruchwyllo a rheoli ei systemau AML yn iawn. Effeithiodd hyn yn sylweddol ar gyfrifon banc mwy na 560,000 o'u cwsmeriaid busnes.

Canfuom hefyd nad oedd systemau Santander yn gwirio'n ddigonol y wybodaeth a ddarparwyd gan gwsmeriaid am y busnes y dywedon nhw y byddent yn ei wneud. Fe wnaeth y cwmni fethu â monitro'r symiau o arian y dywedodd cwsmeriaid y byddai'n mynd drwy eu cyfrifon o'i gymharu â'r hyn y gwnaethant ei adneuo mewn gwirionedd.

Arweiniodd y methiannau hyn at fwy na £298 miliwn yn pasio drwy'r banc cyn iddo gau'r cyfrifon hyn. Mewn un enghraifft, agorodd cwsmer newydd gyfrif yn honni ei fod ar gyfer busnes cyfieithu bach. Dywedodd y cwsmer eu bod yn disgwyl talu £5,000 y mis i mewn. Fodd bynnag, o fewn 6 mis fe wnaethant adneuo miliynau i'r cyfrif hwn. Yna trosglwyddwyd yr arian hwn yn gyflym i ystod o gyfrifon ar wahân.

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Gwella gwiriadau diwydrwydd dyladwy yn y Porth Awdurdodi

Yn 2022, gwnaethom ategu ein hadnoddau cudd-wybodaeth canolog trwy greu tîm o fewn Awdurdodi i gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy gwell. Mae'r tîm Awdurdodi pwrpasol hwn yn golygu ein bod yn gwneud ein gwiriadau cudd-wybodaeth yn y Porth Awdurdodi yn gyflymach gan ein galluogi i symud yn gyflymach i atal gweithredwyr drwg yno.

Ymyrryd i atal hyrwyddiadau ariannol nad ydynt yn cydymffurfio

Ym mis Awst 2022, cyhoeddwyd ein rheolau terfynol i gryfhau'r drefn ar gyfer hyrwyddo buddsoddiadau risg uchel (PS22/10). Am fwy o wybodaeth am y cynnydd sylweddol yn y gwaith yn y maes hwn, gweler yr adran 'galluogi defnyddwyr i helpu eu hunain', pennod 5.

Addysgu defnyddwyr ar sut i adnabod sgamiau

Nod ein hymgyrch ScamSmart yw rhoi'r wybodaeth a'r offer i ddefnyddwyr i helpu i'w hatal rhag dioddef sgamiau. Rydym yn gwneud hyn drwy godi ymwybyddiaeth defnyddwyr o arwyddion rhybuddio allweddol sgamiau a'u hannog i wirio ein Rhestr Rhybudd ar-lein. Mae dros 2 filiwn o bobl wedi ymweld â gwefan ScamSmart ers ei lansio yn 2014, ac mae mwy na 45,000 wedi gweld ein rhybuddion am gwmnïau penodol, anawdurdodedig. Dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Cynhaliodd ScamSmart 4 ymgyrch: 2 ymgyrch twyll ffioedd benthyciad ym mis Awst 2022 a Rhagfyr 2022: ymgyrch sgamiau pensiynau rhwng Hydref a Thachwedd 2022. Ym mis Chwefror 2023, lansiwyd ymgyrch sgamiau buddsoddi i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc 21–54 oed.
- Daeth dros 194,000 o bobl i wefan ScamSmart.
- Cafodd 27,544 o bobl fynediad i'r rhestr rhybudd o'i gymharu â 24,785 yn 2021.
- Roedd cynnydd o 34% yn nifer y rhybuddion a gyhoeddwyd yn 2022 o'i gymharu â 2021.
- Gwnaeth 57% o ddefnyddwyr a gysylltodd â ni am sgam yn ymwneud â gweithgareddau yr ydym yn eu rheoleiddio wneud hynny cyn iddynt fuddsoddi yn y cynnyrch, o'i gymharu â 51% yn 2021.


Fframwaith newydd ar gyfer asesu systemau a rheolaethau gwrth-dwyll cwmni

Rydym wedi buddsoddi mewn Tîm Twyll newydd sy'n bwriadu cyflwyno Fframwaith Twyll mewnol ar gyfer asesu systemau a rheolaethau gwrth-dwyll cadarn. Bydd hyn yn gwella ein gallu i asesu cwmnïau ac adnabod lle mae angen i ni ymyrryd.

Mae'r Tîm Twyll hefyd yn datblygu dangosfwrdd data a fydd, gyda'r Fframwaith Twyll, yn rhoi inni offer cryf i adnabod ac asesu cwmnïau a allai fod yn allyrwyr wrth fynd i'r afael â thwyll neu sy'n cael eu defnyddio gan dwyllwyr.



Mae dros 2 filiwn o bobl wedi ymweld â gwefan ScamSmart ers ei lansio yn 2014.



Cwblhau cynlluniau peilot i helpu i ddyfnhau ein dealltwriaeth o reolaethau twyll

Rydym wedi cwblhau ein hasesiadau peilot cychwynnol i ddeall pa mor dda y mae cwmnïau'n sicrhau nad ydynt yn cael eu defnyddio gan dwyllwyr a sut maent yn amddiffyn eu cwsmeriaid rhag twyll. Anfonwyd llythyr at gwmnïau talu ym mis Mawrth 2023 a oedd yn cynnwys negeseuon allweddol ar dwyll.

Rydym hefyd wedi lansio cynllun peilot pellach ar fulod arian. Mae hyn yn canolbwyntio ar sut mae cwmnïau'n sicrhau nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio i 'dalau allan' yr elw o dwyll. Nod hyn yw gosod disgwyliadau yn ogystal â gwella safonau.

Cryfhau canfod twyll a pherthynas â phartneriaid allanol

Gwnaethom barhau â'n ffocws ar geisio tynnu gwefannau sy'n hyrwyddo twyll buddsoddi i lawr a dod o hyd i ffyrdd newydd o ymyrryd yn erbyn twyll. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Genedlaethol Troseddau Economaidd (NECC) wrth ddatblygu'r Ganolfan Targedu Twyll amlasiantaethol.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag Uned Cudd-wybodaeth Ariannol y DU fel y gallwn gael mynediad i'r gronfa ddata Adroddiadau Gweithgaredd Amheus (SARS) - ffynhonnell wybodaeth bwyrus. Cyflwynwyd dros 900,000 o SARS rhwng 2021-2022 yn ôl Adroddiad Blynyddol [SARs NCA 2022](#).

Cydweithio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith ar weithgarwch cryptoasedau risg uchel

Eleni rydym wedi gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith i ymyrryd yn erbyn gweithgarwch crypto anghyfreithlon. Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom gynnal cydweithrediad ag un o'r Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol sy'n mynd i'r afael â busnes cryptoased anghofrestredig, gwyngalchu arian ymddangosiadol a throseddau eraill. Arweiniodd hyn at orchmynion atal am dros £3m mewn crypto ac asedau eraill, atal gweithgarwch cyfnewid crypto anghyfreithlon, arwain at nifer o ddaliadau ac amharu ar uned troseddau cyfundrefnol difrifol.

Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022, gwnaethom gysylltu â gweithredwyr 24 ATM crypto, sy'n dueddol o wynebu risgiau gwyngalchu arian ac adnabod 73 lleoliad o ddiddordeb ar gyfer gweithrediadau crypto ATM (CATM). Rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol o 68% yng ngweithgareddau CATM yr adroddwyd amdanynt yn 2022. Er na ellir priodoli hyn i gyd i weithgaredd yr FCA mae'n dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y maes hwn.

Ym mis Chwefror 2023, gan ddefnyddio ein pwerau o dan reoliad 69 o'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian, aethom i mewn ac archwilio gwahanol leoliadau yn Leeds yr amheuwyd eu bod yn cynnal CATMs a weithredir yn anghyfreithlon. Hwn oedd y cyntaf mewn cyfres o gamau gweithredu lle rydym yn gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill i adnabod ac amharu ar fusnesau crypto anghofrestredig yn y DU.



Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022, gwnaethom gysylltu â gweithredwyr 24 ATM crypto, sy'n dueddol o wynebu risgiau gwyngalchu arian ac adnabod 73 lleoliad o ddiddordeb ar gyfer gweithrediadau crypto ATM (CATM). Rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol o 68% yng ngweithgareddau CATM yr adroddwyd amdanynt yn 2022.

Goruchwyllo PBS yn weithredol trwy asesiadau llyfrau ffynhonnell a mentrau trawsbynciol

Mae'r Swyddfa Goruchwyllo Gwrth-Gwyngalchu Arian Cyrff Proffesiynol (OPBAS) wedi'i lleoli yn yr FCA. Mae'n goruchwyllo'r 25 PBS yn y sectorau cyfreithiol a chyfrifeg gyda'r nod o leihau niwed gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth. Eleni cyhoeddodd [lyfr ffynhonnell](#) diwygiedig i roi arweiniad ychwanegol i PBS ar ei ddisgwyliadau a'r canlyniadau i wella Goruchwyliaeth AML - gyda ffocws ar ba mor effeithiol yw PBSs wrth sicrhau rheolaethau gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth briodol.

Mae hefyd wedi:

- Parhau i gefnogi'r Gweithgorau Arbenigol Rhannu Gwybodaeth (ISEWGs) gan gynnwys cyflwyno ISEWGs gwledydd datganoledig i ddeall risg ddaearyddol yn fwy eglur.
- Ymgymryd â goruchwyliaeth ragweithiol mewn meysydd risg uchel, gan gynnwys cyhoeddi canlyniadau ei brosiect cyntaf ar oruchwyliaeth a risg Darparwyr Gwasanaeth Ymddiriedolaeth neu Gwmnïau (TCSP). Mae hefyd wedi cwblhau asesiadau o effeithiolrwydd 9 PBS yn llwyddiannus
- - sy'n cynnwys mwyafrif o'r poblogaethau cwmnïau dan oruchwyliaeth PBS sylfaenol.
- Chwarae rhan allweddol yn cyfrannu ochr yn ochr â'r FCA wrth ddatblygu'r Cynllun Troseddau Economaidd 2 ac mae'n arwain ac yn cefnogi sawl cam gweithredu o dan y Cynllun.
- Cynhyrchu yr iteriad cyntaf o ddangosfwrdd data mewnol a KPIs ar sail beilot ar gyfer Ch4 2022 a fydd yn cael ei gynhyrchu'n chwarterol i fonitro a llywio goruchwyliaeth sy'n seiliedig ar risg.
- Adolygu pob un o'r 22 adroddiad AML blynyddol PBS ar gyfer effeithiolrwydd. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd at bob PBS ar y cyd â'r Trysorlys i ddarparu adborth cyhoeddus, yn ogystal â darparu adborth unigol. Canfu adroddiad OPBAS a gyhoeddwyd ar 28 Ebrill 2023 fod cyrff proffesiynol yn parhau i ddangos lefelau da o gydymffurfiaeth â rheoliadau gwyngalchu arian ond ni fu gwelliannau o ran pa mor effeithiol y maent yn goruchwyllo yn ddigon da.

Mae OPBAS hefyd wedi ymgymryd â rôl weithredol wrth sicrhau bod PBSs wedi cyfrannu at weithredu sancsiynau yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin.

Adnabod hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon a gofyn am gael gwared â nhw

Rydym wedi parhau i ddylanwadu ar beiriannau chwilio a chwmnïau cyfryngau cymdeithasol i atal sgamiau rhag cael eu hyrwyddo a hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon eraill yn cael eu cyfathrebu. O ganlyniad, rydym wedi gweld gostyngiad o bron i 100% mewn hysbysebion y telir amdanynt yn anghyfreithlon ar Google a Bing. Mae ein systemau data yn ein helpu i adnabod gwefannau sgam gan gynnwys dadansoddiad o tua 100,000 o wefannau y dydd, lle rydym yn adnabod sgamiau rydym yn cyhoeddi rhybudd defnyddwyr ac yn gofyn i letywyr y wefan dynnu'r wefan i lawr. Yn 2022, gwelsom gynnydd arwyddocaol yn nifer y rhybuddion defnyddwyr ar gwmnïau anawdurdodedig o'i gymharu â 2021.

Rydym hefyd wedi chwarae rhan sylweddol mewn diwygiadau deddfwriaethol cysylltiedig - yn enwedig y Bil Diogelwch Ar-lein. Buom yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod troseddau twyll yn cael eu categoriedd fel 'cynnwys anghyfreithlon â blaenoriaeth' a bod 'hysbysebu y telir amdano' yn dod o fewn cwmmpas y Bil. Os caiff y Bil ei basio gyda'r newidiadau hyn, bydd yn golygu y bydd angen i blatfformau gymryd camau gweithredol i atal pobl rhag dod i gysylltiad â chynnwys twyllodrus arnynt.



Rydym wedi parhau i ddylanwadu ar beiriannau chwilio a chwmnïau cyfryngau cymdeithasol i atal sgamiau rhag cael eu hyrwyddo a hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon eraill yn cael eu cyfathrebu.



Roedd gennym 48 o ymchwiliadau troseddau ariannol yn agored yn ein timau gorfodi busnesau anawdurdodedig ar ddiwedd 2022/23, gyda 212 o unigolion ac endidau yn destun ymchwiliad.

Ymchwiliadau gorfodi i fusnesau anawdurdodedig

Yn ystod y flwyddyn ariannol, gwnaethom gynyddu buddsoddiad yn ein timau gorfodi busnesau anawdurdodedig. Gwnaethom gyhuddo dau unigolyn o wyrddroi cwrs cyfiawnder ar ôl eu cyhuddo o droseddau twyll/gwyngalchu arian yn flaenorol yn 2021/22. Gwnaethom hefyd agor ymchwiliadau i 13 o unigolion ac endidau eraill yr amheuir eu bod yn cyflawni troseddau twyll neu wyngalchu arian lle roedd niwed parhaus i ddefnyddwyr.

Roedd gennym 48 o ymchwiliadau troseddau ariannol yn agored yn ein timau gorfodi busnesau anawdurdodedig ar ddiwedd 2022/23, gyda 212 o unigolion ac endidau yn destun ymchwiliad.

Sut rydym yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) a gwyddor data i adnabod busnes heb awdurdod

Rydym yn defnyddio offer a dangosfyrddau adrodd – sy'n gwneud defnydd o brosesu iaith naturiol, datrysiadau endid a thechnegau delweddu data – fel ffordd o brysbennu nifer uchel o achosion a dderbynnir gan y Timau Perimedr yn awtomatig. O fewn y timau hyn, mae hyn wedi arwain at optimeiddio sylweddol o ddyraniad achosion, gyda 60-70% o achosion bellach ond angen gwiriad cyflym gan adnodd iau. Yn y gorffennol, roedd angen adolygiad manwl ar bob achos, a oedd yn cymryd llawer o amser ac yn ddwys o ran adnoddau.

Deddf Enillion Troseddau (POCA)

Yn dilyn achos cyfreithiol a ddygwyd gan yr FCA, fe wnaeth QPay Europe Limited fforffedu dros £2m. Er nad oedd QPay yn ymwneud yn uniongyrchol â throseddu, achos yr FCA oedd mai arian QPay oedd yr elw o weithgaredd anghyfreithlon yn gysylltiedig â throsedd yn UDA.

Gweithredu pendant ar gam-drin y farchnad

Mae cam-drin y farchnad yn tanseilio cyfanrwydd system ariannol y DU, gan erydu hyder a lleihau cyfranogiad yn ein marchnadoedd. Mae cwmnïau yn llinell amddiffyn gyntaf hanfodol. Rydym wedi defnyddio dulliau cyfathrebu, goruchwyliaeth a, lle bo angen, dulliau gorfodi, i gefnogi diwylliannau gwrth-gam-drin cryf a systemau a rheolaethau effeithiol.

Rydym yn gweithio mewn marchnadoedd cynradd i sicrhau bod gan gwmnïau a chyhoeddwyd reolaethau cadarn ar gyfer gwybodaeth fewnol a'i datgelu i'r farchnad mewn ffordd gywir ac amserol. Mae hyn yn lleihau'r cyfle i gam-drin y farchnad. Mewn marchnadoedd eilaidd, rydym yn gwella ein gallu i fonitro data marchnadoedd a deallusrwydd cadarn i sylwi ar ddelio mewnol a manipiwleiddio'r farchnad.

Sut rydym wedi datblygu yn erbyn ein canlyniadau

Mwy o hyder yng uniondeb marchnadoedd y DU sy'n cynnal lefelau uchel o gyfranogiad ar draws yr ochr brynu a'r ochr werthu

Rydym wedi parhau i fonitro cyhoeddwyd a chyfranogwyr eraill y farchnad i sicrhau bod safonau'n parhau'n uchel. O ystyried amodau'r farchnad gyfnewidiol, rydym wedi cynyddu ein gwaith craffu ar gwmnïau ar gyfer nwyddau ac incwm sefydlog.

Yn ôl [Arolwg o Banel Ymarferwyr a'r FCA 2022/23](#), roedd mwy na 60% o gwmnïau marchnad cyfanwerthu o'r farn ein bod yn effeithiol wrth hyrwyddo uniondeb y farchnad, amddiffyn marchnadoedd rhag datgeliadau sydd wedi'u hoedi neu sy'n gamarweiniol, delio mewnol a manipiwleiddio'r farchnad. Roedd bron i hanner y cwmnïau yn dal i feddwl bod cam-drin y farchnad yn broblem yn y DU. Mae hyn yn adlewyrchu maint a chymhlethdod marchnadoedd y DU.

Ar [lendid y farchnad](#), gwelsom gynnydd yn ystadegyn glanweithdra'r farchnad a'r mesur cyfaint masnachu annormal a gostyngiad yn y gymhareb fasnachu a allai fod yn anghyson o'i gymharu â 2021. Fel yr ydym wedi nodi mewn blynyddoedd blaenorol, mae angen gofal wrth ddadansoddi'r data hwn, y gellir effeithio arno gan newidynnau fel anwadalrwydd y farchnad a chyfeintiau masnachu uchel. Gallai cyfnodau o anwadalrwydd uchel, ar ôl ymosodiad Rwsia ar Wcráin a datblygiadau economaidd a gwleidyddol sylweddol eraill trwy gydol y flwyddyn, fod wedi effeithio ar ein mesurau yn 2022.

Datgelu gwybodaeth gorfforaethol yn amserol ac yn gywir

Rydym wedi parhau â'n gwaith o gynnal adolygiadau gwyliadwriaeth fyw ac ar ôl digwyddiadau o ddatgeliadau gan gwmnïau rhestredig ym marchnadoedd gwarantau'r DU. Pan fyddwn yn dod o hyd i bryderon a phroblemau, rydym yn cymryd amrywiaeth o gamau. Fe wnaethom atal rhestrau o offerynnau ar 34 achlysur ac roedd 54 achos o ddatganiadau eglurhaol i'r cyswllt ar ôl y farchnad gennym ni.

Mae cwmnïau a chyhoeddwyd ariannol yn fwy gwydn i gam-drin y farchnad, gyda systemau a rheolaethau cadarn, arferion adrodd o ansawdd uchel a diwylliant cryf o wrth-gam-drin y farchnad

Rydym wedi cymryd camau gorfodi proffil uchel yn erbyn 3 chwmni am fethiannau mewn systemau a rheolaethau cam-drin y farchnad. Rydym wedi gweithio gyda chwmnïau rheoledig i amharu ar weithgarwch camdrinwyr cyfresol y farchnad, gwaith parhaus a gyfrannodd at gwmnïau brocera yn cau cyfrifon lluosog.



Fe wnaethom atal rhestrau o offerynnau ar 34 achlysur ac roedd 54 achos o ddatganiadau eglurhaol i'r cyswllt ar ôl y farchnad gennym ni.

Dod â sancsiynau troseddol, sifil a goruchwyllo yn erbyn troseddwr i ddarparu ataliad effeithiol

Rydym wedi cyhoeddi Hysbysiadau Penderfyniad yn dilyn ymchwiliadau i amseroldeb a chywirdeb datgeliadau gan 2 gwmni rhestredig a rhai o'u cyfarwyddwyr. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiadau yn cadarnhau ein bod wedi dechrau camau cyfreithiol mewn dau achos arall. Rydym hefyd wedi cymryd camau proffil uchel yn erbyn cyfarwyddwr am ddatgelu gwybodaeth fewnol yn anghyfreithlon. Rydym wedi cyhuddo 5 unigolyn am ddelio mewnol ac mae gennym achos manipiwleiddio'r farchnad gerbron yr Uwch Dribiwnlys.

Carillion Plc

Fe wnaethon ni geryddu Carillion Plc a chynnig dirwyon arfaethedig gwerth cyfanswm o £870,200 ar gyfer 3 o'i gyn-gyfarwyddwyr. Pe na bai Carillion yn cael ei ddiddymu, byddem wedi gosod cosb o £37.9m. Ymhlith methiannau eraill, cyhoeddodd Carillion gyhoeddiadau camarweiniol yn ddi-hid yn 2016 a 2017. Nid oeddent ychwaith yn gywir, nac yn llawn, yn datgelu gwir berfformiad ariannol Carillion. Nid oeddent ychwaith yn adlewyrchu dirywiad sylweddol ym mherfformiad ariannol disgwylidig busnes adeiladu Carillion's UK a'r risgiau ariannol cynyddol cysylltiedig.

Gwelsom hefyd fod y cyfarwyddwyr wedi gweithredu'n ddi-hid ac yn gwybod am dorri rheol Carillion. Penderfynasom fod yr ymddygiad hwn yn gam-drin yn y farchnad ac yn torri ein rheolau a'n hegwyddorion rhestru. Ac roedd hyn hefyd yn niweidiol i uniondeb y farchnad. Mae'r 3 chyn-gyfarwyddwr wedi cyfeirio eu Hysbysiadau Penderfyniad at yr Uwch Dribiwnlys a fydd yn penderfynu pa gamau priodol, os o gwbl, yw'r camau priodol i ni eu cymryd

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Darparu arsylwadau drwy Wylfeydd y Farchnad (MW) a Bwletinau Marchnad Sylfaenol (PMB)

Rydym wedi cyhoeddi sylwadau ar adrodd trafodion i wella ansawdd data. Rydym wedi gwneud sylwadau ar drefniadau gwyliadwriaeth cam-drin y farchnad cwmnïau ac wedi ailadrodd pwysigrwydd rhestrau mewnol cywir. Mae ein Bwletinau'r Farchnad Sylfaenol wedi cynnwys erthyglau sy'n cwmpasu ystod o bynciau o ESG i ddatgelu gwybodaeth fewnol yn anghyfreithlon.

Cynyddu ein gallu gwyliadwriaeth marchnad a data

Rydym yn gyson yn gwella ein systemau ar gyfer gwell gwyliadwriaeth y farchnad a gwella ansawdd ein data a sut rydym yn ei ddefnyddio. Daeth ein system gwyliadwriaeth marchnad newydd yn fyw ym mis Gorffennaf 2023. Er mwyn lleihau'r risg weithredol, byddwn yn cyflwyno trosglwyddiad busnes graddol i'r seilwaith newydd dros Ch1 a Ch2 FY2023/24 gan fynd yn fyw llawn ym mis Hydref 2023.

Rydym wedi datblygu ymhellach ddata marchnad sylfaenol y gellir ei ddarllen gan beiriannau strwythuredig trwy ein mecanwaith storio cenedlaethol (NSM). Mae'n orfodol i gyhoeddwy'r perthnasol ffeilio Adroddiadau Ariannol Blyneddol gyda ni. Rydym wedi bod yn gweithio i ehangu'r ystod o tacsonomïau a ganiateir, i gynyddu cydymffurfiaeth â gofynion ffeilio ac, mewn partneriaeth â'r Cyngor Adrodd Ariannol, i gynyddu ymwybyddiaeth ac ansawdd yn y maes hwn.

Enghreifftiau eraill o'n gwaith i leihau ac atal niwed difrifol

Cynllun Pensiwn Dur Prydain (BSPS)

Rydym yn cydnabod y niwed a achoswyd i gyn-aelodau'r BSPS a dderbyniodd gyngor anaddas i drosglwyddo eu pensiwn rhwng mis Mai 2016 a mis Mawrth 2018. O ganlyniad, rydym wedi gweithredu cynllun unioni i sicrhau bod cyn-aelodau y mae arian yn ddyledus iddynt yn gallu ei dderbyn. Bydd hyn yn parhau drwy gydol 2023/24. Rydym yn amcangyfrif y bydd yn darparu tua 1,100 o ddefnyddwyr sydd o fewn y cwmpas oddeutu £49 miliwn mewn iawndal. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi diweddarau ein methodoleg ar gyfer cyfrifo iawndal ar gyfer cyngor trosglwyddo pensiwn Budd-dal Diffiniedig anaddas.

Credyd Cost Uchel

Mae swm y credyd sydd ar gael i'r rhai sydd â mynediad cyfyngedig, neu ddim mynediad, i gredyd prif ffrwd wedi gostwng ymhellach eleni wrth i fwy o fenthycwyr cost uchel adael y farchnad. Rydym wedi defnyddio data'r sector i adeiladu darlun o faint y cyflenwad credyd yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth a Fair 4 All Finance i annog mentrau i gefnogi defnyddwyr sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at gredyd fforddiadwy. Er enghraifft, rydym yn cefnogi Fair 4 All Finance wrth dreialu'r Cynllun Dim Benthyciad Llog (NILS), trwy ein blwch tywod rheoleiddiol. Rydym wedi siarad yn gyhoeddus am bwysigrwydd bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'r risgiau o fenthycu arian anghyfreithlon, a byddwn yn parhau i roi cyhoeddusrwydd i waith Tîm Benthycu Arian Anghyfreithlon a ariennir gan y llywodraeth yn ein hymgysylltiad â chwmnïau a chymdeithasau masnach yn y dyfodol. Rydym wedi ymyrryd i atal cwmnïau rhag niweidio defnyddwyr trwy arferion benthycu anfforddiadwy. Ym mis Hydref 2022, gwnaethom gyhoeddi ein llythyr portffolio at y sector. Roedd hwn yn esbonio ein prif flaenoriaethau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r cwmnïau hyn i nodi ein disgwyliadau a sicrhau bod niwed i ddefnyddwyr yn cael ei leihau, gan anelu at gynnal mynediad defnyddwyr at gredyd teg, fforddiadwy.



Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth a Fair 4 All Finance i annog mentrau i gefnogi defnyddwyr sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at gredyd fforddiadwy.



Ffocws 2: Gosod a phrofi safonau uwch

Rydym wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar effaith gweithredoedd cwmnïau ar ddefnyddwyr a marchnadoedd. Mae'r adran hon yn esbonio ein camau gweithredu i osod safonau uwch ac asesu sut mae'r rhain yn sicrhau canlyniadau gwell.

Rhoi anghenion defnyddwyr yn gyntaf

Rydym wedi gosod disgwyliadau cliriach ac uwch ar gyfer safon y gofal a gwasanaeth cwsmeriaid y mae cwmnïau yn ei roi i ddefnyddwyr. Rydym wedi gweithio gyda'r Llywodraeth, a phartneriaid ehangach, i gefnogi cynhwysiant ariannol.

Sut rydym wedi gwneud cynnydd yn erbyn ein canlyniadau

Defnyddwyr:

- gwerthir cynhyrchion a gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu eu hanghenion a'u nodweddion iddynt
- maent yn cael cynhyrchion a gwasanaethau sy'n werth teg
- maent yn deall y wybodaeth a roddir iddynt ac yn gwneud penderfyniadau amserol a gwybodus o ganlyniad
- maent yn cael cefnogaeth dda i gwsmeriaid

Daw'r Ddyletswydd Defnyddwyr i rym ar 31 Gorffennaf 2023 ar gyfer cynhyrchion neu wasanaethau newydd a phresennol sy'n agored i'w gwerthu neu eu hadnewyddu. Mae'n berthnasol i gwmnïau ar draws y gadwyn ddosbarthu, o darddiad cynnyrch a gwasanaeth i weithgareddau dosbarthu ac ôl-werthu i gwsmeriaid manwerthu.

Er mwyn olrhain a yw cwmnïau'n cyflawni canlyniadau da i ddefnyddwyr manwerthu unwaith y daw'r ddyletswydd i rym, rydym wedi datblygu set o fetrigau y byddwn yn adrodd yn eu herbyn. Er enghraifft, cwynion perthnasol a dderbyniwyd ac a gadarnhawyd gan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Trwy reolau cliriach i gwmnïau, rydym yn rhagweld dros amser y bydd y Ddyletswydd Defnyddwyr yn cael dylanwad cadarnhaol o ran defnyddwyr sy'n derbyn prisiau tecach a chefnogaeth o ansawdd gwell ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau, cynnydd mewn boddhad â'u darparwyr, a gostyngiad mewn niwed defnyddwyr ac yn nifer y cwynion.

Mae gan ddefnyddwyr hyder mewn marchnadoedd gwasanaethau ariannol

Mae data'n awgrymu bod lefel hyder oedolion y DU yn niwydiant gwasanaethau ariannol y DU, ynghyd â chanfyddiadau o onestrwydd a thryloywder, wedi parhau'n gyson yn gyffredinol rhwng 2020 a 2022. Fodd bynnag, roedd gan ddefnyddwyr sydd â nodweddion bregusrwydd lai o hyder yn y diwydiant yn 2022 nag a wnaethant yn 2020. Mae'n bosibl y bydd hyn wedi'i effeithio gan bwysau costau byw.



Daw'r Ddyletswydd Defnyddwyr i rym ar 31 Gorffennaf 2023 ar gyfer cynhyrchion neu wasanaethau newydd a phresennol sy'n agored i'w gwerthu neu eu hadnewyddu.





Costau byw

Mae defnyddwyr yn wynebu pwysau cynyddol o gostau byw uwch. Dywedodd dros dri chwarter o oedolion y DU eu bod yn teimlo baich cynyddol wrth gadw i fyny â'u biliau domestig a'u hymrwymiaid credyd yn y 6 mis hyd at fis Ionawr 2023.

Canfu ein hymchwiliad Financial Lives fod nifer yr oedolion a fethodd daliadau ar unrhyw filiau domestig, neu nad oeddent yn gallu bodloni unrhyw un o'u hymrwymiaid credyd mewn 3 neu fwy o'r 6 mis blaenorol, wedi cynyddu 1.4 miliwn: o 4.2 miliwn (8%) ym mis Mai 2022 i 5.6 miliwn (11%) ym mis Ionawr 2023.

Dros yr un cyfnod, fe wnaeth nifer y bobl a oedd yn teimlo bod gwneud y mathau hyn o daliad yn faich trwm neidio o 7.8 miliwn (15%) i 10.6 miliwn (21%).

Mae gan y diwydiant gwasanaethau ariannol rôl i'w chwarae wrth gefnogi defnyddwyr wrth iddynt ddelio â'r pwysau hyn. Rydym wedi dangos y byddwn yn gosod safonau uchel ac yn dwyn cwmnïau i gyfrif am eu gweithredoedd. Rydym wedi nodi sut rydym yn disgwyl i gwmnïau benthyg gefnogi benthycwyr sy'n ei chael hi'n anodd; rhybuddio yswirwyr amddiffyn eu cwsmeriaid rhag ychwanegion diangen a chosbau annheg. Rydym wedi sicrhau gwelliannau i gcontractau Prynu Nawr Talu'n Ddiweddarach (BNPL) annheg cyn rheoleiddio'r farchnad.

Cynnal mynediad priodol at wasanaethau ariannol

Rydym wedi bod yn goruchwyllo cwmnïau yn erbyn ein canllawiau cau canghennau, a gyflwynwyd yn 2020 a'i ddiweddarau ym mis Hydref 2022 i ychwanegu disgwyliadau pellach o gwmnïau. Rydym wedi atgoffa cwmnïau o bwysigrwydd asesu effaith cau ar fynediad i'r ystod lawn o wasanaethau bancio. Mae ein goruchwylwyr yn rhoi sylw arbennig i gynlluniau i gau mewn ardaloedd lle mae llai o ddewisiadau amgen i gael mynediad at arian parod, megis gwasanaethau swyddfa bost yn ogystal ag ardaloedd sydd â dangosyddion sylweddol o fregusrwydd cwsmeriaid posibl.

Ym mis Mehefin 2023, pasiodd y Senedd Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2023. Bydd y Ddeddf hon yn rhoi i ni [bwerau](#) i geisio sicrhau darpariaeth resymol o wasanaethau mynediad i arian parod ar draws y DU.

Bydd y ddeddfwriaeth yn rhoi pwerau newydd i ni weithredu lle rydym yn dod o hyd i neu'n rhagweld effeithiau sylweddol ar allu defnyddwyr i gael mynediad i arian parod. Rydym yn datblygu rheolau a chanllawiau i ragweld y pwerau newydd hyn gyda'r nod o ymgynghori ar gynigion yn haf 2023. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys LINK a'r Trysorlys. Byddwn yn cyhoeddi [diweddariadau](#) am fynediad at arian parod i lywio ein gwaith polisi ac i sicrhau y gallwn weithredu'n gyflym os gwelwn broblemau'n codi. Mae mwy am ein cyhoeddiadau data wedi'i nodi isod.

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Cyhoeddi rheolau terfynol ar sail canlyniadau ar y Ddyletswydd fel y gall cwmnïau ddod o hyd i ffyrdd newydd o wasanaethu eu cwsmeriaid a bod yn glir am ein disgwyliadau

Fe wnaethom gyhoeddi ein datganiad adborth ochr yn ochr â'r Rheolau a chanllawiau terfynol ym mis Gorffennaf 2022. Ymhlith rhwymedigaethau lefel uchel eraill sy'n cael eu cyflwyno, mae'r rheolau Dyletswydd Defnyddwyr yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau ystyried anghenion, nodweddion ac amcanion eu cwsmeriaid manwerthu - gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion bregusrwydd - a sut maent yn ymddwyn, ar bob cam o daith y cwsmer. Yn ogystal â gweithredu i ddarparu canlyniadau da i gwsmeriaid manwerthu, bydd angen i gwmnïau fonitro a gallu dangos tystiolaeth o sut maent yn gwneud hynny.

Ymgorffori'r Ddyletswydd ar bob cam o'r rheoleiddio, o awdurdodi i oruchwyllo a gorfodi

Rydym yn gofyn i gwmnïau sy'n ceisio awdurdodiad, a'r rhai sy'n amrywio eu caniatâd, egluro sut y byddant yn bodloni gofynion y Ddyletswydd Defnyddwyr. Rydym yn asesu pa mor bell y mae gan gwmnïau bolisiau, prosesau a fframweithiau sydd ar waith i sicrhau eu bod yn deall, yn monitro ac yn gweithredu i gyflawni canlyniadau da i gwsmeriaid manwerthu.


Rydym wedi adolygu cynlluniau gweithredu'r cwmnïau mwy y credwn y bydd y Ddyletswydd Defnyddwyr yn berthnasol iddynt. Yn ogystal ag ymgysylltu â chwmnïau unigol yn uniongyrchol, gwnaethom gyhoeddi canfyddiadau o'r adolygiad hwn i helpu pob cwmni i ddeall ein disgwyliadau a gweithredu'r Ddyletswydd yn fwy effeithiol. Rydym hefyd wedi asesu sut y dylai'r Ddyletswydd fod yn berthnasol i sectorau perthnasol ac wedi ysgrifennu atynt yn nodi ein disgwyliadau.

Gweithio gyda'r holl randdeiliaid yn ystod y cyfnod gweithredu ar Ddyletswydd i adnabod enghreifftiau o arfer da a gwael i'w helpu i'w defnyddio

Er mwyn helpu cwmnïau i ddeall a bodloni eu rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd, rydym yn darparu rhaglen eang i'w cefnogi. Mae hyn yn cynnwys cyrff masnach ac ymgysylltu â'r Panel Statudol, areithiau a llythyrau sector a phortffolio, podlediadau a chyfarfodydd.

Mae'r gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- Ers mis Gorffennaf diwethaf rydym wedi siarad mewn bron i 100 o ddigwyddiadau Dyletswydd Defnyddwyr. Mynychodd bron i 9,000 o gwmnïau ein gweminarau yn y sector. Roedd mynychwyr yn llawer mwy hyderus eu bod yn deall y Ddyletswydd ar ôl y weminar - gyda chynnydd o 29% yn y rhai sy'n rhoi gradd o hyder uchel, o'i gymharu â chyn hynny.
- Cyhoeddom 19 o lythyrau portffolio a sector sy'n nodi ein disgwyliadau ar gyfer ymgorffori'r Ddyletswydd mewn gwahanol sectorau.
- Cyhoeddom adolygiad o gynlluniau gweithredu Dyletswydd Defnyddwyr ac adolygiad o fframweithiau gwerth teg. Amlygodd y cyhoeddiadau hyn enghreifftiau o arfer dda a meysydd i'w gwella.



Ers mis Gorffennaf diwethaf rydym wedi siarad mewn bron i 100 o ddigwyddiadau Dyletswydd Defnyddwyr. Mynychodd bron i 9,000 o gwmnïau ein gweminarau yn y sector.

Defnyddio ymchwil a phartneriaethau defnyddwyr i gael mewnwediadau ar anghenion a phrofiadau defnyddwyr i lywio ein blaenoriaethau a'n camau gweithredu

Rydym yn parhau â'n gwaith rheolaidd gyda sefydliadau defnyddwyr, un i un a thrwy ein Rhwydwaith Defnyddwyr. Rydym yn defnyddio eu gwybodaeth i lywio ein blaenoriaethau, megis wrth ddatblygu ein dealltwriaeth o effaith y cynnydd mewn costau byw ar wahanol grwpiau o ddefnyddwyr. Rydym hefyd yn parhau i fonitro ymddygiadau a phrofiadau defnyddwyr yn agos drwy ein FLS a thrwy ystod eang o ddata arall.

Yswiriant Adeiladau Amlfeddiannaeth

Ar 21 Medi 2022, cyhoeddwyd ein hadroddiad i yswiriant adeiladau amlfeddiannaeth. Bu'r adroddiad - sy'n gynnyrch cydweithio agos rhwng cydweithwyr Goruchwyliaeth, Polisi, Cystadleuaeth ac Economeg - yn archwilio achosion cynnydd mewn costau yswiriant adeiladau ers Grenfell. Mae'n nodi amrywiaeth o argymhellion a datrysiadau posibl eraill. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i roi mwy o amddiffyniadau i lesddeiliaid rhag prisiau uchel ac i sicrhau bod y farchnad yswiriant adeiladau yn gweithio'n well.

Canfu ein hadolygiad dystiolaeth o ostyngiad yn y cyflenwad yswiriant a chynnydd sylweddol yn y premiwm cyfartalog ers Grenfell - yn enwedig ar gyfer adeiladau â chladin neu risgiau diogelwch tân materol eraill. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod hyn o ganlyniad i'r risgiau tân difrifol a adnabuwyd ar ôl trychineb Grenfell. Mae hefyd yn ganlyniad i'r proffidioldeb tanysgrifennu sy'n gostwng yn busnes hwn oherwydd cynnydd parhaus mewn hawliadau dros y 15 mlynedd diwethaf.

Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad hefyd dystiolaeth o gomisiynau uchel yn cael eu talu i froceriaid a chwmnïau eraill yn y gadwyn ddosbarthu. Daeth o hyd i arferion gwael nad ydynt yn gyson â gyrru gwerth teg i lesddeiliaid. Ychydig o lwybrau sydd gan lesddeiliaid hefyd i herio'r costau yswiriant sy'n cael eu trosglwyddo iddynt gan rydd-ddeiliaid. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i roi pwysau ar wahanol elfennau'r gost yswiriant.

Ar 21 Ebrill 2023, cynhyrchom adroddiad dilynol a oedd yn canolbwyntio ar dâl broceriaid. Roedd hyn yn ategu canfyddiadau ein hadroddiad ym mis Medi. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi papur ymgynghori gyda newidiadau arfaethedig i'r rheolau gyda'r nod o wella'r ffordd y mae'r farchnad yn gweithredu.

Cymryd rhan yn y Fforwm Polisi Cynhwysiant Ariannol a gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth ac eraill i gefnogi mynediad defnyddwyr at gynhyrchion a gwasanaethau

Rydym yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael ag allgáu ariannol. Rydym wedi cymryd rhan yn y Fforwm Polisi Cynhwysiant Ariannol.

Goruchwyliaeth bendant o'n canllawiau cau canghennau

Rydym yn parhau i oruchwyllo'n bendant ein canllawiau cau canghennau. Rydym yn ymgysylltu â chwmnïau i ddeall i ba raddau y mae'r cwmni'n dilyn y canllawiau ac i herio unrhyw fylchau yn eu dadansoddiad. O ganlyniad, rydym yn gweld newidiadau yn y ffordd y mae cwmnïau'n ystyried effaith cau canghennau mewn cymunedau lleol.

Casglu gwybodaeth fanwl am fynediad at arian parod

Rydym wedi parhau i gasglu data gan gwmnïau ar ddarparu pwyntiau mynediad arian parod a dadansoddiad cyhoeddus o ddarpariaeth mynediad arian parod ar ein gwefan. Ym mis Mai 2023 fe wnaethom gyhoeddi data ar fynediad at arian parod ar gyfer Ch1 (Ionawr - Mawrth) a Ch2 (Ebrill-Mehefin) 2022. Fel yn Ch2 2022, ar gyfer unrhyw fanc, cymdeithas adeiladu, cangen Swyddfa'r Post, neu unrhyw ATM (yn rhad ac am ddim neu talu-i-ddefnyddio):

- Roedd 96.5% o boblogaeth y DU o fewn 2km i bwynt mynediad arian parod
- Roedd 99.8% o boblogaeth y DU o fewn 5km i bwynt mynediad arian parod

Fe wnaethom hefyd barhau i ymgysylltu'n agos â'r Trysorlys wrth iddynt ddatblygu eu datganiad polisi arian parod a byddwn yn ystyried hyn wrth i ni ddatblygu ein rheolau ar gyfer mynediad at arian parod.

Defnyddio ein pecyn cymorth rheoleiddiol, gan gynnwys ein pwerau i orfodi deddfwriaeth diogelu defnyddwyr, i fynd i'r afael â niwed


Rydym yn parhau i ddefnyddio ein pecyn cymorth rheoleiddiol, gan gynnwys ein pwerau i orfodi deddfwriaeth diogelu defnyddwyr, megis y Ddeddf Hawliau Defnyddwyr a'r Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg, i fynd i'r afael â niwed pan welwn arfer wael. Er enghraifft, gwnaethom gyhoeddi ymgymeriad gan gwmnïau BNPL ar degwch ac eglurder telerau eu contract.

Benthycwyr mewn trafferthion ariannol

Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom adrodd ar ein gwaith ar 'Benthycwyr mewn trafferthion ariannol'. Amlygodd ein canfyddiadau nad oedd defnyddwyr yn cael yr help a'r gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddynt. Fel rhan o hyn, gwnaethom ofyn i 32 o ddarparwyr benthyciadau wneud newidiadau sylweddol i wella prosesau a chanlyniadau i'w cwsmeriaid.

Ymgynghoriad ar ganllawiau morgaeisi

Yn ystod y gaeaf y llynedd, lansiwyd ymgynghoriad ar ganllawiau drafft yn egluro amrywiaeth o'r opsiynau sydd gan gwmnïau i gefnogi benthycwyr morgais, megis darpariaethau ar ddirymu ac amrywiadau contractau. Mae'r canllawiau terfynol yn cadarnhau sut y gall benthycwyr morgaeisi gefnogi cwsmeriaid sydd wedi methu taliadau neu sy'n poeni efallai na fyddant yn gallu gwneud taliadau yn y dyfodol.



Galluogi i ddefnyddwyr helpu eu hunain

Mae gwasanaethau digidol yn ei gwneud hi'n gyflymach ac yn haws nag erioed i gymryd rhan mewn gwasanaethau ariannol. Mae angen gwybodaeth dda ar ddefnyddwyr i wneud penderfyniadau da. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn digwydd. Yn hytrach, maent yn aml yn cael eu targedu â hysbysebion sy'n anghyfreithlon, yn aneglur, yn annheg neu'n gamarweiniol.

Sut rydym wedi datblygu yn erbyn ein canlyniadau

Lleihau'r potensial ar gyfer colledion ariannol defnyddwyr sy'n deillio o gam-werthu cynhyrchion oherwydd cyhoeddi hyrwyddiadau ariannol nad ydynt yn cydymffurfio gan endidau awdurdodedig

Rydym wedi cynyddu ein hymyrraeth yn sylweddol yn erbyn cwmnïau awdurdodedig sy'n methu â chydymffurfio â rheolau hyrwyddiadau ariannol. O ganlyniad, rydym wedi sicrhau bod dros 8,582 o hysbysebion a allai fod yn gamarweiniol yn cael eu newid neu eu tynnu i lawr yn 2022 - 14 gwaith yn fwy nag yn 2021.

Lleihau'r potensial ar gyfer colledion ariannol defnyddwyr a cham-werthu cynhyrchion oherwydd cyflwyno hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon gan endidau anawdurdodedig

Mewn perthynas â chwmnïau ac unigolion anawdurdodedig, gwnaethom gyhoeddi 1,882 o rybuddion yn 2022. Mae hyn yn gynydd o 34% o gymharu â 1,410 yn 2021.

Lleihau'r potensial ar gyfer colled ariannol o sgamiau a chamwerthu buddsoddiadau ansafonol risg uchel sy'n cynnwys cwmnïau awdurdodedig

Yn 2022, gwnaethom gyflwyno rheolau newydd i sicrhau bod ein cyfundrefn hyrwyddo ariannol yn gadarn ac yn parhau i fod yn addas i'r diben mewn amgylchedd buddsoddi sy'n newid.

Mae metrigau ledled y DU sy'n defnyddio data NFIB yn dangos:

- gostyngodd nifer y dioddefwyr yr adroddwyd amdanynt o dwyll buddsoddi 3.5% yn 2022 o'i gymharu â 2021
- er bod colledion wedi cynyddu 6.8% yn 2022 o'i gymharu â 2021, mae hon yn gyfradd sylweddol arafach o dwf colledion na rhwng 2020 a 2021 (twf o 53%). Fel yr amlinellwyd yn yr adran Lleihau ac Atal Troseddau Ariannol, mae'n her o hyd i fesur ein heffaith uniongyrchol ar dueddiadau twyll o ystyried gyrwyr eang twyll ac amrywiaeth o bartion sy'n gallu effeithio ar ba mor gyffredin ydyw a'i effaith ar ddioddefwyr



Rydym wedi cynyddu ein hymyrraeth yn sylweddol yn erbyn cwmnïau awdurdodedig sy'n methu â chydymffurfio â rheolau hyrwyddiadau ariannol.

Grŵp Marchnadoedd Pwrpasol

Yn 2022/23, fe wnaethom erlyn 4 o bobl a oedd yn rhedeg Grŵp Marchnadoedd Pwrpasol yn y DU. Roedd hyn yn gweithredu twyll opsiynau deuaidd rhwng 2016 a 2018, gan gymryd £1.2m gan fuddsoddwyr o'r Deyrnas Unedig.

Cafwyd cyfanswm o dri diffynnydd yn euog o dwyll, a chafwyd un ohonynt hefyd yn euog o wyrddroi cwrs cyfiawnder. Cafodd dedfrydau o garchar rhwng 9.5 a 7.5 mlynedd eu gosod. Cafodd y diffynnyddion hefyd eu gwahardd rhag bod yn gyfarwyddwyr cwmni am gyfnod o 10 mlynedd. Cafwyd y pedwerydd diffynnydd yn euog o drosedd FSMA. Rydym yn dilyn gorchmynion atafaelu i gael iawndal ar gyfer dioddefwyr ac i amddifadu troseddwyr o'u henillion gwael. Bydd diffynnydd arall yn cael ei roi ar brawf ar wahân yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Porth Awdurdodi newydd i gwmnïau sy'n cymeradwyo hyrwyddiadau ariannol

Mae Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2023 yn creu Porth Awdurdodi rheoleiddio newydd yn ddiweddarach eleni, gan gyfyngu ar gwmnïau rhag cymeradwyo hyrwyddiadau ariannol, oni bai bod ganddynt ein caniatâd i wneud hynny. Rydym wedi datblygu fframwaith cadarn ar gyfer goruchwyllo cymeradwyaeth cwmnïau o hyrwyddiadau ariannol a fydd yn lleihau'r niwed gan ddefnyddwyr yn prynu cynhyrchion amhriodol.

Cryfhau ein rheolau hyrwyddo ariannol ar gyfer buddsoddiadau risg uchel

Ym mis Rhagfyr 2022, daeth y set gychwynnol o reolau newydd i rym. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad am fwy o rybudd risg i ddefnyddwyr mewn hyrwyddiadau ariannol ar gyfer buddsoddiadau risg uchel. Bythefnos yn ddiweddarach, adolygom 67 o gwmnïau cyllido torfol a chwmnïau cymheiriaid i gymheiriaid i asesu a oeddent yn cydymffurfio. O'r cwmnïau hynny, gwelsom fod 60% wedi methu â chydymffurfio â'r safonau newydd. Roeddem yn bryderus iawn am y diffyg cydymffurfio hwn. Felly fe wnaethom weithredu ar unwaith i sicrhau bod y cwmnïau yn datrys hyn.

Helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau buddsoddi mwy gwybodus a dod yn fuddsoddwyr craffach

Mae ein hymgyrch InvestSmart wedi helpu buddsoddwyr llai profiadol i wneud penderfyniadau mwy gwybodus sy'n fwy addas ar gyfer eu hawydd am risg. Mae canfyddiadau o'n harolwg olrhain diweddaraf yn dangos, ers lansio'r ymgyrch, bod defnyddwyr 24% yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn ofalus trwy wneud ymchwil i leihau'r siawns y byddant yn colli arian mewn buddsoddiadau risg uchel (i fyny o 42% i 52%). Maent hefyd 24% yn fwy tebygol o geisio dysgu am fuddsoddi o ffynonellau gwybodaeth ag enw da (o 62% i 77%). Mae un o'r ffynonellau hyn 15% yn fwy tebygol o fod yn wefan yr FCA (o 75% i 86%).

Adnabod hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon

Rydym wedi cynyddu ein gallu deallusrwydd a dadansoddeg i adnabod ac olrhain hyrwyddiadau ariannol a allai fod yn dwyllodrus ar draws cyfryngau cymdeithasol yn gyflymach ac mewn symiau mwy. Mae hyn yn ein helpu i weithredu pan welwn hyrwyddiadau ariannol anghyfreithlon gan endidau anawdurdodedig.

Lleihau hyrwyddiadau ariannol nad ydynt yn cydymffurfio gan gwmnïau awdurdodedig

Rydym wedi cynyddu adnoddau ar gyfer ein gwaith ar hyrwyddiadau nad ydynt yn cydymffurfio gan gwmnïau awdurdodedig. Yn 2022/23, gwnaethom neilltuo mwy o adnoddau i fynd ati i chwilio am hyrwyddiadau nad ydynt yn cydymffurfio. Mae hyn wedi helpu i leihau'r niwed a achosir gan gwmnïau awdurdodedig yn cam-werthu buddsoddiadau risg uchel.

Ymyrraeth gyflym

Rydym wedi ymyrryd yn gyflym yn erbyn cwmnïau awdurdodedig sy'n rhoi hyrwyddiadau ariannol nad ydynt yn cydymffurfio ac yn erbyn cwmnïau anawdurdodedig sy'n cynnal gweithgarwch a allai arwain at gam-werthu a cholled ariannol. Yn ystod 2022, rydym wedi defnyddio ein pŵer gwahardd hyrwyddiadau ariannol ddwywaith i ddweud wrth gwmnïau am dynnu hyrwyddiadau ariannol yn ôl.

Defnyddio dadansoddeg uwch i adnabod hyrwyddiadau ariannol amhriodol

Rydym yn defnyddio dadansoddeg uwch a ffynonellau data newydd i adnabod hysbysebion ariannol amhriodol. Yn dilyn ein hymyrraeth y llynedd, cawsom **8,582** o hyrwyddiadau wedi'u diwygio/tynnu'n ôl. Mae hyn yn gynydd o **1,498%**, o'i gymharu â 573 yn 2021. Yn 2021, y ffigur sylfaenol ar gyfer nifer y rhybuddion yn ymwneud â sgamiau posibl a busnes anawdurdodedig, oedd 1,410. Erbyn diwedd 2022, roedd y ffigwr yn **1,882** cynnydd o **34%**. Roedd hyn er gwaethaf i ni weld gostyngiad cyffredinol o 24% yng nghyfanswm yr adroddiadau a dderbyniwyd yn 2022 o'i gymharu â 2021. 2021.

Ein blaenoriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG)

Mae angen i ddefnyddwyr allu ymddiried mewn cynhyrchion sy'n gysylltiedig ag ESG ac mae angen safonau clir ar gwmnïau gwasanaethau ariannol fel y gallant ddarparu ar gyfer defnyddwyr. Er mwyn grymuso defnyddwyr a chwmnïau, rydym yn hyrwyddo tryloywder, dewis a gwerth teg mewn cynhyrchion cyllid cynaliadwy. Byddwn yn parhau i gefnogi [uchelgeisiau'r Llywodraeth ar gyfer darparu cyllid cynaliadwy](#). Rydym yn croesawu [Strategaeth Cyllid Gwyrdd 2023](#) eleni.

Sut rydym wedi datblygu yn erbyn ein canlyniadau

Ymddiriedaeth a diogelu defnyddwyr rhag marchnata camarweiniol a datgelu o amgylch cynhyrchion sy'n gysylltiedig ag ESG

Canfu ein FLS 2022 fod 76% o fuddsoddwyr manwerthu a oedd wedi buddsoddi mewn cynhyrchion sy'n gysylltiedig ag ESG o'r blaen yn cytuno eu bod yn ei chael hi'n anodd dweud pa gronfeydd sy'n dilyn egwyddorion buddsoddi cyfrifol. Mae 53% yn cytuno eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth i asesu pa mor gyfrifol oedd eu cronfa.

Rydym wedi bod yn gweithio ar fentrau rheoleiddio gyda'r bwriad o wella ymddiriedaeth a dewis defnyddwyr yn y cynhyrchion hyn. Byddwn yn monitro eu cynnydd gan ddefnyddio ein data FLS 2022 fel llinell sylfaen.


Datgeliadau hinsawdd a chynaliadwyedd o ansawdd uchel i gefnogi prisiau'r farchnad yn gywir, gan helpu defnyddwyr a chyfranogwyr y farchnad i ddewis buddsoddiadau cynaliadwy a gyrru gwerth teg

Rydym wedi bod wrthi'n llunio gwaith domestig a rhyngwladol ar ddatgeliadau cynaliadwyedd. Fel rhan o hyn, gyda'r [Cyngor Adrodd Ariannol](#) (FRC), rydym wedi adolygu [datgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd](#) gan gwmnïau masnachol ar y rhestr premiwm.

Canfuom fod dros 90% yn cynnwys datganiad yn eu Hadroddiad Ariannol Blyneddol yn nodi a oeddent wedi gwneud datgeliadau ariannol cysylltiedig â'r hinsawdd yn gyson gydag argymhellion [Tasglu Datgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd](#) (TCFD). Hyd cyfartalog y datgeliadau oedd 5 tudalen.



Mae angen i ddefnyddwyr allu ymddiried mewn cynhyrchion sy'n gysylltiedig ag ESG ac mae angen safonau clir ar gwmnïau gwasanaethau ariannol fel y gallant ddarparu ar gyfer defnyddwyr.



Stiwardiaeth buddsoddwr gweithredol sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar strategaethau cynaliadwyedd cwmnïau, gan gefnogi trosglwyddiad dan arweiniad y farchnad i ddyfodol mwy cynaliadwy

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r FRC, ac eraill, drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo stiwardiaeth mwy effeithiol.

Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethom hefyd lansio'r Grŵp Adrodd Pleidlais (VRG) i ddatblygu cynigion i wella adrodd ar bleidlais cyfranddalwyr gan reolwyr asedau. Bydd gwella adrodd am bleidlais yn golygu y gall perchnogion asedau ddal rheolwyr asedau i gyfrif yn well ar eu stiwardiaeth.

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Gwella tryloywder mewn cynhyrchion sy'n gysylltiedig ag ESG

Ym mis Hydref 2022, gwnaethom gyhoeddi ein hymgyngoriad ar Ofynion Datgelu Cynaliadwyedd (SDR) a labeli buddsoddi. Amlinellodd hyn ein pecyn arfaethedig o fesurau i sicrhau mwy o dryloywder, cysondeb ac ymddiriedaeth yn y farchnad ar gyfer cynhyrchion buddsoddi cynaliadwy. Rydym yn ystyried adborth yn ofalus ar yr ymgynghoriad ac yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad polisi yn Ch3 2023.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr rhyngwladol a'r Sefydliad Rhyngwladol Comisiynau Gwarantau (IOSCO), lle rydym yn Is-gadeirydd y Tasglu Cyllid Cynaliadwy. Rydym hefyd wedi bod yn parhau i hyrwyddo llinell sylfaen fyd-eang o safonau adrodd sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd o dan y

Bwrdd Safonau Cynaliadwyedd Rhyngwladol (ISSB). Bydd hyn yn sicrhau y gall cwmnïau ddarparu gwybodaeth sydd ei hangen ar farchnadoedd a buddsoddwyr yn y DU mewn ffordd sy'n gyson ac yn debyg i safonau rhyngwladol.

Gwnaethom hefyd ddarparu adborth ar integreiddio ESG ym marchnadoedd cyfalaf y DU. Fis Tachwedd diwethaf, fe wnaethom sefydlu grŵp diwydiant i ddatblygu Cod Ymddygiad gwirfoddol i gefnogi mwy o dryloywder ac ymddiriedaeth yn y farchnad ar gyfer gwasanaethau data a graddfeydd ESG. Yn ddiweddar, ymgynghorodd y Llywodraeth ar y posibilrwydd o reoleiddio darparwyr graddfeydd ESG.

Ymgorffori ystyriaethau ESG ar draws yr holl swyddogaethau rheoleiddio


Rydym wedi gweithio i ymgorffori ystyriaethau ESG ym mhob agwedd ar ein gweithgarwch rheoleiddio. Rydym wedi gwneud hyn fel y gallwn ymyrryd yn gyflym lle nad yw arferion yn bodloni ein disgwyliadau ac yn cymryd camau priodol.

Gwnaethom brofi dull mewn Awdurdodiadau a oedd yn rhoi asesiad ESG penodol ychwanegol i gwmnïau newydd mewn sectorau allweddol a oedd am gynnig cyngor, cynhyrchion neu wasanaethau sy'n gysylltiedig ag ESG, fel rhan sylweddol o'u model busnes. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i sefydlu ESG yn ystyried sut rydym yn goruchwyllo cwmnïau. Mae hyn yn cynnwys ffactora ESG yn ein gwerthusiadau cadarn a mynd i'r afael ag unrhyw faterion penodol i gwmnïau sydd wedi digwydd. Rydym hefyd yn asesu'r portffolios lle mae ESG yn arbennig o bwysig o ran risgiau niwed ac yn integreiddio'r ystyriaethau hyn yn ein strategaethau goruchwyllo.

Ar draws ein holl ffrydiau gwaith, mae ein Pwyllgor Cynghori ESG i'r Bwrdd sydd newydd ei ffurfio yn cefnogi ein dull o weithredu fel rheoleiddiwr ac fel sefydliad. Lle y gallwn, rydym yn gwneud yr hyn yr ydym ei ddweud ar faterion ESG.



Ym mis Hydref 2022, gwnaethom gyhoeddi ein hymgyngoriad ar Ofynion Datgelu Cynaliadwyedd (SDR) a labeli buddsoddi.



Sbarduno gwelliannau mewn DEI, stiwardiaeth a llywodraethu

Ochr yn ochr â'r VRG, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r FRC i ystyried sut y gellir defnyddio hawliau cyfranddalwyr yn fwy effeithiol ar faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Ym mis Ebrill 2022, gwnaethom gyhoeddi [datganiad polisi](#) ar DEI ar fyrddau cwmnïau ac mewn rheolaeth weithredol. Roedd hyn yn cyflwyno gofynion i gwmnïau rhestredig ddatgelu cynrychiolaeth menywod a grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar sail cydymffurfio neu egluro yn erbyn targedau.

Rydym hefyd eisiau deall yn well sut y gallwn fireinio rheolau a chanllawiau presennol i gefnogi'r diwydiant wrth addasu i'r byd sy'n newid. Ym mis Chwefror eleni, fe wnaethom gyhoeddi [papur trafod](#) ar gyllid ar gyfer newid cadarnhaol.

Lleihau effaith tarfu gweithredol

Gall tarfu gweithredol atal defnyddwyr rhag cael mynediad at wasanaethau ariannol hanfodol, tarfu ar farchnadoedd a bygwth hyder yn y sector. Rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y gwasanaethau busnes pwysig y mae cwmnïau'n eu darparu yn gallu gwrthsefyll tarfu gweithredol.


Canlyniadau yr ydym am eu cyflawni

Mae gwasanaethau busnes pwysig a ddarperir gan gwmnïau yn gallu gwrthsefyll tarfu gweithredol

Er gwaethaf y bygythiadau sylweddol a chynyddol sy'n wynebu'r sector, rydym wedi gweld cwmnïau'n adrodd am nifer debyg ond ychydig yn is o darfu gweithredol i ni yn 2022 (785) ag yn 2021 (793).

Mae 88% o gwmnïau wedi dweud wrthym eu bod yn ymwybodol o'n gwaith yn y maes hwn. Dywed 57% o gwmnïau fod gwytnwch gweithredol wedi dod yn fwy o flaenoriaeth i'w cwmni dros y 12 mis diwethaf. Mae'r rhain yn gwestiynau newydd yr ydym wedi'u cynnwys yn [Arolwg yr FCA a'r Panel Ymarferwyr 2022/23](#). Byddwn yn defnyddio hyn fel llinell sylfaen i fonitro cynnydd.

Ochr yn ochr â'r VRG, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r FRC i ystyried sut y gellir defnyddio hawliau cyfranddalwyr yn fwy effeithiol ar faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd.



Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Awdurdodiadau – polisi gwytnwch gweithredol

Rydym wedi sicrhau bod pob cwmni perthnasol sy'n dod i mewn i'n rheoliad yn cydymffurfio'n llawn â'n gofynion polisi. Mae hyn yn golygu bod y cwmnïau sydd newydd eu hawdurdodi ar y trywydd iawn i fodloni ein disgwyliadau o allu darparu eu gwasanaethau busnes pwysig yn wydn erbyn 31 Mawrth 2025.

Banc Lloegr a PRA – Trafodaeth ar Drydydd Partion Critigol

Cyhoeddodd y Banc, PRA a'r FCA bapur trafod ar y cyd ym mis Gorffennaf 2022. Nod y DP oedd llywio cynigion rheoleiddiol y dyfodol sy'n ymwneud â Trydydd Partion Critigol (yn enwedig ar feysydd technegol cymhleth, fel profi gwytnwch) ac i ddarparu arweinyddiaeth meddwl gan y Banc, PRA a'r FCA i ddadleuon rheoleiddiol ariannol traws-sectoraidd a rhwyngwladol y DU ar CTPs. Yn amodol ar amserlenni Bil FSM, mae'r awdurdodau goruchwylio yn bwriadu ymgynghori ar gynigion sy'n ymwneud â goruchwylio Trydydd Partion Critigol yn H2 2023.

Asesiad goddefiannau effaith

Rydym wedi parhau i asesu pa mor dda y mae'r cwmnïau risg uchaf yn cydymffurfio â'n gofynion polisi Gwytnwch Gweithredol, gan gynnwys diffinio eu gwasanaethau busnes pwysig a goddefiannau effaith. Mae'r asesiadau hyn hefyd yn ystyried a fydd cwmnïau yn aros o fewn eu goddefiannau effaith a pha mor alluog fydd cwmnïau i aros o fewn eu goddefiannau effaith erbyn y dyddiad cau sef 31 Mawrth 2025.

Trawsnewid rhaglen casglu data – Digwyddiadau gweithredol

O dan y rhaglen trawsnewid casglu data, ochr yn ochr â'r Banc a'r PRA, rydym wedi edrych ar beth, pryd a sut y dylai cwmnïau fod yn adrodd am ddigwyddiadau gweithredol i ni. Byddwn yn dilyn y gwaith hwn gyda cham gweithredu. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb yn brydlon ac yn briodol i ddigwyddiadau gweithredol sy'n effeithio ar wasanaethau ariannol y DU.

Enghreifftiau eraill o'n gwaith yn gosod ac yn profi safonau uwch

Amrywiaeth a Chynhwysiad mewn Gwasanaethau Ariannol

Rydym am i Amrywiaeth a chynhwysiad fod yn ganolog i ddiwylliant ac arferion cwmni, felly rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu pecyn o fesurau arfaethedig ar gyfer cwmnïau. Mae'r rhain yn adeiladu ar ein papur trafod ym mis Gorffennaf 2021, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn y sector ariannol – gan gydweithio i ysgogi newid. Roedd hyn yn gofyn am adborth rhanddeiliaid ar ystod o gynigion sy'n archwilio sut y gellid gwella amrywiaeth a chynhwysiad yn y sector ariannol.



O dan y rhaglen trawsnewid casglu data, ochr yn ochr â'r Banc a'r PRA, rydym wedi edrych ar beth, pryd a sut y dylai cwmnïau fod yn adrodd am ddigwyddiadau gweithredol i ni.



Morgeisi gydol oes

Mae cyngor am fenthycu yn ddiweddarach mewn bywyd yn cael effaith sylweddol ac o bosibl gydol oes i ddefnyddwyr. Rydym ni'n dilyn ein canfyddiadau cynharach am gyngor gwael yn y farchnad morgeisi gydol oes. Rydym yn asesu ansawdd y cyngor y mae defnyddwyr yn ei gael gan sampl o gwmnïau. Byddwn yn ymyrryd i godi safonau. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â'n hadolygiad thematig o gyngor incwm ymddeol.

Cynlluniau angladd

Dechreuon ni reoleiddio cynlluniau angladd rhagdaledig ar 29 Gorffennaf 2022. Ar ôl proses asesu drwyadl, fe wnaethom awdurdodi 26 o ddarparwyr, gan gynnal tua 1.6 miliwn o gynlluniau angladdau. Cyflawnodd y rhan fwyaf o'r cwmnïau sy'n weddill drosglwyddiad trefnus o gwsmeriaid i gwmnïau awdurdodedig. Cyn i'n rheoliad o'r sector ddechrau, aeth pedwar cwmni i ansolfedd. Arweiniodd hyn at niwed i dros 45,000 o gwsmeriaid.

Buddsoddiadau defnyddwyr

Mae'r gwaith hwn ar osod a phrofi safonau uwch yn rhan o'n nod ehangach o alluogi i ddefnyddwyr helpu eu hunain. Yn ein diweddariad 1 blwyddyn ar y Strategaeth Buddsoddiadau Defnyddwyr, gwnaethom egluro'r gwaith yr ydym wedi'i gyflawni i alluogi i ddefnyddwyr fuddsoddi yn hyderus, deall y risgiau y maent yn eu cymryd a'r amddiffyniadau y gallant eu disgwyl.

Roeddem hefyd eisiau helpu defnyddwyr i ddeall y risgiau cyn iddynt fuddsoddi a lleihau nifer y rhai sy'n buddsoddi mewn buddsoddiadau risg uchel anaddas. Felly rydym wedi cyflwyno rheolau cryfach ar gyfer sut y gellir hyrwyddo buddsoddiadau risg uchel i ddefnyddwyr.

Rydym am godi safonau hyrwyddiadau ariannol i sicrhau nad yw defnyddwyr yn prynu cynhyrchion sy'n amhriodol oherwydd hyrwyddiadau camarweiniol. Felly, rydym wedi amlinellu ein cynlluniau ar gyfer Porth Awdurdodi newydd ar gyfer personau awdurdodedig sy'n cymeradwyo hyrwyddiadau ariannol ar gyfer personau anawdurdodedig.

Mae ein gwaith i wella adnoddau a gwytnwch cwmnïau yn parhau. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried y gofynion darbodus sy'n berthnasol i gynghorwyr buddsoddi nad ydynt yn MIFOID. Byddwn yn nodi ein syniadau yn y maes hwn yn ddiweddarach eleni.



Dechreuon ni reoleiddio cynlluniau angladd rhagdaledig ar 29 Gorffennaf 2022. Ar ôl proses asesu drwyadl, fe wnaethom awdurdodi 26 o ddarparwyr, gan gynnal tua 1.6 miliwn o gynlluniau angladdau.



Ffocws 3: Hyrwyddo cystadleuaeth a newid cadarnhaol

Rydym wedi gwneud 3 ymrwymiad i ddefnyddio cystadleuaeth a newid cadarnhaol fel grym ar gyfer canlyniadau gwell. Byddwn yn cefnogi twf ac arloesedd yn y DU drwy safonau uchel cydnabyddedig ac uchel eu parch. Mae'r adran hon yn esbonio'r camau yr ydym yn eu cymryd i gynnal ein safonau uchel i alluogi arloesedd a chystadleuaeth er budd defnyddwyr.

Paratoi gwasanaethau ariannol ar gyfer y dyfodol

Mae Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2023 yn cyflawni canlyniadau Adolygiad Fframwaith Rheoleiddio'r Dyfodol (FRF) y Llywodraeth ac yn gweithredu newidiadau pwysig i'r fframwaith statudol yr ydym yn gweithredu ynddo. Mae'r Ddeddf hefyd yn diddymu cyfraith yr UE a ddargedwir (REUL) mewn gwasanaethau ariannol, ac yn galluogi ei disodli, gyda rheolau wedi'u teilwra lle bo hynny'n briodol i weddu i farchnadoedd y DU yn well ac yn cyflwyno amcan eilaidd newydd i hwyluso cystadleurwydd rhyngwladol a thwf tymor canolig i dymor hir y DU.

Rydym hefyd yn gwneud newidiadau ar draws yr FCA i adlewyrchu mecanweithiau atebolrwydd a chraffu newydd.

Sut rydym wedi datblygu yn erbyn ein canlyniadau

Mae diwygiadau Adolygiad FRF yn cefnogi ein holl ganlyniadau rheng flaen ac yn creu hyder mewn marchnadoedd ariannol

Rydym yn parhau i fonitro lefel yr hyder yn ein rheoleiddio gan ddefnyddwyr a chwmnïau a reoleiddir, trwy'r Arolygon Financial Lives a'r FCA a'r Panel Ymarferydd. Arhosodd hyder defnyddwyr yn gyson yn 2022/23. Cytunodd 41% o ddefnyddwyr fod ganddynt hyder yn y diwydiant gwasanaethau ariannol (FLS 2022). Yn y cyfamser, gostyngodd canfyddiadau cwmnïau o'n heffeithiolrwydd ychydig yn yr [Arolwg FCA a'r Panel Ymarferydd diweddaraf 2022/23](#) o sgôr cymedrig o 7.1 yn 2021 i 6.9.

Er ein bod wedi gwneud gwaith sylweddol o dan yr ymrwymiad hwn, nid yw llawer o'n gwaith wedi dod i rym eto. Yn y tymor hwy, rydym yn disgwyl i'n gwaith gael effaith gadarnhaol ar y mesurau hyn.

Sicrhau trosglwyddiadau trefnus o ofynion sy'n wynebu'r cwmnïau o ddeddfwriaeth i'n Llawlyfr

Mewn partneriaeth â'r Trysorlys a rheoleiddwyr eraill, rydym wedi dechrau gweithio ar y broses i ddiddymu cyfraith yr UE REUL a disodli'r rhain, lle bo hynny'n briodol, â rheolau rheoleiddwyr. Mae'r ffocws wedi bod ar y REUL yn nghyfran gyntaf ac ail gyfran y Trysorlys fel y cyhoeddwyd yng nghyhoeddiad y Trysorlys [Adeiladu fframwaith gwasanaethau ariannol doethach ar gyfer y DU](#).



Mae Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2023 yn cyflawni canlyniadau Adolygiad Fframwaith Rheoleiddio'r Dyfodol (FRF) y Llywodraeth ac yn gweithredu newidiadau pwysig i'r fframwaith statudol yr ydym yn gweithredu ynddo



Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddiwygiadau posibl pwysig, megis ar Diogeiddio, diwygiadau Prosbectws a'r Rheoliad Cynhyrchion Buddsoddi Manwerthu ac Yswiriant wedi'i Becynnu (PRIIPs). Rydym yn parhau i asesu, monitro a darparu eglurder ar y biblinell reoleiddiol drwy'r Grid Mentrau Rheoleiddiol, sy'n cynnwys amseriadau ar gyfer rhywfaint o'r gwaith cychwynnol i ddisodli REUL gyda rheolau yn ein Llawlyfr.

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddwyd y chweched Grid Mentrau Rheoleiddiol, ochr yn ochr â'r rheoleiddwyr allweddol eraill ar gyfer gwasanaethau ariannol. Mae hyn yn rhoi golwg gliriach i randdeiliaid o ddatblygiadau rheoleiddio sydd ar ddod.

Hyrwyddo twf a chystadleurwydd y DU

Ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol hwn, rydym wedi cyhoeddi ein hymateb blynyddol i'n llythyr cylch gwaith gan y Llywodraeth. Rydym yn ymgorffori'r amcan twf a chystadleurwydd rhyngwladol eilaidd newydd yn ein prosesau. Byddwn yn adrodd y flwyddyn nesaf ar sut yr ydym wedi cyflawni'r amcan eilaidd newydd yn ei flwyddyn gyntaf, gan gynnwys yn erbyn metrigau, fel y gellir ein dal i gyfrif.

Gwella ein hatebolrwydd

Mae'n bwysig ein bod yn atebol am ein perfformiad gan gynnwys yn erbyn y gofynion deddfwriaethol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2023. Rydym wedi addasu'r ffordd rydym yn gweithio i adlewyrchu hyn.

Rydym wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu fframwaith adolygu rheolau. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio i baratoi ar gyfer y Panel Dadansoddi Budd Cost (CBA) newydd. Bydd y panel yn darparu cyngor a her gadarn i'n CBAs a'r fframwaith CBA.

Cryfhau sefyllfa'r Deyrnas Unedig mewn marchnadoedd cyfanwerthol byd-eang

Ochr yn ochr â phartneriaid mewn diwydiant, y Llywodraeth a chyrff eraill, rydym yn helpu i gryfhau safle blaenllaw'r DU fel canolfan ariannol fywiog fyd-eang trwy greu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddi, arloesi a thwfeconomaidd cynaliadwy. Bydd hyn yn cael ei gyflawni os yw'r DU yn parhau i fod yn un o'r marchnadoedd mwyaf blaenllaw o ddewis i gyhoeddwyr, cyfryngwyr a buddsoddwyr.

Rydym yn addasu ein rheolau i sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn lle deniadol i fuddsoddi tra'n cynnal safonau uchel o ddiogelu defnyddwyr ac uniondeb y farchnad. Felly, rydym wedi dechrau adolygiadau mawr o reoleiddio mewn marchnadoedd cyfanwerthu cynradd ac eilaidd.

Sut rydym wedi datblygu yn erbyn ein canlyniadau

Y fframwaith rheoleiddio:

- yn glir, yn cael ei ddeall yn dda ac mae holl gyfranogwyr y farchnad yn ymddiried ynddo
- yn cefnogi cyfranogwyr y farchnad i benderfynu ar werth teg

Rydym yn addasu ein rheolau i sicrhau bod y DU yn parhau i fod yn lle deniadol i fuddsoddi tra'n cynnal safonau uchel o ddiogelu defnyddwyr ac uniondeb y farchnad. Felly, rydym wedi dechrau adolygiadau mawr o reoleiddio mewn marchnadoedd cyfanwerthu cynradd ac eilaidd.

Lle nad yw canlyniadau'n cael eu cyflawni, mae hyn yn cael ei gyfathrebu'n glir, ac mae gwaith adfer yn cael ei wneud yn gyflym neu ei orfodi

Rydym wedi parhau i nodi ein disgwyliadau o gwmnïau sy'n defnyddio ystod o sianeli ac wedi cymryd camau goruchwyllo a gorfodi priodol lle nad yw cwmnïau'n eu cyflawni. Gweler Pennod 5, Cymryd camau pendant ar gam-drin y farchnad.

Rydym wedi mesur effeithiolrwydd canfyddedig ein rôl a byddwn yn defnyddio'r gwerthoedd sylfaenol hyn ar gyfer monitro ein heffaith yn y dyfodol. Yn ein [Harolwg FCA a'r Panel Ymarferydd 2022/23](#), cytunodd dros 60% o gwmnïau marchnadoedd cyfanwerthol ein bod yn effeithiol wrth reoleiddio a sicrhau uniondeb marchnadoedd cyfanwerthol.

Mae'r DU yn cael ei ystyried gan gyfranogwyr y farchnad fel un o'r marchnadoedd gorau o ddewis. Ystyrir bod arloesi yn cael ei annog a'i gefnogi ac ystyrir bod rheoleiddio'n esblygu'n briodol

Rydym yn helpu i gryfhau safle blaenllaw'r DU fel canolfan ariannol fyd-eang a bywiog, gwasanaeth llawn trwy greu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddi, arloesi a thwf cynaliadwy, wedi'u hategu gan safonau uchel ac uchel eu parch yn fyd-eang. Rydym yn cael ein cydnabod yn rhyngwladol fel rheoleiddiwr sydd o blaid arloesi, am ein cefnogaeth barhaus i gwmnïau arloesol. Trwy grwpiau rhyngwladol, gan gynnwys IOSCO a FSB, rydym yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth meddwl ar draws pynciau gan gynnwys crypto, ESG a sefydliadau ariannol nad ydyn yn rhai bancio.

Daeth y DU yn ail yn fyd-eang ar fynegeion y canolfannau ariannol gorau sy'n mesur maint gweithgarwch ariannol (mynegai Canolfannau Ariannol Byd-eang Newydd, Mehefin 21 a mynegai Canolfannau Ariannol Byd-eang Z/Yen, Mawrth 2023). Er yn erbyn cyd-destun deinameg marchnad ac economaidd heriol a tharfu sylweddol ar y farchnad yn yr Hydref, yn ein [Harolwg FCA a'r Panel Ymarferydd 2022/23](#), roedd traean o gwmnïau'n teimlo bod sefyllfa'r DU mewn marchnadoedd cyfanwerthol wedi gwanhau yn ystod 2022/23. Roedd traean yn teimlo ei fod wedi aros yr un peth a 7% yn teimlo ei fod wedi cryfhau.

Er gwaethaf yr amgylchedd heriol, roedd 32% o gwmnïau yn gyffredinol yn teimlo bod ein gweithredoedd wedi cael effaith gadarnhaol ar sefyllfa'r DU ac roedd 33% yn niwtral.

Mae cyfranogwyr y farchnad yn ystyried bod y fframwaith rheoleiddiol yn gymesur o ran cyflymder a chost

Rydym yn gwella ein perfformiad a'n prosesau ein hunain i sicrhau bod ein rheoleiddio yn gymesur o ran cyflymder a chost, i helpu marchnadoedd weithio'n well a gwella cystadleurwydd y DU. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i'n proses awdurdodi – gweler Penodau 4 a 5.



Rydym yn gwella ein perfformiad a'n prosesau ein hunain i sicrhau bod ein rheoleiddio yn gymesur o ran cyflymder a chost, i helpu marchnadoedd weithio'n well a gwella cystadleurwydd y DU.



Yn 2021, ystyriwyd bod gan y DU drefn reoleiddio a ffefrir yn y byd ar gyfer gwasanaethau ariannol (rhagolwg rheoleiddio Kroll 2021). Yn ein [Harolwg FCA a Phanel Ymarferydd 2022/2023](#), cytunodd tua hanner y cwmnïau marchnad cyfanwerthol fod ein rheoleiddio yn gymesur o ran buddion a chostau. Nid oedd chwarter y cwmnïau yn cytuno nac yn anghytuno a dim ond 6% oedd yn anghytuno.

Yr hyn rydym wedi'i wneud

Addasu ein rheolau

Mae gadael yr UE wedi rhoi'r rhyddid i ni deilwra ein rheolau sy'n gweddu'n well i farchnadoedd y DU, tra'n cynnal safonau uchel a chyson yn rhyngwladol. Yn FY2022/23, rydym wedi parhau i addasu ein rheolau fel bod y DU yn parhau i fod yn farchnad ddeniadol a dibynadwy. Rydym wedi gwneud hyn:

- Adolygiad Effeithiolrwydd Marchnadoedd Sylfaenol – nod yr adolygiad hwn yw ei gwneud hi'n haws i gwmnïau restru yn y DU tra'n cadw safonau allweddol sy'n cefnogi hyder a gonestrwydd y farchnad. Yn FY2022/23, gwnaethom gwblhau [trafodaeth ehangach](#) gyda chyfranogwyr y farchnad ar ba fath o drefn restru fyddai'n gwasanaethu marchnad y DU orau yn y dyfodol. Ar ôl ein dadansoddiad o ymatebion, cyhoeddwyd papur ymgynghori ar 3 Mai 2022.
- Adolygiad Marchnadoedd Cyfanwerthu – gan weithio'n agos gyda'r Llywodraeth, rydym wedi ymgynghori ar ddiwygiadau i farchnadoedd eilaidd y DU. Fe wnaethom hefyd [ymgynghori ar ganllawiau newydd ar y perimedr lleoliad masnachu](#).
- Cyfundrefn cronfeydd tramor – rydym yn parhau i weithio ar y cyd â'r Trysorlys i ddatblygu polisi ar drefn cronfeydd tramor. Bydd hyn yn galluogi i gronfeydd buddsoddi o awdurdodaeth dramor gael ei werthu i fuddsoddwyr manwerthu'r DU.
- Adolygiad o'r drefn rheoli asedau – lansiwyd adolygiad o'r [drefn rheoli asedau ac ariannu](#) gyfredol i sefydlu pa bynciau i'w blaenoriaethu.

LIBOR

Eleni, parhaodd yr FCA i chwarae rôl arweinyddiaeth fyd-eang trwy'r FSB a'r IOSCO yng nghamau olaf y trosglwyddiad trefnus i ffwrdd o LIBOR i gyfraddau cyfeirio amgen, cadarn. Parhaodd ein Prif Swyddog Gweithredol Nikhil Rathi i gyd-gadeirio Grŵp Llywio Sector Swyddogol (OSSG) yr FSB i hwyluso cyfnewid gwybodaeth ac arferion gorau ar ddiwygio meincnodau. Fe wnaethom hefyd gadeirio Tasglu Lefel Bwrdd IOSCO ar Feincnodau'r Farchnad Ariannol i godi ymwybyddiaeth o drosglwyddiad LIBOR ymhlith ystod ehangach o awdurdodaethau.

Yn benodol, eleni rydym yn sicrhau rhoi'r gorau i'r 3 gosodiadau LIBOR yen synthetig ar ddiwedd 2022 a'r gosodiadau LIBOR sterling synthetig 1 a 6 mis ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein penderfyniad i fynnu cyhoeddi 3 gosodiad LIBOR doler yr Unol Daleithiau synthetig am gyfnod dros dro i gefnogi dirwyn i ben yn drefnus. Yn ogystal, gwnaethom gyd-arwain adolygiad IOSCO un-amser o rai 'cyfraddau credyd sensitif' a grëwyd yn ddiweddar a chyfraddau tymor SOFR sy'n cyflwyno eu hunain fel eu bod yn cydymffurfio ag Egwyddorion IOSCO ar gyfer Meincnodau Ariannol i sicrhau trosglwyddiad trefnus, cynaliadwy i ffwrdd o LIBOR.

Mae'r cerrig milltir a gyflawnwyd eleni yn benllanw ymgysylltiad sylweddol a pharhaus gan reoleiddwyr gyda chyfranogwyr y farchnad yn y cartref ac yn fyd-eang. Maent yn dyst i'r ymdrechion trosglwyddo sylweddol a wneir gan y diwydiant yn fyd-eang mewn ymateb i'r ymgysylltiad rheoleiddiol hwnnw.

Trwy grwpiau rhyngwladol, gan gynnwys yr IOSCO a'r FSB, rydym yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth meddwl ar draws pynciau gan gynnwys crypto, ESG a sefydliadau ariannol nad ydynt yn fancio.

Cefnogi arloesedd

Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau Adolygiad Data Masnach. Mae hyn yn edrych ar bryderon ynghylch gallu cwmnïau i gyrchu a defnyddio data masnach. Canfuom, er y gall defnyddwyr data masnach gyrchu'r data sydd ei angen arnynt yn gyffredinol, mae yna feysydd lle nad yw cystadleuaeth yn gweithio cystal ag y gallai. Yn dilyn yr adroddiad hwn, byddwn yn blaenoriaethu gwaith i ddatblygu tapiau cyfunol. Bydd hyn yn casglu data masnach cyfanwerthu ar draws y farchnad ar gyfer dosbarth asedau penodol ac yn ei ledaenu mewn un ffrwd.

Trwy grwpiau rhyngwladol, gan gynnwys yr IOSCO a'r FSB, rydym yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth meddwl ar draws pynciau gan gynnwys crypto, ESG a sefydliadau ariannol nad ydynt yn fancio. Rydym yn arwain datblygiad argymhellion IOSCO ar gyfer rheoleiddio cryptoasedau. Roedd yr argymhellion hyn yn canolbwyntio ar faterion amddiffyn cyfanrwydd marchnad a gwarchod buddsoddwyr ym mis Mai 2023 ar gyfer ymgynghori â'r bwriad o gael eu cwblhau erbyn diwedd 2023.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Llywodraeth a Banc Lloegr ar gynigion HMT ar gyfer rheoleiddio cryptoasedau ymhellach ac yn bwriadu datblygu Blwch Tywod Seilwaith y Farchnad Ariannol.

Gwella ein perfformiad a'n prosesau ein hunain

Rydym wedi dechrau gweithio i wella ein gallu data – mae hyn yn cynnwys gwella ein gallu i fonitro'r farchnad. Mae hyn er mwyn i'r FCA gynyddu ymatebolrwydd i ddigwyddiadau'r farchnad a defnyddio gwaith cynnar i adeiladu'r sylfeini sydd eu hangen i ddarparu mwy o ddata sy'n ddefnyddiol i fuddsoddwyr i'r farchnad.

Blwch Tywod Rheoleiddio a Llwybrau Arloesi

Rydym wedi gweld llawer o ymgeiswyr newydd llwyddiannus gyda Llwybrau Arloesi, gyda chefnogaeth ein harweiniad rheoleiddiol wedi'i deilwra. Rydym wedi cefnogi dros 700 o gwmnïau ers ei sefydlu.

Nid yw ein gwasanaethau arloesi yn ymwneud â thwf yn unig. Rydym hefyd yn gweithio i helpu defnyddwyr sydd â chynnydd mewn costau byw. Mae modelau busnes a gefnogir gan ein gwasanaethau yn cynnwys cynllun benthyciad dim llog ar gyfer cwsmeriaid mewn amgylchiadau bregus.

Mae'r Blwch Tywod Rheoleiddio yn rhoi mynediad i gwmnïau at arbenigedd rheoleiddio a set o offer i'w galluogi i brofi cynhyrchion a gwasanaethau. Gwnaethom gefnogi dros **870 o gwmnïau trwy'r Blwch Tywod Rheoleiddiol a Llwybrau Arloesi** hyd yma.

Llunio marchnadoedd digidol i gyflawni canlyniadau da

Mae digideiddio gwasanaethau ariannol yn newid y ffordd y mae defnyddwyr yn gwneud penderfyniadau a marchnadoedd yn gweithredu. Er mwyn bod yn rheoleiddiwr effeithiol, mae'n rhaid i'r ddau ohonom ymateb i heriau heddiw a pharatoi ar gyfer rhai yfory. Mae angen i ni ddeall yn well y risgiau a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg fel y manteision enfawr o fwy o gystadleuaeth ac arloesedd yn cael eu gwireddu ac mae'r niwed i ddefnyddwyr yn cael ei liniaru.

Sut rydym wedi datblygu yn erbyn ein canlyniadau

Mae datblygiadau marchnadoedd digidol a'r defnydd o dechnolegau newydd mewn cynhyrchion a gwasanaethau ariannol yn arwain at werth teg i ddefnyddwyr

Cyhoeddom [bapur trafod](#) ar AI i helpu i asesu buddion a risgiau AI i ddefnyddwyr a sut y gallwn gefnogi mabwysiadu yn ddiogel a chyfrifol orau. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi papur trafod ar oblygiadau mynediad Big Tech i lywio dull yr FCA o ymdrin â'r cwmnïau hyn.

Mae taith defnyddwyr ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau ariannol digidol yn galluogi i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau er eu budd gorau

Arweiniodd ein hymchwiliad i deithiau defnyddwyr digidol niweidiol at gamau goruchwyllo yn erbyn sawl cwmni, gyda'r pwysigrwydd o sicrhau bod arferion slwtsh yn cael eu hadnabod a'u datrys yn y llythyr portffolio at oddeutu 700 o gwmnïau sy'n darparu cynhyrchion benthyca cost uchel. Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd ein gweithredoedd wrth leihau slwtsh a nodweddion dylunio niweidiol eraill yn y dyfodol.

Yr hyn yr ydym wedi ei wneud

Y drefn newydd o blaid bod yn gystadleuol ar gyfer marchnadoedd digidol


Gwnaethom barhau i ddarparu cefnogaeth i randdeiliaid wrth i'r Llywodraeth baratoi deddfwriaeth ar gyfer y drefn newydd o blaid bod yn gystadleuol, a gyflwynwyd i'r Senedd ar 25 Ebrill 2023. Rydym hefyd yn ymgysylltu â'r Uned Marchnadoedd Digidol yn y CMA.

Mynediad ac ehangu Big Tech mewn gwasanaethau ariannol manwerthu

Ym mis Hydref 2022, gwnaethom gyhoeddi [bapur trafod](#) yn gofyn am farn ar oblygiadau posibl cystadleuaeth cwmnïau Big Tech sy'n mynd i mewn i ystod o sectorau gwasanaethau ariannol manwerthu. Cynhaliwyd [gweminar panel arbenigol](#) ym mis Tachwedd 2022, ac yna gweithdai sector-benodol ym mis Rhagfyr 2022 gyda dros 300 o fynychwyr ar draws y ddau ddigwyddiad.



Ym mis Hydref 2022, gwnaethom gyhoeddi papur trafod yn gofyn am farn ar oblygiadau posibl cystadleuaeth cwmnïau Big Tech sy'n mynd i mewn i ystod o sectorau gwasanaethau ariannol manwerthu.



Ymchwilio i deithiau defnyddwyr digidol niweidiol

Gwnaethom ymchwilio i effaith gamification a nodweddion dylunio eraill mewn apiau masnachu buddsoddi ar ddefnyddwyr. Roedd ein canfyddiadau'n cynnwys pryderon y gallent annog buddsoddwyr i gymryd risgiau anaddas wrth fuddsoddi. Rydym wedi adnabod slwtsh a phatrymau tywyll yn y [farchnad gwybodaeth credyd](#). Rydym yn ystyried mesurau i helpu defnyddwyr i gyrchu a dadlau gwybodaeth credyd.

Ein gwaith gyda'r Fforwm Cydweithrediad Rheoleiddio Digidol (DRCF)

Mae'r DRCF yn dwyn ynghyd y CMA, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), Y Swyddfa Gyfathrebu (Ofcom) a'r FCA i gydweithredu a chydlynu gwaith ar reoleiddio mewn gwasanaethau digidol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r DRCF wedi cyflawni ei [gynllun gwaith 2022/23](#) ar draws amcanion triphlyg DRCF - cydlyniant, cydweithio a galluoedd - yn erbyn ystod o weithgareddau cyhoeddedig. Ymunodd yr FCA â DRCF fel aelod llawn ym mis Ebrill 2021 ac mae wedi chwarae rhan weithredol.

Papur trafod ar AI

Ynghyd â Banc Lloegr, gwnaethom gyhoeddi [papur trafod](#) ar oblygiadau AI ar gyfer rheoleiddio a pholisi, gyda chefnogaeth [arolwg dysgu peirianyddol](#) sy'n olrhain y nifer sy'n defnyddio AI ym marchnadoedd ariannol y DU dros amser.

Bancio agored a chyllid agored

Yn dilyn creu'r Cydbwyllgor Goruchwylio Rheoleiddio (JROC) ym mis Mawrth 2022, rydym wedi gweithio'n gyflym gyda'r PSR, y CMA a'r Trysorlys (aelodau eraill JROC). Mae'r JROC yn chwarae rhan flaenllaw wrth gymryd y camau nesaf i wireddu potensial llawn bancio agored.

Sefydlodd y JROC weithgor strategol (SWG) i randdeiliaid rannu eu barn ar fancio agored a'r camau nesaf a oedd eu hangen a arweiniodd at gyhoeddi adroddiad SWG.



Gwnaethom ymchwilio i effaith gamification a nodweddion dylunio eraill mewn apiau masnachu buddsoddi ar ddefnyddwyr. Roedd ein canfyddiadau'n cynnwys pryderon y gallent annog buddsoddwyr i gymryd risgiau anaddas wrth fuddsoddi.



Enghreifftiau eraill o'n gwaith yn hyrwyddo cystadleuaeth a newid cadarnhaol

Canolbwyntio ar reoli asedau:

- Ysgrifennom at gwmnïau rheoli asedau yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y sector.
- Mae'r blaenoriaethau a nodir yn ein llythyr portffolio yn adeiladu ar y gwaith presennol a wneir ar werth ac ESG.
- O ystyried y cynnwrf yn dilyn cyllideb yr hydref, roedd ffocws byd-eang sylweddol ar reoli hylifedd mewn sefydliadau ariannol nad oeddent yn fancio.
- Buom yn gweithio gyda chwmnïau a chymheiriaid gan gynnwys rheoleiddwyr tramor a Banc Lloegr i gynyddu gwytnwch strwythurau cronfeydd.
- Cyhoeddom bapur trafod ar ddiweddarau a gwella trefn y DU ar gyfer rheoli asedau.

Cryptoasedau

Rydym wedi cefnogi 10 cwmni yn 2022 sy'n cynnig defnyddio Technoleg Ledger Ddosbarthedig drwy ein Blwch Tywod a llwybrau arloesi. Rydym hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth i ddefnyddwyr am hanfodion cryptoasedau fel rhan o'n hymgyrch InvestSmart, gan dynnu sylw at risgiau sgamiau sy'n gysylltiedig â'r sector hwn. Hefyd:

- Gwnaethom gynnal ein CryptoSprint cyntaf yn 2022. Daeth hyn â bron i 200 o gyfranogwyr o gwmnïau crypto, cyllid traddodiadol, cyfreithwyr, academyddion ac ymgynghorwyr ynghyd i weithio gyda'i gilydd ar atebion posibl wrth i ni ddatblygu polisi rheoleiddio.
- Buom yn gweithio gyda'r Trysorlys, Banc Lloegr a'r PSR trwy'r Tasglu Cryptoasedau ar fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol ar gyfer crypto-asedau, gan gynnwys stablecoins. Mae'r gwaith hwn wedi llywio ymgynghoriad y Trysorlys ar gyfer rheoleiddio'r sector yn ehangach.
- Cyhoeddassom arfer da a gwael ar AML ac ariannu gwrthderfysgaeth (CFT) ar gyfer cwmnïau crypto sy'n ceisio cofrestru gyda ni.
- Ar hyn o bryd nid oes unrhyw beiriannau ATM crypto wedi'u cofrestru gyda ni ar gyfer AML a CFT. Rydym wedi cymryd camau gorfodi ochr yn ochr â heddluoedd ledled y DU ar beiriannau ATM crypto anghyfreithlon.
- Rydym wedi cyhoeddi ein rheolau ar gyfer hyrwyddiadau ariannol cryptoasedau cymwys a phapur ymgynghori cysylltiedig ar ganllawiau ar gyfer sut rydym yn mynd ati, a sut mae cwmnïau'n cydymffurfio â nhw, ein prif ofyniad bod yn rhaid i hyrwyddiadau ariannol cryptoasedau fod yn deg, yn glir ac nid yn gamarweiniol.

Gwaith rhyngwladol ar cryptoasedau

Mae'r FCA yn cadeirio llif Gwaith Asedau Crypto a Digidol Gweithgor Fintech IOSCO. Yma rydym wedi bod yn arwain gwaith i ddatblygu argymhellion ar gyfer mynd i'r afael ag uniondeb y farchnad a risgiau diogelu defnyddwyr sy'n deillio o cryptoasedau. Mae'r FCA hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn gwaith i ddatblygu safonau rhyngwladol ar gyfer cryptoasedau, gan gynnwys y Bwrdd Sefydlogrwydd Ariannol.

Pennod 6

Ein Datganiad Adran 172

Mae'r adran ganlynol yn disgrifio sut mae'r Bwrdd wedi rhoi sylw i'r materion a nodir yn Adran 172(1)(a) i (f) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae adran 172(1) yn datgan y dylid rhoi sylw i'r canlynol:

- canlyniadau hirdymor penderfyniadau
- buddiannau gweithwyr y cwmni
- angen meithrin perthynas fusnes y cwmni
- gyda chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill
- effaith gweithrediadau'r cwmni ar y gymuned a'r amgylchedd dymunoldeb y cwmni gan gynnal enw da am safonau uchel o ymddygiad busnes

Ein rhanddeiliaid

Mae ein rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys:

- cyflogeion
- defnyddwyr a sefydliadau defnyddwyr
- cwmnïau ac unigolion a reoleiddir
- arweinwyr cymunedol (gan gynnwys Seneddswyr)
- rheoleiddwyr a phartneriaid rheoleiddio eraill
- cyflenwyr
- cymuned a'r amgylchedd

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid yn allweddol i gyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006 a chyflawni amcanion statudol yr FCA i sicrhau ein bod yn:

- amddiffyn defnyddwyr
- amddiffyn uniondeb marchnadoedd ariannol
- hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr

Am y rheswm hwn, mae'r Bwrdd yn cydnabod yr ystod eang o rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn ein gwaith neu y mae ein gwaith yn effeithio arnynt. Trwy ddeall barn pob grŵp rhanddeiliaid a'r materion sy'n bwysig iddynt, gallwn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Rydym yn ymgymryd â rhaglen weithredol o ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau'n briodol.

Trwy sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gynhwysfawr o'n grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gall y Bwrdd ystyried anghenion a phryderon ein rhanddeiliaid yn ei drafodaethau a'i benderfyniadau. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw barn ein rhanddeiliaid bob amser yn cyd-fynd. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r Bwrdd benderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol i sicrhau ein bod yn cyflawni er budd y cyhoedd.

Drwy reoleiddio'r sector gwasanaethau ariannol, mae'r FCA yn chwarae rhan hanfodol ym mywydau pawb yn y DU. Mae hyn yn golygu bod ein rhanddeiliaid yn gynyddol yn disgwyl i ni gyflawni ein hamcanion statudol mewn byd ansicr, sy'n newid yn gyflym - ac i wneud hynny hyd yn oed yn gyflymach. Mae'r disgwyliad hwn wedi cynyddu yn dilyn:

- Pandemig Covid-19
- cynnydd mewn costau byw
- ehangu cylch gwaith yr FCA yn barhaus

a heriau geowleidyddol parhaus.

Ein dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae ein Bwrdd wedi ymrwymo i gyflawni a chynnal safonau uchel o ymddygiad busnes. Mae ein datganiad Llywodraethu Corfforaethol ym Mhennod 8 yn rhoi mwy o fanylion am hyn.

Mae'r gweithgareddau allweddol i ymgysylltu â rhanddeiliaid y mae'r Bwrdd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r arolwg gweithwyr ac ymgysylltu â chynrychiolwyr y Pwyllgor Ymgynghorol Staff
- rhoi cyfle i rhanddeiliaid holi'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn y Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol
- adolygu canlyniadau'r Arolwg Rhanddeiliaid blynyddol ac Arolwg ar y cyd y Panel Ymarferydd/ FCA o gwmnïau
- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am fentrau cyfrifoldeb corfforaethol a chynaliadwyedd
- ymgysylltu â'r Comisiynydd Cwynion i gefnogi gweithrediad effeithiol ein Cynllun Cwynion

Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio'r rhain a'r ystod ehangach o weithgareddau ymgysylltu y mae'r Bwrdd wedi'u cynnal gyda'n rhanddeiliaid yn ystod y flwyddyn. Maent hefyd yn disgrifio sut mae'r rhain wedi ein helpu i sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau ariannol.

Ein Pobl

Ein gweithwyr yw'r allwedd i'n llwyddiant fel rheoleiddiwr. Rydym yn denu ac yn cadw cydweithwyr o ystod eang o gefndiroedd a setiau sgiliau. Ein nod yw hyrwyddo diwylliant cynhwysol sy'n ein galluogi i ddod â'r sgiliau a'r safbwyntiau amrywiol hynny at ei gilydd mewn ffordd sy'n sicrhau bod gennym y gallu i:

- ddatblygu mewnwelediadau
- gweithredu'n bendant

a gwella'n barhaus sut rydym yn gweithredu ac yn ymateb mewn ffordd ystyth a phendant i:

- faterion
- bygythiadau
- heriau newydd.

Er mwyn cefnogi ein gwerth i 'weithio'n gynhwysol', rydym yn ceisio meithrin amgylchedd gweithle amrywiol a chynhwysol. Rydym yn anelu at:

- fod yn rhydd rhag gwahaniaethu a rhagfarn
- dathlu gwahaniaeth
- cefnogi cydweithwyr i fod yn nhw eu hunain yn y gwaith

Mae ein Bwrdd yn credu bod hyn yn grymuso ein pobl i gyflawni eu potensial. Mae hefyd yn arwain at well barn a gwneud penderfyniadau er budd y cyhoedd.

Wedi'i lansio yn 2022, mae ein strategaeth Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiad (D&I) newydd yn nodi ein dull gweithredu tuag at greu amgylchedd gwaith lle gall pob cydweithiwr fod yn nhw eu hunain yn y gwaith. Mae hyn er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial a chyfrannu'n ystyrlon at ganlyniadau'r FCA.

Mae bob un o'n huwch arweinwyr wedi ymrwymo i gefnogi D&I yn eu hamcanion perfformiad. Rydym yn parhau i ddal ein hunain yn atebol yn gyhoeddus trwy gyhoeddi data amrywiaeth y gweithlu yn erbyn targedau. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i dryloywder ynghylch data amrywiaeth a chynhwysiant y tu hwnt i'n rhwymedigaethau statudol.

Rydym yn cydnabod anghenion niferus ein gweithle amrywiol ac rydym yn cefnogi creu a datblygu grwpiau rhwydwaith, clybiau cymdeithasol a chwaraeon. Rydym hefyd yn darparu grwpiau cymorth a Rhaglen Cymorth i Weithwyr i helpu ein gweithwyr trwy ystod eang o heriau.

Mae ein Bwrdd yn blaenoriaethu ei ymgysylltiad â'n gweithwyr i oruchwylio'u lles a'u pryderon. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ymgysylltodd y Bwrdd â'n gweithwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- cyflwyniadau a chyfraniadau i drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd
- ystod o gyfarfodydd cydweithiwr ac adrannau yn cynnwys aelodau'r Bwrdd
- mae ein Pwyllgor Pobl sydd newydd ei gyfansoddi yn goruchwylio ac yn rhoi sicrwydd ar draws ystod eang o faterion pobl ac ymgysylltu
- ymgysylltu'n rheolaidd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyda'r Pwyllgor Ymgynghorol Staff (SCC) i drafod materion sy'n bwysig i'n staff
- derbyniodd y Bwrdd adroddiadau drwy gydol y flwyddyn gan Gadeirydd y Pwyllgor Pobl a'r Prif Weithredwr ar waith 'llais cydweithwyr'
- cyfarfu ein Cadeirydd ag ystod eang o rwydweithiau a grwpiau gweithwyr i drafod materion a cheisio mewnbwn i waith presennol neu adborth ar faterion o fewn cylch gwaith y Bwrdd, pwyllgorau'r Bwrdd a phwyllgorau gweithredol
- cyfrannodd ein Bwrdd at neuaddau tref ac erthyglau ar gyfer ein mewnrwyd, i hysbysu ac ymgysylltu â'n gweithwyr wrth i faterion godi
- roedd y Bwrdd a'r Pwyllgor Pobl yn cael eu diweddarau'n rheolaidd gyda barn o bob rhan o'r sefydliad

Defnyddwyr a sefydliadau defnyddwyr

Wrth ddilyn ein hamcan statudol i ddiogelu defnyddwyr, mae ein Bwrdd yn cydnabod yr effaith y mae ein penderfyniadau'n ei chael ar fywydau beunyddiol pobl ac economi'r DU. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig ein bod yn ymgynghori'n weithredol â defnyddwyr a chyrrff defnyddwyr.

Trwy ein gwaith sy'n wynebu defnyddwyr, ein blaenoriaethau yw:

- galluogi i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau ariannol effeithiol
- sicrhau bod marchnadoedd credyd defnyddwyr yn gweithio'n dda
- gwneud taliadau'n ddiogel ac yn hygyrch
- sicrhau gwerth teg mewn oes ddigidol

Mae'r defnyddwyr rydyn ni'n bwriadu eu diogelu yn cynnwys:

- defnyddwyr manwerthu sy'n prynu cynhyrchion neu wasanaethau ariannol at eu defnydd eu hunain (fel morgeisi, benthyciadau personol, ISAs neu gyngor buddsoddi)
- buddsoddwyr manwerthu mewn offerynnau ariannol (fel cyfranddaliadau a bondiau)
- busnesau bach sy'n prynu cynhyrchion neu wasanaethau ariannol

Trwy ein Rhwydwaith Defnyddwyr, ein nod yw gwella ein perthynas a'n hymgysylltiad â sefydliadau defnyddwyr. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys 30 o wahanol sefydliadau defnyddwyr, gan gynnwys elusennau dyled (Money Advice Trust, StepChange), sefydliadau sy'n wynebu defnyddwyr (MoneySavingExpert, Which?) ac elusennau cysylltiedig (megis Cymdeithas Alzheimer, Scope, Shelter).

Rydym hefyd yn defnyddio arbenigwyr mewnwelediad yn flynyddol, BritainThinks, i ddarganfod beth mae rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau defnyddwyr, yn meddwl am yr FCA a'r gwaith rydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae canlyniadau'r Arolwg Rhanddeiliaid yn rhoi cipolwg ar sut rydym yn cael ein gweld yn allanol – beth mae rhanddeiliaid yn ei feddwl am ein gweithgareddau, ein cyfathrebiu a'n cyhoeddiadau, ac effaith unrhyw newidiadau.

Maent hefyd yn rhoi cyfle i edrych yn ôl ar sut mae canfyddiadau wedi newid dros y blynyddoedd ac ailedrych ar heriau penodol o flynyddoedd ymchwil blaenorol. Rydym yn cyhoeddi canfyddiadau'r ymchwil yn fewnol. Mae hyn yn helpu ein gweithwyr i ddeall sut mae ein rhanddeiliaid yn ein canfod ac yn eu helpu i gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae ein Cadeirydd ac aelodau ein tîm gweithredol hefyd yn cyfarfod yn uniongyrchol â defnyddwyr trwy ymweliadau rhanbarthol rheolaidd. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau bwrdd crwn a fforymau eraill gyda sefydliadau defnyddwyr.

Yn ogystal, ac yn unol â gofynion FSMA, mae gennym Banel Defnyddwyr. Mae hwn yn cynnwys aelodau annibynnol sydd â phrofiad o faterion defnyddwyr mewn gwasanaethau ariannol. Mae'n ofynnol i ni ymgynghori gyda'r Panel Defnyddwyr, a phaneli statudol eraill, ar effaith ein gwaith.

Mae anghenion defnyddwyr yn ganolog wrth i'r Bwrdd wneud penderfyniadau ac rydym yn eu hystyried trwy amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys:

- Adborth gan y Panel Defnyddwyr a ddarparwyd drwy ein hymgysylltiad Bwrdd mewn cyfarfodydd panel ac adroddiadau misol gan Gadeirydd y panel a gyflwynir i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd yn mynnu bod cynigion polisi yn cael eu trafod gyda'r Panel.
- Adolygiadau ac adborth i Bapurau Ymgynghori cyn cadarnhau rheolau newydd neu ddiwygiedig.
- Ymgysylltu agored â rhanddeiliaid gyda'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ar sut mae'r FCA wedi cyflawni yn erbyn ei amcanion strategol yn y Cyfarfod Cyhoeddus Blynyddol ar 12 Hydref 2022.
- Mae ein strategaeth buddsoddi defnyddwyr, a gyhoeddwyd yn 2021, yn nodi pecyn o fesurau sydd wedi'u cynllunio i leihau'r risg o niwed i fuddsoddiad defnyddwyr.

Er mwyn hyrwyddo ein nod o gael lefel briodol o ddiogelwch i ddefnyddwyr, lansiwyd cynllun iawndal ar gyfer cyn-aelodau Cynllun Pensiwn Dur Prydain (BSPS) a oedd wedi derbyn cyngor anaddas i drosglwyddo allan. Rydym yn disgwyl y bydd dros 1,000 o gwsmeriaid yn derbyn iawndal o ganlyniad.

Er i ni gadarnhau rheolau terfynol y cynllun, gwnaethom ddiweddarau ein rheolau ar gyfrifo taliadau iawndal ar gyfer cyngor trosglwyddo pensiwn buddion diffiniedig anaddas (DB). Bydd hyn yn sicrhau bod iawndal yn rhoi defnyddwyr yn ôl yn y sefyllfa ariannol y byddent wedi bod ynddi pe byddent wedi aros yn eu cynllun DB, cyn belled ag y bo modd.

Mae Pennod 5 yn cynnwys mwy o fanylion am ein gwaith sy'n wynebu defnyddwyr, gan gynnwys cynnydd yn erbyn ein strategaeth buddsoddi defnyddwyr.

Cwmnïau ac unigolion a reoleiddir

Mae ymddygiad a diwylliant y cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio - a'r unigolion sydd â rolau allweddol yn y cwmnïau hynny - yn llywio'r canlyniadau i ddefnyddwyr a marchnadoedd. Nod ein hymgysylltiad â chwmnïau yw adnabod niwed posibl, fel y gallwn ei leihau neu ei atal yn gynnar.

Lansiodd yr FCA a'r Panel Ymarferydd ei [arolwg ar y cyd](#) o gwmnïau a reoleiddir gan yr FCA ym mis Chwefror 2023. Mae'r Arolwg Panel Ymarferydd/ FCA ar y cyd yn ceisio barn ar draws y sector gwasanaethau ariannol o'n perfformiad fel rheoleiddiwr. Fel arfer mae'n digwydd bob blwyddyn.

Mae'r math hwn o adborth yn hanfodol i'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau. Mae hefyd yn un o sawl ffynhonnell adborth a ddefnyddiwn i werthuso ein perfformiad yn erbyn meysydd ffocws allweddol yn ein strategaeth 3 blynedd.

Bydd canlyniadau'r arolwg yn rhoi cipolwg ar berfformiad yr FCA dros y 2 flynedd ddiwethaf ac yn rhoi myfyrdodau ar y gwersi a ddysgwyd. Mae'r Bwrdd yn ystyried canlyniadau'r arolwg yn ofalus er mwyn deall yn well y materion sy'n effeithio ar bob cwmni ac i helpu i wella'r ffordd rydym yn gweithredu.

Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn diweddariadau rheolaidd am ein hymgylltiad â chwmnïau ac unigolion a reoleiddir. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau ymgynghori â rhanddeiliaid rheoledig ar gyfer newidiadau polisi a chanfyddiadau o weithgarwch goruchwyllo fel adolygiadau thematig.

Mae timau ar draws y sefydliad yn defnyddio ystod eang o ffynonellau i lywio penderfyniadau'r Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys data a gwybodaeth gan gwmnïau a'u cymdeithasau masnach, mewnwelediad a rennir gan sefydliadau rheoleiddio eraill, gwybodaeth gan ASau a chan chwythwyr chwiban. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth o ddigwyddiadau ac arolygon diwydiant i'n helpu i ddeall y materion y mae cwmnïau'n eu hwynebu.

Mae'r Bwrdd hefyd yn ymgysylltu â'r Panel Ymarferydd, y Panel Ymarferydd Busnes Llai, y Panel Ymarferydd Marchnadoedd a'r Panel Ymgynghori'r Awdurdod Rhestru i ddeall eu barn a barn y rhai y maent yn eu cynrychioli.

Credwn y bydd ein gwaith ar Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant (DEI) yn y sector gwasanaethau ariannol yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion.

Rydym yn cynnwys ffocws ar DEI yn ein goruchwyliaeth, gan gynnwys darn o waith aml-gwmni sy'n edrych ar ddulliau cwmnïau o ymdrin â DEI, a gyhoeddwyd yn 2022. Rydym yn bwriadu cyhoeddi Papur Ymgynghori yn ddiweddarach eleni.

Darllenwch fwy am ein gwaith Amrywiaeth a Chynhwysiant Rheoleiddio yn ein [Hadroddiad Amrywiaeth Blynyddol](#).

Arweinwyr cymunedol, gan gynnwys Seneddwyr

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, rydym yn ymgysylltu'n weithredol â Gweinidogion, ASau, Arglwyddi ac adrannau'r Llywodraeth. Rydym hefyd yn ymgysylltu ag aelodau o'r Seneddau a'r Cynulladau Datganoledig a'u cyrff gweithredol cysylltiedig. Mae ein gwaith hefyd yn cynnwys trafodaethau gyda chyrff a rhanddeiliaid gwleidyddol eraill.

Er enghraifft, mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn flynyddol gyda'r Comisiynydd Cwynion (y Comisiynydd) i gefnogi gweithrediad effeithiol ein Cynllun Cwynion. Mae'r Bwrdd hefyd yn ymateb i adroddiad blynyddol y Comisiynydd ac i unrhyw adroddiadau yn achos cwynion a gyfeirir.

Mae'r Trysorlys yn penodi ein Bwrdd sy'n rheoli ac yn herio ein tîm gweithredol. Mae hyn yn helpu i'n dwyn i gyfrif ac yn helpu i osod ein cyfeiriad fel sefydliad.

Mae'n rhaid i ni ystyried egwyddorion rheoleiddio da wrth gyflawni ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys yr angen am dryloywder. Ein nod yw rhoi ystyriaeth i'n penderfyniadau mor glir a thryloyw â phosibl. Mae ein staff uwch yn ymddangos yn rheolaidd o flaen pwyllgorau seneddol.

Er enghraifft, mae ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr yn rhoi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Dethol y Trysorlys fel rhan o'i waith craffu parhaus ar ein gwaith mewn gwrandawriad atebolrwydd cyffredinol. Rydym hefyd yn rhoi tystiolaeth yn rheolaidd i bwyllgorau eraill y Senedd, gan gynnwys Pwyllgorau Mesurau.

Mae'r rhestr isod yn rhoi manylion y sesiynau tystiolaeth y mae arweinwyr uwch wedi eu mynychu fel tystion yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf:

- 8 Mawrth 2023, Pwyllgor Dethol y Trysorlys, Gwaith yr FCA: Nikhil Rathi, Ashley Alder
- 22 Chwefror 2023, Is-bwyllgor Pwyllgor Dethol y Trysorlys ar Reoleiddio Gwasanaethau Ariannol, labeli a datgeliadau cynaliadwyedd: Sacha Sadan, Mark Manning
- 14 Rhagfyr 2022, Y Pwyllgor Gwaith a Phensiynau, Pensiynau Budd-dal Diffiniedig gyda Buddsoddiadau a Yrrir gan Atebolrwydd: Nikhil Rathi, Simon Walls
- 14 Rhagfyr 2022, Pwyllgor Dethol y Trysorlys, Ashley Alder gwrandawriad cyn cychwyn: Ashley Alder

- 7 December 2022: Treasury Select Committee, The crypto-asset industry: Sarah Pritchard, Matthew Rhagfyr 2022: Pwyllgor Dethol Trysorlys, Y diwydiant cryptoasedau: Sarah Pritchard, Matthew Long
- 15 Tachwedd 2022, Pwyllgor Diwydiant a Rheoleiddwyr (Arglwyddi), Defnyddio Buddsoddiadau a Yrrir gan Atebolrwydd (LDI) gan gronfeydd pensiwn: Nikhil Rath, Simon Walls
- 7 Tachwedd 2022, Pwyllgor Dethol y Trysorlys, Gwaith yr FCA: Nikhil Rath, Richard Lloyd
- 19 Hydref 2022, Pwyllgor y Bil Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol, Bil Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol: Sheldon Mills, Sarah Pritchard
- 8 Mehefin 2022, Pwyllgor Gwaith a Phensiynau, Diogelu cynilwyr pensiwn – bum mlynedd ers Rhyddid Pensiwn: Cynilo ar gyfer bywyd diweddarach: Sarah Pritchard
- 26 Mai 2022, Deddf Twyll 2006 a'r Pwyllgor Twyll Digidol, Twyll: Mark Steward
- 27 Ebrill 2022, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cynllun Pensiwn Dur Prydain: Nikhil Rath, Sheldon Mills

Yn ogystal â hyn, rydym yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r holl bwyllgorau sy'n gofyn amdano ac yn ymateb i'w hadroddiadau lle bo hynny'n berthnasol. Rydym hefyd yn mynychu cyfarfodydd polisi ynghylch deddfwriaeth nad ydynt yn Bwyllgorau Bil ffurfiol.

Fel rhan o'n hatebolrwydd i'r Senedd, rydym yn ymateb i geisiadau am wybodaeth gan ASau ac arglwyddi drwy lythyrau, cwestiynau seneddol, yn ogystal â mynychu a threfnu cyfarfodydd a sesiynau briffio. Rydym hefyd wedi dechrau sesiynau briffio Seneddol chwarterol, gyda'r cyntaf yn cael ei gynnal ar 31 Ionawr 2023 ar y farchnad forgeisi.

Mae ein Bwrdd yn cymeradwyo'r Adroddiad Blyneddol a wnawn i'r Senedd yn nodi ein cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi [Adroddiad Perimedr](#) yn esbonio sut y byddwn yn parhau i weithio gyda'r Trysorlys a'r Senedd ar yr heriau a berir gan y perimedr rheoleiddio presennol.

Rheoleiddwyr a phartneriaid rheoleiddio eraill

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, mae'n rhaid i ni gydweithio â rheoleiddwyr eraill. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i:

- rannu gwybodaeth ac arferion gorau
- gwella ffyrdd o weithio
- archwilio materion trawsbynciol

Yn rhyngwladol, rydym yn ceisio siapio:

- yr agenda rheoleiddiol fyd-eang
- polisiau ariannol rhyngwladol

Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo ein gweithgareddau cydweithredu a chydlynu gyda chymheiriaid rheoleiddio ledled y DU ac yn rhyngwladol. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor Goruchwyllo yn cyfarfod yn rheolaidd i ddarparu cefnogaeth a chynghor i'r Bwrdd ar ei berthynas â Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol a'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS).

Eleni, fe wnaethom hefyd gymryd cadeiryddiaeth y Fframwaith Goblygiadau Ehangach. Dyma fecanwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i ymgysylltu â:

- Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol
- FSCS
- Y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR)
- Gwasanaeth Arian a Phensiynau

ynghylch materion a allai gael effaith ehangach ar draws y diwydiant gwasanaethau ariannol.

Rydym yn aelod o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN), sy'n cael ei gadeirio ar hyn o bryd gan Reolwr Gyfarwyddwr y PSR (is-gwmni i'r FCA). Mae'r UKRN yn dod â rheoleiddwyr o ystod o sectorau at ei gilydd i rannu gwybodaeth ac arfer gorau ac i archwilio materion trawsbynciol ac adeiladu ffyrdd gwell o weithio. Rydym yn chwarae rhan weithredol yn rhwydweithiau'r UKRN, gan gynnwys grwpiau Prif Weithredwyr a Chadeiryddion.

Yn yr un modd, rydym yn aelod o Rwydwaith Cystadleuaeth y DU. Mae'r rhwydwaith hwn yn meithrin cydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) a rheoleiddwyr sector fel ni. Mae gennym bwerau cyfraith cystadleuaeth ar yr un pryd â'r CMA.

Drwy'r Fforwm Menter Rheoleiddio Gwasanaethau Ariannol (y Fforwm), mae ein Bwrdd yn ymgysylltu â:

- chynrychiolwyr eraill Banc Lloegr
- yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA)
- y Rheoleiddiwr Systemau Talu (PSR)
- yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)
- y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) ochr yn ochr â'r Trysorlys fel aelod sylwedydd

Mae aelodau'r Fforwm yn cydweithio i gyhoeddi'r Grid Mentrau Rheoleiddiwr. Mae hyn yn nodi'r biblinell reoleiddiol fel y gall y diwydiant gwasanaethau ariannol a rhanddeiliaid eraill ddeall a chynllunio ar gyfer amseru'r mentrau a allai gael effaith weithredol sylweddol arnynt.

Mae ein Bwrdd hefyd yn ymgysylltu â rheoleiddwyr eraill trwy fentrau cydweithredol fel y Fforwm AI Cyhoeddus-Preifat (AIPPF). Mae hwn yn cael ei redeg ar y cyd â Banc Lloegr. Fel aelod o'r Fforwm Cydweithrediad Rheoleiddio Digidol, rydym yn gweithio'n agos ochr yn ochr â:

- CMA
- ICO
- Ofcom

i gefnogi cydweithredu a chydlynu rheoleiddio ar feysydd o bwysigrwydd i'r ddwy ochr mewn marchnadoedd digidol.

Mae Pennod 5 yn rhoi mwy o fanylion am ein hymgylltiad â chyrff rheoleiddio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ein Cyflenwyr

Rydym wedi ymrwymo i feithrin perthynas gref ac arloesol gyda'n cyflenwyr a sicrhau bod ein holl contractau yn cael eu cyflawni yn unol â chydymffurfiaeth lawn gyda rheoliadau caffael perthnasol.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion yn effeithlon ac yn effeithiol, rydym yn dibynnu ar oddeutu 1,000 o gyflenwyr, gan ddarparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau. Mae'r ffordd rydym yn dewis ein cyflenwyr a sut rydym yn meithrin ein perthynas â nhw yn hanfodol i'n galluogi i berfformio ar ein gorau. Rhaid i ni allu dangos bod popeth a brynwn yn darparu Gwerth am Arian (VfM) i ni a'n rhanddeiliaid. Rydym hefyd yn Awdurdod Contractio o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo materion sy'n ymwneud â chaffael a rheoli cyflenwyr i'r Prif Swyddog Gweithredu (COO) yn unol â Dirprwyo'r Awdurdodau Ariannol. Mae'r COO yn sicrhau bod arferion caffael yn cydymffurfio â deddfwriaeth briodol

- bod prosesau caffael yn cael eu hadeiladu o amgylch asesu yn erbyn meini prawf VfM
- rydym yn adolygu telerau ac amodau yn rheolaidd er mwyn galluogi cyflwyno VfM
- rydym yn ceisio adborth gan gyflenwyr cyn, yn ystod ac ar ôl prosiectau caffael
- mae dull strwythuredig o reoli contractau a chyflenwyr, yn seiliedig ar bwysigrwydd cymharol a phroffil risg pob perthynas
- mae'r ymddygiadau a'r safonau rydym yn eu disgwyl gan ein cyflenwyr wedi'u nodi'n glir yn ein Cod Ymddygiad Cyflenwyr.
- rydym yn prynu'n gyfrifol ac yn cadw at ein Polisi Caffael Moesegol
- rydym yn cyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl blynyddol ac yn cyflawni ei ymrwymadau

Ym mis Rhagfyr 2022, gwnaethom ddiweddar ein Cod Ymddygiad Cyflenwyr i egluro ein disgwyliadau, gan gynnwys y rhai ar:

- newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd
- amrywiaeth, tegwch, a chynhwysiad
- cyfreithiau hawliau dynol a chyflogaeth
- ymddygiad moesegol a thriniaeth barchus

Ein cymuned a'r amgylchedd

Mae dinasyddiaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb corfforaethol da yn rhannau pwysig o'n hunaniaeth fel cyflogwr a rheoleiddiwr. Fel cyflogwr cyfrifol, rydym yn ystyried:

- effeithiau cymdeithasol,
- amgylcheddol, ac
- ariannol

ein penderfyniadau a'n gweithredoedd a'n nod yw cyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned ehangach a'n hamgylchedd.

Ein nod yw diogelu defnyddwyr a gwella uniondeb system ariannol y DU. Ond rydym hefyd yn anelu at greu effaith gadarnhaol yn ein cymunedau a'n hamgylchedd. Mae'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu o hyn yn ein gwneud ni'n rheolydd gwell. Mae'r Bwrdd, ynghyd â'n Pwyllgor Gwaith, yn goruchwyllo ein strategaethau ymgysylltu â'r gymuned a chynaliadwyedd.

Mae'r Bwrdd yn cefnogi'n gryf ymgysylltu â'r gymuned yn yr FCA fel un sy'n ymgorffori gwerthoedd ein sefydliad, gan rymuso ein pobl a chyfoethogi'r gymuned ehangach.

Trwy ein rhaglen Cyfrifoldeb Corfforaethol, gall ein pobl wirfoddoli ar gyfer achosion pwysig ledled y DU, codi arian i'n partneriaid elusennol, cymryd rhan yn ein rhaglen pro bono gyfreithiol, a chefnogi ysgolion lleol i ddatblygu sgiliau, hyder a gwytnwch myfyrwyr

drwy ein rhaglen flaenllaw Inspiring Futures.

Rydym hefyd yn rhedeg ein 'Her Prif Weithredwr', sy'n gweld ein carfan gyrfaoedd cynnar yn gweithio ar brosiectau effaith gymdeithasol yn ein cymuned leol. Ers lansio'r rhaglen yn 2010, rydym wedi gweithio gyda dwsinau o elusennau a phartneriaid cymunedol.

Ym mis Awst 2021, fe wnaethom sefydlu ein Hadran Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) a thrwy gydol y flwyddyn ariannol, rydym wedi parhau i ymgorffori ystyriaethau ESG ar draws sut rydym yn rheoleiddio ac yn gweithredu.

Mae hyn wedi cynnwys ffactora materion ESG yn ein Fframwaith Rheoli Risg traws-FCA i sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig ag ESG o niwed i ddefnyddwyr a marchnadoedd yn cael eu hystyried yn y ffordd yr ydym yn goruchwyllo'r diwydiant gwasanaethau ariannol.

Mae ystyriaethau amgylcheddol wedi bod yn ganolog i lawer o'r gwaith hwn. Adlewyrchir hyn trwy gydol ein hymagwedd tuag at Ymrwymiad ESG yn ein Strategaeth tair blynedd. Mae ein gwaith ar ofynion datgelu cynaliadwyedd a labeli buddsoddi yn un enghraifft o sut rydym yn ceisio gwella canlyniadau i ddefnyddwyr sydd am fuddsoddi gydag effeithiau amgylcheddol cadarnhaol mewn golwg.

Rydym wedi nodi crynodeb o gynnydd yn erbyn canlyniadau targed Ymrwymiad ESG ym Mhennod 5.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar draws diwydiant, llywodraeth, cymdeithas sifil ac mewn mannau eraill ar faterion amgylcheddol. Fel rhan o hyn, rydym wedi cysylltu â'r Llywodraeth drwy gydol y flwyddyn ar ddarpariaethau'r Bil Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol sy'n ymwneud â materion amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach ac ar ddiwygiadau y mae'r Llywodraeth yn eu gwneud i'w Strategaeth Cyllid Gwyrdd.

Yn ogystal, rydym wedi chwarae rhan allweddol yn Nhasglu Cynllun Trawsnewid y Llywodraeth (TPT), gan helpu i ddatblygu'r fframwaith sector-niwtral a'r canllawiau cysylltiedig yr ymgynghorodd y TPT arnynt yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi dibynnu'n helaeth ar y fframwaith hwnnw fel rhan o ddatblygu ein Cynllun Trawsnewid Net-sero ein hunain – prif ddatblygiad i ni ar ein taith i fod yn sefydliad mwy cynaliadwy.

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun trawsnewid ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol hwn; mae'n ategu'r datgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a nodir yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd Amgylcheddol (atodiad 4).

Derbyniom hefyd Lythyr 'Cylch Gwaith' newydd gan y Canghellor ym mis Rhagfyr 2022, yn gofyn i ni roi sylw i uchelgeisiau'r llywodraeth ar gyfer darparu cyllid cynaliadwy a chyflenwi buddsoddiad hirdymor i gefnogi twf economaidd y DU, gan gynnwys

cyflenwi cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith. Mae Pennod 5 yn esbonio sut yr ydym yn ystyried y Llythyr Cylch Gwaith yn ein gwaith.

Ochr yn ochr â'n gwaith gyda'r Llywodraeth, rydym wedi parhau i ddarparu arweinyddiaeth meddwl yn rhyngwladol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau yn ein rôl fel Is-gadeirydd Tasglu Cyllid Cynaliadwy'r IOSCO a chyd-arwain ei ffrwd waith Adrodd Corfforaethol.

Ac rydym wedi arwain gwaith o fewn y Rhwydwaith Arloesedd Ariannol Byd-eang (GFIN), fel rhan o fenter profi trawsffiniol gyda rheoleiddwyr eraill, i adnabod sut y gall technoleg wirio hawliadau cynnyrch sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd a chael eu defnyddio i adnabod enghreifftiau o wyrddgalchu.

Rydym yn cefnogi ein Hymrwymiad ESG trwy raglen barhaus o feithrin gallu ar draws y sefydliad. Rydym yn canolbwyntio ar ystod o faterion - gyda materion amgylcheddol i ddefnyddwyr, cwmnïau a marchnadoedd, yn ogystal â'r gymdeithas ehangach, yn dod yn amlwg.

Ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddod yn sefydliad mwy cynaliadwy ac i leihau ein heffaith ein hunain ar yr amgylchedd.

Fel y nodwyd gennym yn ein Datganiad Polisi Amgylcheddol, rydym yn gweithio'n weithredol gyda'n cyflenwyr i gyflawni ein hymrwymiad i arferion amgylcheddol cadarn. Rydym yn eu hannog i ddatblygu a chyflenwi nwyddau a gwasanaethau i helpu i wella perfformiad amgylcheddol. Mae ein gwaith gyda'n cyflenwyr yn rhan allweddol o'r cynllun pontio a grybwyllir uchod.

Darllenwch fwy am ein gwaith cynaliadwyedd amgylcheddol yn ein Cynllun Trawsnewid Net-Sero, Adroddiad Cynaliadwyedd Amgylcheddol a datgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Penderfyniadau Bwrdd a chymryd safbwyntiau rhanddeiliaid i ystyriaeth

Prosesau gwneud penderfyniadau'r Bwrdd

Ystyriodd y Bwrdd farn a diddordebau ystod eang o randdeiliaid yn ystod 2022/2023. Yn yr adran flaenorol, gwnaethom egluro pwy yw'r rhanddeiliaid hyn a rhai o'r ffyrdd y mae'r Bwrdd wedi ymgysylltu â nhw.

Mae cael mynediad at ystod lawn o safbwyntiau yn rhan bwysig o'r ffordd y mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau. Mae FSMA hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ymgynghori'n gyhoeddus â'r diwydiant, defnyddwyr a phartion eraill sydd â diddordeb ar ein rheolau a'n canllawiau cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd a'u cyhoeddi yn ein Llawlyfr.

I lywio ein proses o wneud penderfyniadau, mae unrhyw newid arfaethedig i'n Llawlyfr cynnwys:

- dadansoddiad budd cost
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (EIA)
- arolygon defnyddwyr
- offer dadansoddi eraill

i asesu'r costau a'r buddion rydym yn eu disgwyl o'r newid. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod unrhyw faich neu gyfyngiad a osodir gennym yn gymesur â'r buddion a ddisgwyliwn.

Penderfyniadau allweddol y Bwrdd yn ystod 2022/2023

Fframwaith Rheoleiddio a Diwygio Rheoleiddio yn y Dyfodol	Bu'r Bwrdd yn monitro a chynghori'n ofalus ar ein dull arfaethedig o ymdrin â mesurau diwygio rheoleiddio a throsglwyddo ffeiliau Fframwaith Rheoleiddio'r Dyfodol, gan gynnwys ymgysylltu â'r Trysorlys.
Blaenoriaethu busnes	Ym mis Mai 2022, cymeradwyodd y Bwrdd weithredu sancsiynau ariannol yn dilyn argyfwng geowleidyddol Rwsia - Wcráin a'r ymateb angenrheidiol i'r cynnydd mewn costau byw. Bu'n rhaid i'r Bwrdd ailasesu ei flaenoriaethau ac ailddyrannu adnoddau yn ôl yr angen uniongyrchol.
Cyflawni'r Strategaeth Buddsoddiadau Defnyddwyr	Ym mis Gorffennaf 2022, yn dilyn ymgynghoriad ym mis Ionawr 2022, cymeradwyodd y Bwrdd reolau bron yn derfynol a chyhoeddi'r Datganiad Polisi arfaethedig ar gryfhau rheolau hyrwyddo ariannol yr FCA ar gyfer buddsoddiadau a chymeradwyaethau risg uchel. Amlinellodd y Bwrdd y byddai'n disgwyl i'r rheolau fod yn ymestyn i fuddsoddiadau cryptoasedau risg uchel unwaith y bydd y Trysorlys wedi gwneud deddfwriaeth berthnasol.
Dyletswydd Defnyddwyr Newydd	Ym mis Gorffennaf 2022, cymeradwyodd y Bwrdd yr Offeryn Dyletswydd Defnyddwyr a chynnal goruchwyliaeth o barodrwydd yr FCA a'i ddull o ymgorffori a gweithredu'r Ddyletswydd Defnyddwyr trwy gydol y flwyddyn.
Cynrychiolwyr Penodedig	Yn dilyn ymgynghoriad, ym mis Gorffennaf 2022, cymeradwyodd y Bwrdd reolau terfynol i wella'r drefn Cynrychiolwyr Penodedig sydd wedi'u cynllunio i'w gwneud yn ofynnol i brif gwmnïau sydd â Chynrychiolwyr Penodedig ddarparu mwy o wybodaeth i'r FCA ac i gryfhau eu cyfrifoldebau dros sicrhau cydymffurfiaeth â'n rheolau.

Penderfyniadau allweddol y Bwrdd yn ystod 2022/2023

Fframwaith Datgelu yn y Dyfodol	Ym mis Hydref 2022, cytunodd y Bwrdd y dylem gyhoeddi papur trafod ar y Fframwaith Datgelu yn y Dyfodol ym mis Rhagfyr 2022, gan ganolbwyntio ar ddatgeliadau manwerthu.
Iawndal Pensiwn Budd-dal Diffiniedig	Ym mis Tachwedd 2022, cytunodd y Bwrdd i wneud rheolau iawndal defnyddwyr Cynllun Pensiwn Dur Prydain yn dilyn ymgynghoriad.
Gweithredu'r Amcan Twf Cystadleurwydd Rhyngwladol Eilaidd	Ym mis Tachwedd 2022, cymeradwyodd y Bwrdd y dehongliad argymelledig o'r Amcan Twf Cystadleurwydd Rhyngwladol Eilaidd (SICGO) newydd, y dull o ymdrin â'r gofyniad adrodd newydd a'r dull arfaethedig o weithredu'r Amcan Twf Cystadleurwydd Rhyngwladol (SICGO), y dull gweithredu ar gyfer y gofyniad adrodd newydd a'r dull arfaethedig o weithredu'r SICGO ar draws yr FCA.
Adolygiad o'r Uwch Reolwyr a'r Gyfundrefn Ardystio	Ym mis Chwefror 2023, cytunodd y Bwrdd ar yr amcan cyffredinol arfaethedig a'r nodau allweddol ar gyfer adolygu'r Gyfundrefn Uwch Reolwyr ac Ardystio, adolygiad cydweithredol rhwng yr FCA a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus. Nod yr adolygiad oedd adnabod gwelliannau posibl i'r gyfundrefn.

Tasglu ar ddatgeliadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd (TCFD)

Mae'r bennod hon yn nodi ein dull o reoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae'n cyd-fynd ag argymhellion y TCFD ac mae'n cynnwys ein gweithgareddau rheoleiddio a chorfforaethol.

Fe wnaethom gynhyrchu ein datgeliadau ariannol cyntaf erioed yn ymwneud â'r hinsawdd y llynedd fel adroddiad annibynnol. Mae datgeliadau eleni yn adeiladu ar yr adroddiad hwnnw a, lle bo'n berthnasol, yn croesgyfeirio ato. Mae hyn yn adlewyrchu nad yw rhai o'n datgeliadau wedi newid.

Disgrifio goruchwyliaeth y Bwrdd o risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Ym mis Hydref 2022, diwygiodd y Bwrdd Gylch Gorchwyl pwyllgor perthnasol y Bwrdd i adlewyrchu'r oruchwyliaeth hon yn benodol – gweler Llywodraethu Corfforaethol yr FCA [t.17 Cymal 9, t.23 Cymal 5(e) a Chymal 8(d) t.32 ar y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Risg a'r Pwyllgor Pobl].

Ym mis Rhagfyr 2022, gwnaethom gyhoeddi sefydlu Pwyllgor Cyngori ESG i gefnogi'r Bwrdd i weithredu goruchwyliaeth o faterion perthnasol sy'n gysylltiedig ag ESG fel endid corfforaethol ac fel rheoleiddiwr. Dyma Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyngori.

Disgrifio rôl rheolwyr wrth asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Nid yw rôl rheolwyr, gan gynnwys drwy ein Pwyllgor Gwaith, wrth asesu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi newid ers y llynedd. Mae gan ein Pwyllgor Gweithredol a'n Pwyllgor Polisi a Rheoleiddio Gweithredol gyfrifoldebau penodol dros ystod o faterion sy'n ymwneud ag ystyriaethau hinsawdd.

Mae gan ein Prif Weithredwr, rhai Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwr ESG gyfrifoldebau unigol wedi'u neilltuo iddynt ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Lle bo'n briodol, caiff y rhain eu hadlewyrchu yn eu hamcanion unigol.

Mae gan ein Cyfarwyddwr ESG, sy'n adrodd i'r Prif Weithredwr, fandad i ymgorffori ystyriaethau hinsawdd ac ESG ehangach yn ddi-dor ac yn gynhwysfawr ar draws swyddogaethau'r FCA. Mae rôl y rheolwyr islaw lefel weithredol yn rhoi disgrifiad o gyfrifoldeb rheoli ehangach am hyn.

Disgrifio'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae'r sefydliad wedi'u nodi dros y tymor byr, canolig a hir

Mae sut mae risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithio ar weithrediadau'r FCA ei hun yn rhoi disgrifiad o'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n berthnasol i'n gweithrediadau ein hunain. Mae ein [Cynllun Trawsnewid Sero Net](#) yn ystyried y risgiau a'r cyfleoedd hyn fel rhan o'n hymrwymiad i gyflawni sero net erbyn 2045.

Mae ein hasesiad o sut mae [risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn effeithio ar sectorau ariannol rheoledig](#) yn parhau heb newid ers y llynedd. Rydym yn asesu'r risgiau sy'n wynebu sectorau drwy ein fframwaith Dadansoddi Portffolio a Strategaeth Portffolio mewnol. Mae hyn yn arwain at y llythyrau portffolio rydym yn eu cyhoeddi'n rheolaidd i'r diwydiant.

O ran risgiau, rydym yn ymwybodol o ymchwil gyfnodol sy'n nodi bod y cyfartaledd symudol 10 mlynedd ar gyfer colledion trychineb naturiol yswirio yn parhau i dyfu ar 5-7% yn flynyddol. O ran cyfleoedd, gwnaethom dynnu sylw y llynedd at y rôl y gallai marchnadoedd cyfanwerthu ei chwarae yn y trawsnewidiad. Nodwn [ddata](#) sy'n dangos bod cyhoeddi dyled cynaliadwy wedi gostwng 19% yn 2022 o'r lefelau uchaf erioed a welwyd yn 2021, ond bod hyn yn cyd-fynd â'r gostyngiad yn y cyhoeddiad dyled cyffredinol. Mae dyled gynaliadwy yn parhau i fod yn 5% o'r cyhoeddiad dyled cyffredinol.

Disgrifio effaith risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar fusnesau, strategaeth a chynllunio ariannol y sefydliad

Rydym yn gweithio'n fewnol a thrwy ein hymgylltiad allanol i adnabod ffynonellau newydd o risgiau hinsawdd ac ymatebion strategol priodol. Mae hyn yn cynnwys gyda Phwyllgor Cyngori ESG a'r Fforwm Risg Ariannol Hinsawdd (CFRF) (yr ydym yn ei ymgynnull gyda'r PRA). Fel y nodwyd uchod, ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol hwn, rydym yn cyhoeddi ein Cynllun Trawsnewid Sero Net ein hunain.

Rydym yn parhau i gefnogi trosglwyddiad y sector ariannol i sero net, fel y nodir mewn [strategaethau trawsnewid y sector ariannol a gosod targedau](#) Rydym wedi parhau i weithio'n ddwys o fewn Tasglu Cynllun Trawsnewid y Llywodraeth i helpu i gwblhau'r fframwaith sector niwtral a datblygu canllawiau penodol i'r sector. Mae'r fframwaith sector niwtral yn ffurfio sail ein Cynllun Trawsnewid Sero Net ein hunain.

Mae ein gwaith i adeiladu ecosystem cyllid cynaliadwy effeithiol yn canolbwyntio ar ofynion datgelu, arloesi a stiwardiaeth weithredol gan fuddsoddwyr. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein cynnydd yn erbyn yr ymrwymiad ESG ym mhennod 5 ac yn ein [Cynllun Busnes 2023/24](#).

Disgrifio gwytnwch strategaeth y sefydliad, gan ystyried gwahanol senarios sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys senario 2°C neu is

Yn 2021/22, gwnaethom ddefnyddio 3 senario hinsawdd a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith ar gyfer Gwyrddio'r System Ariannol (NGFS) i gynnal asesiad cychwynnol o [wytnwch ein strategaeth](#). Mae ein dadansoddiad yn parhau heb ei newid..

Disgrifio prosesau'r sefydliad ar gyfer adnabod ac asesu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Yn natgeliadau y llynedd, gwnaethom nodi dull trosfwaol yr FCA o reoli risg. Yn y flwyddyn ddilynol, rydym wedi cymhwyso Fframwaith Rheoli Risg traws-sefydliadol yr FCA i'n gwaith ar faterion hinsawdd ac wedi diwygio ein tacsonomeg risg i ystyried risgiau hinsawdd yn fwy penodol. Mae ein tacsonomeg yn ystyried risgiau niwed a allai godi yn y marchnadoedd yr ydym yn eu goruchwylio, achosion y niwed hynny a lle y gallwn wynebu risgiau gweithredol a gweithredu fel sefydliad (ein 'risg ein hunain'). Mae dadansoddiad yn erbyn y tacsonomeg wedi galluogi i ni adnabod lle mae ein dull o ymdrin â risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn wannach ac i fynd i'r afael â diffygion yn unol â hynny.

Rydym wedi ehangu ein galluoedd adnabod risg ar gyfer materion hinsawdd. Rydym hefyd wedi sefydlu Tîm Gwybodaeth ac Ymgysylltu'r Farchnad i weithio gyda thimau ledled yr FCA i sganio gorrwelion ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Yn ogystal, rydym wedi asesu'r risgiau i ni fel sefydliad o'n trawsnewid i sero net. Gwnaethom nodi yn ein Cynllun Trawsnewid Sero Net sut rydym yn mynd ati i wneud hyn.

Rydym wedi parhau i ehangu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i'n staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall pam bod yr FCA yn poeni am ystyriaethau hinsawdd a sut mae hynny'n berthnasol i'w rolau a lle gall risgiau fod. Rydym wrthi'n datblygu mentrau hyfforddi ac ymwybyddiaeth sy'n ymdrin ag ystyriaethau cynaliadwyedd mewnol hefyd. Mae ein dull trosfwaol o ymdrin â risg yn disgrifio ein proses ar gyfer adnabod ac asesu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Disgrifio prosesau'r sefydliad ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Y llynedd, gwnaethom weithredu fframwaith goddefgarwch risg wedi'i ddiweddarau ar draws y sefydliad. Nid ydym eto wedi datblygu dangosyddion risg allweddol penodol sy'n ymwneud â'n risgiau ei hunain sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Byddwn yn canolbwyntio ar wneud hynny yn ystod y flwyddyn nesaf.

Disgrifio sut mae prosesau ar gyfer adnabod, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu hintegreiddio i reolaeth risg gyffredinol y sefydliad

Rydym wedi integreiddio'r Adran ESG i bwyllgorau goruchwyllo a gwneud penderfyniadau polisi perthnasol sy'n ystyried rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Rydym wedi diwygio ein risg o niwed, achos niwed a'n tacsonomeg risg ein hunain i integreiddio risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Datgelu'r metrigau a ddefnyddir gan y sefydliad i asesu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn unol â'i strategaeth a'i broses rheoli risg

Cyhoeddodd gyfres o ganlyniadau a metrigau rheoleiddiol sy'n gysylltiedig ag ESG ym mis Ebrill 2022 ochr yn ochr â Strategaeth 3 blynedd yr FCA. Rydym wedi darparu diweddariad o'n cynnydd yn erbyn y metrigau hynny ar ein gwefan.

Gellir gweld metrigau a thargedau i reoli ein risgiau a'n cyfleoedd gweithredol ein hunain sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'n perfformiad yn eu herbyn yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd Amgylcheddol (Atodiad 4 i'r Adroddiad Blynyddol hwn) ac yn ein Cynllun Trawsnewid Sero Net.

Datgelu Cwmpas 1, Cwmpas 2 ac, os yw'n briodol, Cwmpas 3 allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) a'r risgiau cysylltiedig

Gellir dod o hyd i allyriadau Cwmpas 1, Cwmpas 2 a Chwmpas 3 GHG yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd Amgylcheddol. Rydym wedi ychwanegu'r dadansoddiad hwnnw yn ein Cynllun Trawsnewid Sero Net.

Disgrifio'r targedau a ddefnyddir gan y sefydliad i reoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a pherfformiad yn erbyn targedau

Mae'r rhain wedi'u nodi yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd Amgylcheddol a'n Cynllun Trawsnewid Sero Net.

Nikhil Rath

Nikhil Rath, Prif Weithredwr



12 Endeavour Square Llundain E20 1JN

Ffôn: +44 (0)20 7066 1000

Gwefan: www.fca.org.uk

Cedwir pob hawl

E02910351

978-1-5286-4109-8